


sportwales  
chwaraeoncymsu

# Cyfrif Dosbarthu'r Loteri



Adroddiad a  
Chyfrifon Blynyddol  
2018-2019



Yn dyfarnu arian / Awarding funds from  
**Y LOTERI GENEDLAETHOL**  
**THE NATIONAL LOTTERY**



Noddir gan  
Lywodraeth Cymru  
Sponsored by  
Welsh Government

## Cyngor Chwaraeon Cymru Cyfrif Dosbarthu'r Loteri

1 Ebrill 2018 – 31 Mawrth 2019

### Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol

#### Hanes a Chefndir Statudol

Enwebodd Deddf y Loteri Genedlaethol ac ati 1993 (fel y'i diwygiwyd) Gyngor Chwaraeon Cymru (sy'n cael ei adnabod oddi wrth ei enw masnachu, Chwaraeon Cymru) fel y corff cyfrifol am ddsbarthu'r cyllid a gynhrychir gan y loteri i chwaraeon yng Nghymru. Mae dyletswyddau Chwaraeon Cymru wrth iddo gyflawni ei swyddogaethau Loteri'n cael eu gweithredu yn unol â'r cyfarwyddiadau cyfrifo a gyhoeddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol ar gyfer Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, yn unol ag Adran 26(1) o Ddeddf y Loteri Genedlaethol ac ati 1993 a'r Datganiad o Ofynion Ariannol a gyhoeddwyd o dan Adran 26(3) y Ddeddf.

#### Rheolaeth

Rheolir a gweinyddir swyddogaeth y Loteri drwy Gyngor Chwaraeon Cymru a'r panelau a sefydlwyd gan Chwaraeon Cymru er mwyn helpu gyda dosbarthu cyllid y Loteri i achosion da yng Nghymru.

#### Swyddfa Gofrestredig

Gerddi Sophia  
Caerdydd  
Cymru  
CF11 9SW





## O bodiymau medalau i gaeau chwarae mewn ysgolion, bydd pobl wrth galon ein gwaith ni.

Wrth i mi edrych yn ôl ar y flwyddyn ddiwethaf o chwaraeon yng Nghymru, mae fy meddwl i'n crwydro at ddigwyddiad bychan welais i wrth feicio ar Lwybr Taf yng Nghaerdydd dros yr Haf. Roedd yn galonogol gweld yr anogaeth oedd gwirfoddolwyr yn ei rhoi i rywun oedd ar fin cwblhau ei 5k gyntaf, ar ôl bod yn methu rhedeg o gwbl fis ynghynt. Fe ddangosodd i mi pa mor bwysig yw ein gwirfoddolwyr ni er mwyn ein helpu ni i gyd i fod yn fwy egniol.

Mae hefyd wedi bod yn flwyddyn eithriadol lwyddiannus i Gymru ar y llwyfan chwaraeon rhyngwladol.

I ddechrau, fe wnaeth Tîm Cymru y genedl yn falch gyda'u cyflawniadau rhagorol yng Ngemau'r Gymanwlad. Llongyfarchiadau i bawb oedd yn rhan o'r llwyddiant na welwyd ei debyg o'r blaen ac i'r holl bobl oedd yn cefnogi tîm Cymru ar ei siwrnai hynod nodedig.

Ymhlith yr uchafbwyntiau eraill yn y byd chwaraeon roedd buddugoliaeth fythgofiadwy Geraint Thomas yn y Tour de France, buddugoliaethau niferus tîm rygbi Cymru a arweiniodd at Gamp Lawn anhygoel, perfformiadau rhagorol tîm pêl droed y merched yn rowndiau cymhwyso Cwpan y Byd, a Menna a Jen yn parhau i reoli llwyfan y byd yn y rasys sgïo Para-Alpaidd.

Mae'r rhain i gyd mor bwysig i broffil Cymru yn rhyngwladol, ond yn fwy na hynny, maent yn parhau i'n cymell ni i gyd, gan danlinellu gwerth chwaraeon i'n bywydau ni, ac i fywyd y Genedl.

Ym mis Gorffennaf lanswyd y Weledigaeth ar gyfer Chwaraeon yng Nghymru, gan y Gweinidogion Vaughan Gething a'r Arglwydd Dafydd Elis-Thomas.

Dylanwadwyd ar y Weledigaeth hon gan y negeseuon pwysig iawn a dderbyniwyd gennym yn ystod digwyddiadau ymgysylltu 'Chwaraeon a Fi – Y Sgwrs'. Mae'n llais casgliadol ar chwaraeon ar gyfer pobl Cymru. Yn sylfaenol, mae'n edrych yn y tymor hir ar sut dylai chwaraeon ddatblygu a ffynnu.

**Er mwyn i hyn ddigwydd, mae cydweithredu'n allweddol.**

Cyhoeddwyd y Gronfa Iach ac Egniol ochr yn ochr â'r Weledigaeth. Gallwn ni yn Chwaraeon Cymru, ochr yn ochr ag Iechyd Cyhoeddus Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru, gydweithio er lles y wlad yn y dyfodol.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rhyddhawyd yr Arolwg ar Chwaraeon Ysgol hefyd, yn dangos canlyniadau a gwelliannau da iawn. Er hynny, mae'r canlyniadau'n cyfeirio at broblem barhaus, sef bod llawer o'n plant ni'n byw bywydau sylfaenol segur. Tynnwyd sylw at hyn mewn adroddiad diweddar gan Bwyllgor Plant y Cynulliad. Rhaid i newid hyn fod yn amcan strategol allweddol i ni a'n partneriaid wrth symud ymlaen, gyda phwyslais arbennig ar gael chwaraeon i fod yn gynhwysol.

**O bodiymau medalau i gaeau chwarae mewn ysgolion, bydd pobl wrth galon ein gwaith ni.**

*L. Conway*  
Lawrence Conway



# Trosolwg Perfformiad

# Mae gwaith tîm yn galluogi i chwaraeon yng Nghymru ffynnu ac nid yw'r flwyddyn ddiwethaf wedi bod yn eithriad.

Fe wnaethom ofyn i bobl beth yw'r heriau a'r cyfleoedd ar gyfer chwaraeon yng Nghymru. Roedd y negeseuon a glywsom yn uchel a chilir: er mwyn i chwaraeon yng Nghymru, ar bob lefel, sicrhau canlyniadau gwell fyth yn y dyfodol, bydd rhaid wrth waith tîm a dyfalbarhad.

Gwelwyd hyn yng Ngemau'r Gymanwlad ar yr Arfordir Aur, gydag angerdd a pherfformiad cannoedd o athletwyr unigol yn dod at ei gilydd ar gyfer Tîm Cymru.

Fe wnaeth agwedd Non Stanford o 'beidio byth ag ildio' yng nghystadleuaeth gyntaf un y Gemau ysbrydoli aelodau eraill y tîm fel model rôl arbennig. Pan enillodd Alys Thomas ei medal Aur yn y ras Pili Pala 200m, nid yn unig wnaeth hi helpu Tîm Cymru i ragori ar gyfanswm ei fedalau aur mewn Gemau Cymanwlad blaenorol, ond roedd ei gwyleidd-dra a'i hemosiwn ar ddiwedd y ras yn gwbl amlwg i bobl Cymru. **Tîm Cymru – grŵp gwylaidd, balch ac unedig o athletwyr sy'n cefnogi ei gilydd ac yn helpu i ysbrydoli'r genhedlaeth nesaf i ddechrau cymryd rhan mewn chwaraeon a'u mwynhau.**

Daeth y cefnogwyr wrth eu miloedd i strydoedd Caerdydd i groesawu Geraint Thomas gartref yn ei siwmpwr felen gan gynnwys dwsinau o blant o glybiau beicio Cymru'n dilyn ar eu beiciau, yn dangos pwysigrwydd y cyswllt rhwng ein modelau rôl gwych a'r rhai sy'n eu hedmygu. Mae ein sêr chwaraeon wedi ymweld ag ysgolion a chlybiau cymunedol ar hyd a lled y wlad i adrodd eu straeon eu hunain ac i annog plant gyda'u hymdrechion chwaraeon hwy.

**Pan mae pobl yn cydweithio, mae canlyniadau'n digwydd.**

O'r 120,000 o blant yng Nghymru a ymatebodd i'r Arolwg diwethaf ar Chwaraeon yng Nghymru i'r cyrff cyhoeddus sy'n llunio Arolwg Cenedlaethol Cymru, mae gennym bellach ddarlun cliriach o chwaraeon ar lawr gwlad yn y wlad a sut gallwn adeiladu arno.

Mae ein ffocws wedi symud yn awr o'r Weledigaeth ar gyfer Chwaraeon yng Nghymru i ddatblygu ein strategaeth tymor hir newydd a fydd yn dangos ein cyfraniad at wneud y weledigaeth yn realiti. Mae Chwaraeon Cymru yn esblygu a bydd y strategaeth newydd yn pennu bwriad a chyfeiriad clir i chwarae rhan flaenllaw mewn cefnogi pobl a sefydliadau i ffynnu.

Gyda datblygiadau mawr yn y ffordd mae chwaraeon yn cael eu cyflwyno, fel datblygiad Chwaraeon Gogledd Cymru, cronfa lach ac Egniol newydd, a'r cyhoeddiad o gyllid cyfalaf ar gyfer cyfleusterau, mae wedi bod yn flwyddyn o dwf drwy bartneriaeth.

**Mae'n hanfodol ein bod yn dal ati i weithio ar y cyd os ydym am gynyddu lefelau gweithgarwch er budd cenedlaethau'r dyfodol ac i roi strategaeth Chwaraeon Cymru ar waith a sicrhau ei bod yn gweithio i bawb.**

*S. Powell*

Sarah Powell



# Y Weledigaeth

Cenedl egniol lle gall pawb fwynhau chwaraeon am oes.



Lansiwyd y **Weledigaeth ar gyfer Chwaraeon yng Nghymru** newydd ym mis Gorffennaf 2018, ar ôl sioe deithiol ymgynghorol helaeth ledled y wlad.

Cynhaliwyd **Chwaraeon a Fi – Y Sgwrs** rhwng mis Tachwedd 2017 a mis Chwefror 2018 a chyrrhaeddodd bobl o gymunedau ym mhob cwr o Gymru gan arwain at 600 o sgysiau.

Yn rhan greiddiol o'r Weledigaeth mae ffocws ar annog ffordd egniol o fyw a chyfranogiad oes mewn chwaraeon drwy amrywiaeth ehangach o brofiadau pleserus a hygyrch.

## Cenedl Egniol

Y Weledigaeth yw creu cenedl egniol. Rydym eisieu i gymaint o bobl â phosib gael eu hysbrydoli i fod yn egniol drwy chwaraeon.

- Gweithio, buddsoddi, dysgu a llwyddo gyda'n gilydd
- Creu profiadau croesawus, hwyliog a diogel
- Datblygu cyfleoedd lleol, gweladwy ac ysbrydoledig
- Sicrhau bod chwaraeon yn hygyrch, cynhwysol a fforddiadwy, heb adael neb ar ôl

Mae'r Weledigaeth ar gyfer Chwaraeon yng Nghymru'n perthyn i bawb yng Nghymru ac mae angen cefnogaeth pawb yng Nghymru er mwyn sicrhau ei llwyddiant.

## #GalluMaeCymru

Drwy ddod at ei gilydd, gall pobl o bob oedran ac o bob cymuned ddatgloi manteision chwaraeon i bawb.

Yn unol â'r Ddeddf Cydraddoldeb, mae'r Weledigaeth yn sbarduno gweithredu i gael gwared ar bob ffurf ar anghydraddoldeb ac mae'n sicrhau bod chwaraeon yn hygyrch, heb adael neb ar ôl.

Mae mwy nag un ffordd o fod yn rhan o'r Weledigaeth

## → Cymryd Rhan

**Bod yn gyfranogwr**

Unrhyw un sy'n cymryd rhan, ar ba lefel bynnag

## → Cefnogi

**Bod yn gefnogwr neu'n rhiant**

Unrhyw un sy'n helpu drwy fod yno, gan gyfrannu amser, egni ac ymdrech

## → Cyflawni

**Bod yn wirfoddolwr neu'n hyfforddwr**

Unrhyw un sy'n helpu drwy greu cyfleoedd i eraill

## → Llwyddo

**Bod y gorau y gallwch fod**

Unrhyw un sy'n cyflawni llwyddiant personol



Sylw i  
Chwaraeon

## Cronfa Iach ac Egniol

Mae partneriaeth yn allweddol wrth gyflawni'r Weledigaeth ar gyfer Chwaraeon yng Nghymru.

Ochr yn ochr â lansiwr Weledigaeth, lansiwyd Cronfa Iach ac Egniol newydd gwerth £5 miliwn mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru, er mwyn gwneud y canlynol:

- Cynyddu gweithgarwch corfforol yn gynaliadwy ymhlith y rhai sy'n segur ar hyn o bryd, neu sydd â lefelau gweithgarwch isel iawn
- Gwella lefelau lles y meddwl drwy hybu rhyngweithio cymdeithasol a chynyddu mynediad i ofod gwyrdd, melyn neu las.

Cawsom fwy na 100 yn Mynegi Diddordeb, amrywiaeth eang o ymgeiswyr, ar gyfer prosiectau a fyddai'n creu cyfleoedd i'r boblogaeth leiaf egniol wella eu lles corfforol a meddyliol drwy weithgarwch corfforol. Fis Ionawr 2019, gwahoddwyd rhestr fer o 43 o ymgeiswyr i gyflwyno Cais Terfynol.



# Gwerth Chwaraeon

Cyhoeddwyd yr adroddiad Elw Cymdeithasol ar Fuddsoddiad (SROI) cyntaf gennym yn manylu ar effaith chwaraeon ar gymdeithas Cymru.

Mae'r adolygiad a gynhaliwyd gan Brifysgol Sheffield Hallam yn darparu mesur cyfannol o werth chwaraeon yng Nghymru, gan gynnwys eu heffaith ar gyfres o bortffolios fel iechyd, addysg, troseddu a chyfraniad economaidd chwaraeon.

## #GwerthChwaraeon i Iechyd

Canfu'r adroddiad bod arbediad o £295 miliwn wedi'i wneud i gyllidebau iechyd wrth i oedolion yng Nghymru gymryd rhan mewn chwaraeon ac ymarfer ar ddwysedd cymedrol. Hefyd canfu'r ymchwil bod cymryd rhan yn rheolaidd mewn gweithgarwch corfforol wedi arwain at hyd at 30% yn llai o risg o salwch mawr.

## Effaith ehangach chwaraeon

Am bob **£1** sy'n cael ei gwario ar chwaraeon yng Nghymru, mae gwerth **£2.88** o effaith gymdeithasol yn cael ei chreu.



sportswales  
chwaraeoncymru




## Sylw i Chwaraeon

## #Gwerth Chwaraeon i Droseddu

Mae Clwb Bocsio Phoenix Llanrhyddni wedi'i leoli yn Nwyrain Caerdydd – ardal o amddifadedd a throseddu mawr. Derbyniodd y clwb ychydig llai na £18k mewn Grant Datblygu i alluogi iddo symud i gyfleuster mwy. Mae ganddo fwy na 120 o bobl y noson yn gwisgo menig bocsio, a'r dosbarthiadau mwyaf yw'r grwpiau oedran 10 i 16 oed. Mae'n gweithio ochr yn ochr â Heddlu De Cymru yn awr, gan ddefnyddio cefnogi cydweithwyr i ddod ag ieuenctid i mewn oddi ar y stryd ac i'r clwb bocsio.

Cenedl **egniol** lle gall pawb  
fwynhau chwaraeon am oes



**1330** o glybiau  
wedi derbyn Dyfarniad gan y Gist  
Gymunedol yn ystod 2018/19

**239**  
o'r dyfarniadau hyn (£294,773)  
wedi'u buddsoddi mewn prosiectau  
sy'n mynd ati'n benodol i

**drechu  
anghydraddoldeb**

**64**  
o Grantiau Datblygu  
wedi'u dyfarnu yn 2018/19, yn dod i  
gyfanswm o  
**£642,209**

■ Un Dyfarniad  
 ■ Dau Ddyfarniad  
 ■ Tri Dyfarniad  
 ■ Pedwar Dyfarniad  
 ■ Pum Dyfarniad  
 ■ Un Ar Ddeg Dyfarniad

Map	Awdurdod Lleol	Cyfanswm Gwerth y Dyfarniadau
1	Blaenau Gwent	1 £1,730
2	Pen-y-bont ar Ogwr	2 £17,465
3	Caerffili	2 £29,998
4	Caerdydd	11 £81,314
5	Sir Gaerfyrddin	2 £9,500
6	Ceredigion	3 £30,583
7	Conwy	1 £15,000
8	Sir Ddinbych	1 £2,882
9	Sir y Fflint	3 £23,768
10	Gwynedd	3 £32,340
11	Merthyr Tudful	2 £29,080
12	Sir Fynwy	2 £12,465
13	Castell-nedd Port Talbot	4 £41,352
14	Casnewydd	3 £37,326
15	Sir Benfro	5 £55,445
16	Powys	4 £43,324
17	Rhondda Cynon Taf	3 £44,000
18	Abertawe	2 £4,616
19	Bro Morgannwg	4 £50,021
20	Torfaen	2 £24,665
Cenedlaethol		4 £55,335
<b>Cyfanswm</b>		<b>64 £642,209</b>



# Chwaraeon Gogledd Cymru

Ar ôl cynnal 4 digwyddiad ymgysylltu ledled Cymru ac yn dilyn cyfraniad gan 250 o bobl, cafwyd y canlynol:

## 3 yn mynegi diddordeb

i arwain Chwaraeon Gogledd Cymru

## 13 yn mynegi diddordeb

i fod yn Bartner Allweddol

Mae Chwaraeon Cymru wedi penodi Partneriaeth Gydweithredol Chwaraeon Gogledd Cymru (PGChGC) i ddatblygu Chwaraeon Gogledd Cymru.

Bydd y bartneriaeth newydd y gyntaf yng Nghymru a bydd yn dod ag amrywiaeth o wahanol sectorau at ei gilydd i sbarduno dull arloesol o weithredu i sicrhau bod Gogledd Cymru'n egnïol, yn iach ac yn hapus.

Bydd camau nesaf y Rhaglen Chwaraeon a Gweithgarwch Cymunedol (CASP) yn cynnwys ymgynghori â rhannau eraill o Gymru ar ehangu'r rhaglen.


[chwaraeoichrhan.cymru](http://chwaraeoichrhan.cymru)



# Lle i Chwaraeon

Ar ddiwedd 2018, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru bod Chwaraeon Cymru wedi cael £5m ychwanegol i gefnogi cyflwyno amrywiaeth o gyfleusterau chwaraeon ledled Cymru.

Cafwyd cymeradwyaeth gan y Bwrdd ym mis Mawrth ar gyfer y prosiectau cyfalaf cyntaf. Lluniwyd y broses ymgeisio derfynol ar gyfer y £4 miliwn sy'n weddill ddiwedd mis Mawrth.



- Un Cae
- Dau Gae
- Tri Chae
- Pedwar Cae
- Pum Cae
- Wyth Cae

Sir	Nifer y caeau 3G
Ynys Môn	1
Blaenau Gwent	1
Pen-y-bont ar Ogwr	2
Caerffili	1
Caerdydd	2
Sir Gaerfyrddin	5
Ceredigion	1
Conwy	2
Sir y Fflint	1
Gwynedd	3
Sir Fynwy	1
Castell-nedd Port Talbot	4
Sir Benfro	2
Powys	4
Rhondda Cynon Taf	8
Abertawe	5
Torfaen	2
Bro Morgannwg	4
Wrecsam	1



💡  
**Sylw i Chwaraeon**

## Caeau 3G a CTA

Mae caeau artiffisial yng Nghymru'n gwneud cyfraniad allweddol at gael pobl i fod yn egnïol drwy gydol y flwyddyn, ac mae eu defnydd gan amrywiaeth o chwaraeon yn golygu bod dull cydweithredol o'u darparu'n ddoeth.

Ffurfiodd Chwaraeon Cymru y 'Grŵp Cyfleusterau Chwaraeon Gweithredol' yn 2014, ynghyd â Chymdeithas Bêl Droed Cymru, Hoci Cymru ac Undeb Rygbi Cymru. Mae gan y grŵp weledigaeth a model y cytunir arnynt yn genedlaethol ar gyfer cynyddu cyfranogiad a datblygu clybiau drwy arwynebau chwarae artiffisial sydd wedi'u lleoli'n briodol ac sy'n addas i bwrpas.

**51**  
o gaeau artiffisial wedi'u cyllido drwy'r Grŵp Cyfleusterau Chwaraeon Gweithredol:

**£3,825,000**  
wedi'i ddarparu drwy gydol cyfnod y cynllun

**11\***  
o brosiectau wedi'u cyllido yn 2018/19

\*Cyfuniad o gyllid gan y Grŵp Cyfleusterau Chwaraeon Gweithredol a'r gronfa Lle i Chwaraeon

Cenedl egniol lle gall **pawb**  
fwynhau chwaraeon  
am oes



# Arolwg ar Chwaraeon Ysgol

Mwy na  
**120,000**  
o ymatebion

Mwy na  
**1000**  
o ysgolion

Arolwg ar Chwaraeon Cymru 2018 oedd y mwyaf ers ei lansio bron i ddegawd yn ôl.

Dangosodd y canfyddiadau duedd galonogol yn y cyfraddau cymryd rhan ymhlith y rhai o grwpiau a dangynrychiolir yn draddodiadol, ond hefyd tynnodd sylw at yr heriau a wynebir o ran mynd i'r afael ag effeithiau amddifadedd.

Yn 2018, mae **46% o ferched** yn cymryd rhan mewn chwaraeon 3 gwaith neu fwy yr wythnos o gymharu â **50% o fechgyn** (yn ychwanegol at wersi AG ar yr amserlen).

46% o ferched

50% o fechgyn

**45% o blant ag anabledd neu nam**

yn cymryd rhan yn awr mewn camp 3 gwaith neu fwy yr wythnos (yn ychwanegol at wersi AG ar yr amserlen).


45%

Mae'r grwp lleiafrif ethnig â'r cyfranogiad isaf, Asiaidd Prydeinig, wedi cynyddu ei gyfranogwyr rheolaidd o **36% i 40%** gan ddod â hwy'n nes at y cyfartaledd cenedlaethol.

36%

40%

Yn y cyfamser mae'n ymddangos bod bwlch mwy ystyfnig rhwng y mwyaf a'r lleiaf difreintiedig, gyda **42% o blant o'r cartrefi mwyaf difreintiedig** yn cymryd rhan 3 gwaith neu fwy yr wythnos (yn ychwanegol at wersi AG ar yr amserlen), **i lawr o 43% yn 2015.**



## Sylw i Chwaraeon

### Dreigiau Bach

Clwb yn y Fenni yw'r Dreigiau Bach, lle mae plant yn rhedeg i fyny mynyddoedd, yn dysgu amrywiaeth o sgiliau ac yn mwynhau'r awyr agored. Cafodd ei sefydlu i ddarparu ar gyfer rhieni clwb rhedeg mynydd y Mynydd Du.

Mae cyllid y Gist Gymunedol wedi bod o help i brynu fflachlampau pen a siacedi llachar. Mae rhai rasys mynydd wedi cael eu trefnu ar gyfer y plant hefyd, ochr yn ochr â'r rasys oedolion.

Dangosodd Arolwg ar Chwaraeon Ysgol 2018 bod **48% o ddisgyblion ysgol** wedi cymryd rhan mewn chwaraeon **dair gwaith neu fwy yr wythnos**

# Yr Arolwg ar Chwaraeon AB a Ffyrdd o Fyw Egniol

Mewn cydweithrediad â Cholegau Cymru, cyhoeddwyd yr Arolwg ar Chwaraeon AB a Ffyrdd o Fyw Egniol mewn colegau ledled Cymru.

Cwblhawyd yr arolwg gan 3,858 o fyfyrwyr o 13 o golegau ac mae'n dilyn yr Arolwg ar Chwaraeon AB cyntaf yn 2015.

**Arolwg ar Chwaraeon Ysgol 2018**

**Penawdau Cenedlaethol**

**Cyfranogiad Cyffredinol**

**48%**

Cymryd rhan mewn Chwaraeon

3 gwaith yr wythnos o leiaf

O gymharu â 48% (2015)

**Cymhelliant**

**96%**

o ddisgyblion eisiau cymryd rhan mewn mwy o chwaraeon

**Cyfle ac Adnoddau**

**99**

o funudau ar gyfartaledd yr wythnos wedi'u neilltuo i AG

**Hyder**

**80%**

o ddisgyblion yn hyderus i roi cynnig ar weithgareddau newydd

**Y Profiad**

**63%**

o ddisgyblion yn mwynhau AG yn fawr

**48%**

o ddisgyblion yn mwynhau chwaraeon allgyrsiol yn fawr

sportswales chwaraeoncymru



**Sylw i Chwaraeon**

**Coleg Cambria**

"Mae'r sesiynau Corff a Meddwl Egniol wedi datblygu dealltwriaeth y myfyrwyr o bwysigrwydd bod yn egniol a bwyta'n iach. Mae'r myfyrwyr yn cael cyfleoedd i fod yn egniol yn ystod gweithgareddau fel ioga a pêl droed. Hefyd maent yn cael cyfle i fynd i'r gampfa. Mae llawer o fyfyrwyr wedi newid eu ffordd o fyw o ganlyniad uniongyrchol i'r sesiynau. Er enghraifft, maent yn yfed mwy o ddwr, maent yn bwyta llai o siwgr ac maent yn treulio mwy o amser yn cymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol."

Donna Welsh  
Swyddog Egniol Cambria

**Coleg Sir Gar**

"Roedd myfyrwyr Iechyd a Gofal Cymdeithasol Lefel 2 wedi siarad gyda'r staff 5x30 am gymryd rhan yn Ras Fwyd 5K Llanelli. Cafwyd sesiynau hyfforddi wythnosol yn arwain at y digwyddiad. Roedd o help i'r myfyrwyr ddod yn fwy heini ac yn iachach, gan wella ymwybyddiaeth o ganser, rhoi hyder a hunanwerth iddynt, yn ogystal â chodi £640. Roedd y digwyddiad yn llwyddiant ac rydym yn edrych ymlaen yn awr at ei wneud yn ddigwyddiad blynyddol."

Natalie Allen  
Swyddog 5x30



# Arolwg Cenedlaethol Cymru





yn cymryd rhan mewn chwaraeon dair gwaith neu fwy yr wythnos

Rhyddhawyd Chwaraeon a Ffyrdd o Fyw Egnïol, rhan o Arolwg Cenedlaethol Cymru, gan Lywodraeth Cymru.


Mae'r arolwg yn cynnwys cyfweiliadau gyda mwy nag 11,000 o oedolion 16 oed a hŷn a ddewiswyd ar hap.

Mae'r cyfranogiad rheolaidd mewn chwaraeon wedi cynyddu ers 2016-17, gyda 32% o oedolion yn cymryd rhan mewn chwaraeon dair gwaith yr wythnos, i fyny o 29%.

Gellir gweld y cynnydd ymhlith gwrywod a benywod, mewn ardaloedd trefol a gwledig, ar draws pob rhanbarth yng Nghymru.



Y gweithgareddau mwyaf cyffredin y cymerodd oedolion ran ynddynt (yn ystod y 4 wythnos ddiwethaf):



## Sylw i Chwaraeon



## Rhwydwaith Fusion

Mae Plas Menai, y Ganolfan Awyr Agored Genedlaethol ar gyfer Cymru, yn gweithio gyda Rhwydwaith Fusion Gwynedd ac yn darparu penwythnos o weithgareddau am ddim ar gyfer teuluoedd o ardaloedd difreintiedig yng Ngogledd Gwynedd. Mae'r gweithgareddau'n helpu gyda chyfathrebu, meithrin hyder a gwaith tîm, yn ogystal â herio unigolion i ddysgu sgiliau newydd.

# Anabledd

Yn 2018/19

**68 o Grantiau'r Gist Gymunedol, gwerth cyfanswm o £86,979**

a

**7 Grant Datblygu (£66,476) yn canolbwyntio ar anabledd.**

# Merched a Genethod

**198 o Ddyfarniadau Grantiau'r Gist Gymunedol**

wedi cefnogi prosiectau Merched a Genethod yn 2018/19

I nodi blwyddyn o Sgwad Ni - menter merched a genethod Chwaraeon Cymru – cynhaliwyd mis cyfan o ddatlu chwaraeon benywod ym mis Awst.



**Pen blwydd 1af**



cyfle i rannu'r holl straeon ysbrydoledig a diddorol o **oursquad.cymru**



**Diwrnod Sgwad Ni**



dathliad o gyfleoedd gweithgarwch corfforol i fenywod yng Nghymru ar gyfryngau cymdeithasol a chystadlaethau gyda gwobrau gan sawl busnes



**Podlediad**



Lowri Morgan yn trafod rhai o'r rhwystrau sy'n atal merched rhag cymryd rhan mewn chwaraeon a sut i'w goresgyn



**Sgwad Ni yn y Parc**



amrywiaeth o weithgareddau ar gyfer teuluoedd gan gynnwys pêl droed, ffirwydd, rhedeg, pêl korf, pêl rwyd, pêl feddal, criced a golff ym Mharc Bute, Caerdydd.



Cefnogodd Chwaraeon Cymru **Gynhadledd Merched mewn Chwaraeon Gogledd Cymru** fis Mehefin, a drefnwyd gan **Network She**, a **Sgwad Ni** gyflwynodd yr araith agoriadol yn y gynhadledd.

Cefnogodd Chwaraeon Cymru **Wobrau Chwarae Teg Womenspire** drwy noddi'r Wobr Chwaraeon (a enillwyd gan Mica Moore).

# DLIE

**20 o Ddyfarniadau'r Gist Gymunedol**

Mae Chwaraeon Cymru yn cefnogi prosiectau DLIE fel rhan o grantiau mwy, fodd bynnag, roedd £25,394 o'r grantiau a dalwyd yn canolbwyntio yn bennaf ar DLIE yn 2018/19.

Yn 2018/19 parhawyd â phrosiect BME Sport Cymru yn yr ardaloedd lle'r oedd pwyslais sylweddol wedi'i roi ar ddatblygu gwaith cydweithredol cadarn. Mae'r elfen ganolog, a weinyddir gan WCVA, wedi canolbwyntio ar

**ehangu proffil chwaraeon DLIE**

drwy gynyddu darpariaeth y cwrs hyfforddi "Cynnwys DLIE mewn Chwaraeon" i gyrff rheoli cenedlaethol ac awdurdodau lleol.



Mae prosiectau **Chwaraeon DLIE Abertawe** a **Chwaraeon DLIE Casnewydd** wedi parhau i dyfu.



**Sylw i Chwaraeon**

**Insport: Chwaraeon Anabledd Cymru**

Mae Insport CRhCh wedi'i sefydlu'n dda yn awr ledled sector chwaraeon Cymru fel nod ansawdd cydnabyddedig ar gyfer chwaraeon cynhwysol a datblygiad chwaraeon, ac mae'r brand insport ei hun yn ennill momentwm a phroffil ymhlith y cymunedau anabl yng Nghymru a'r sefydliadau chwaraeon anabledd yn y Gwledydd Cartref. Mae cyfanswm o 554 o glybiau o bob cwr o Gymru'n gweithio ar hyn o bryd tuag at safon Insport Clwb.

Clwb Canwio Maesteg yw'r clwb diweddaraf i ennill dyfarniad Aur. Mae wedi datblygu cysylltiadau cadarn â'r awdurdod lleol mewn amrywiaeth o fentrau a rhaglenni, gydag anabledd yn ffocws craidd.

Mae Undeb Rygbi Cymru wedi llwyddo i ennill safonau Insport Rhuban ac Efydd i gyrff rheoli cenedlaethol yn ystod 2018/19. Wrth roi ei Strategaeth Rygbi Anabledd ar waith, datblygodd a chyflwynodd URC weithdy DPP Rygbi Anabledd, ochr yn ochr â Chwaraeon Anabledd Cymru, i fwy na 100 o staff darparu.

Llwyddodd yr Urdd i ennill dyfarniad Rhuban 3ydd Sector Insport ym mis Tachwedd 2018, un o'r sefydliadau cenedlaethol cyntaf i ennill y safon.

# Yr Iaith Gymraeg

Mae Chwaraeon Cymru yn cydymffurfio â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Rydym wedi ymrwmo i sicrhau ein bod yn bodloni'r dyletswyddau sydd wedi'u pennu ar ein cyfer ac rydym yn cydnabod y rôl y gall chwaraeon ei chwarae mewn cefnogi datblygiad y Gymraeg yn y gymuned.



I gyd-fynd ag Eisteddfod Genedlaethol 2018, cysylltodd 14 o glybiau o bob cwr o Gymru ag Atebion Clwb (adnodd Chwaraeon Cymru) i ddangos sut mae eu defnydd o'r iaith Gymraeg o fudd i'w clwb – yn dilyn ymgyrch yn hybu modiwl yr iaith Gymraeg ar wefan Atebion Clwb.

[www.clubsolutions.wales/welsh-give-it-a-go-using-the-welsh-language-in-sport/](http://www.clubsolutions.wales/welsh-give-it-a-go-using-the-welsh-language-in-sport/)

## 6 Dyfarniad Grant y Gist Gymunedol

yn canolbwyntio ar yr Iaith Gymraeg  
gwerth cyfanswm o £7,969.00

## 33 aelod o staff

yn Chwaraeon Cymru wedi dweud eu bod yn  
siaradwyr Cymraeg



## Sylw i Chwaraeon

### Y Gymraeg mewn Chwaraeon

Daeth mwy na naw champ a sawl cynrychiolydd o Awdurdod Lleol i sesiwn a drefnwyd gan Chwaraeon Cymru ar Ddefnydd Effeithiol o'r Iaith Gymraeg mewn Marchnata. Roedd yn tynnu sylw at bwysigrwydd defnyddio'r iaith Gymraeg fel adnodd i helpu i ddatblygu chwaraeon. Dangosodd tîm Comisiynydd y Gymraeg arferion gorau a chynnig cyfarwyddyd a chefnogaeth i'r sector.

### Chwarae yn y Gymraeg – Yr Urdd

Nododd yr Urdd ddyhead i ysgolion cyfrwng Saesneg ym Merthyr glywed mwy o Gymraeg yn cael ei siarad ar fuarth yr ysgolion. Cyflwynwyd y prosiect 'Chwarae yn y Gymraeg' mewn partneriaeth ag ysgolion uwchradd Afon Taf a Phen-y-Dre. Dewiswyd plant o bob un o ysgolion cynradd y clwstwr i gymryd rhan mewn gweithdy gan yr Urdd. Yn ystod y gweithdy, cyflwynwyd Arweinwyr Ifanc i gardiau fflach a fydd yn eu galluogi i gyflwyno'r sesiynau ac arwain plant eraill mewn gweithgareddau ar y buarth chwarae.



# Person yn gyntaf wedyn athletwr wedyn pencampwr

Mae Athrofa Chwaraeon Cymru wedi ailddatgan ei bwriad i sicrhau 'llwyddiant cynaliadwy i Gymru ar lwyfan y byd drwy ddull moesegol a chyfannol o ddatblygu athletwyr'.

## Creu systemau

Cydweithredu  
(dull aml-chwaraeon)

Peidio ag arbenigo'n gynnar  
(dull cyfannol)



'Fe ddois i ar draws bocio drwy bêl droed, ac mewn ffordd fe osododd y profiadau hynny ar y cae y sylfaen i mi ragori yn y cylch, a'r canlyniad i mi oedd ennill yr aur ar yr Arfordir Aur'

Lauren Price

sportswales  
chwaraeoncymru



Sylw i  
Chwaraeon

## Dull cyfannol o ddatblygu athletwyr

Mae iechyd meddwl wedi bod yn thema gyson yng ngwaith Athrofa Chwaraeon Cymru yn ystod y chwe mis diwethaf er mwyn helpu i hybu diwylliannau positif mewn chwaraeon elitaidd yng Nghymru. Mae'r tîm cynghori perfformiad wedi bod yn gweithio gydag arweinyddwr perfformiad mewn chwaraeon amrywiol i greu amgylcheddau sy'n galluogi pobl i ffynnu.

Cymerwyd rhan mewn gweithdai'n hybu iechyd meddwl positif mewn 15 o gampau, gan gynnwys mwy na 70 o arweinyddwr perfformiad, hyfforddwyr a staff cefnogi. Hefyd, mae wyth camp (120 yn bresennol) naill ai wedi ymgymryd â hyfforddiant cymorth cyntaf iechyd meddwl eisoes neu wedi trefnu i wneud hynny drwy bartneriaeth gyda Phrifysgol Met Caerdydd.

Cenedl egniol lle gall pawb  
fwynhau chwaraeon  
am oes




# Gweithgarwch Corfforol

Mae gwaith Chwaraeon Cymru ar Lythrennedd Corfforol wedi canolbwyntio ar gefnogi datblygu Maes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Lles yn niwygiad y Cwricwlwm a chefnogi llythrennedd corfforol partneriaid yn seiliedig ar gyflawni mewn lleoliadau cymunedol.


Hefyd cynhaliodd Chwaraeon Cymru Gynhadledd Flynyddol Ryngwladol gyntaf y Gymdeithas Llythrennedd Corfforol yng Nghymru ym mis Mehefin.

# Llysgenhadon Ifanc


Cymerodd 200 o Lysgenhadon Ifanc ran mewn adroddiad am eu profiadau o wirfoddoli fel rhan o raglen yr Youth Sport Trust



93% wedi dweud bod y rhaglen wedi eu helpu i gyfarfod pobl newydd.



96% wedi dweud ei bod wedi gwella eu hyder.



91% yn teimlo eu bod wedi helpu i wella iechyd a lles pobl ifanc eraill.

Ymunodd 108 o ymatebwyr i ddatblygu eu sgiliau a fyddai'n helpu i wella eu cyflogadwyedd, fel sgiliau cyfathrebu ac arwain.

Roedd yr arolwg yn cyd-daro â 9fed Cynhadledd Genedlaethol y Llysgenhadon Ifanc Aur.



## Sylw i Chwaraeon

### Y Rhaglen Pobl Ifanc Egniol

Comisiynodd Chwaraeon Cymru UKRCS Cyf. i gynnal adolygiad annibynnol o'r Rhaglen Pobl Ifanc Egniol a gofynnodd iddynt asesu effeithiolrwydd, effaith a photensial parhaus y rhaglenni. Canmolodd yr adroddiad gyfraniad hirsefydlog y rhaglenni at chwaraeon a gweithgarwch corfforol i bobl ifanc yng Nghymru. Mae'r rhaglenni'n cael eu gwerthfawrogi gan bobl ifanc, ysgolion ac awdurdodau lleol fel ei gilydd, ac maent wedi datblygu o ddull cenedlaethol o weithredu gyda rhaglenni ar wahân i fodel partneriaeth mwy hyblyg, sy'n galluogi awdurdodau lleol i ddefnyddio adnoddau ar draws y prosiectau i ymateb yn y ffordd orau i ofynion lleol. Cyflwynwyd yr adroddiad i Fwrdd Chwaraeon Cymru ym mis Tachwedd a chymeradwywyd ei argymhellion – bydd y rhain yn awr yn helpu i ddylanwadu ar ddatblygu Strategaeth Chwaraeon Cymru.

### Pobl Hyn

Cafodd Canolfan Gymunedol Tonteg ddau grant y Gist Gymunedol ar gyfer ei chlwb Bowlio Dan Do, a chefnogaeth gan Gyngor Rhondda Cynon Taf. Mae'n cynnal sesiynau dwy awr bob bore Mawrth gyda mwyafrif y cyfranogwyr yn bobl hyn, rhai yn eu 80au hwyr. Sefydlwyd y sesiwn i fynd i'r afael ag ynysu cymdeithasol ac unigrwydd.



**Cenedl egniol lle gall pawb  
fwynhau chwaraeon  
am oes**



**Sylw i  
Chwaraeon**

**WE.  
ARE. RED**

Roedd Cymry Coch yn ymgyrch gefnogi genedlaethol ar Fawrth 23ain 2018 ar gyfer Tîm Cymru cyn Gemau'r Gymanwlad.

Roedd yn cynnwys cystadleuaeth i ysgolion cynradd a chyfun, ymgysylltu â gweithleoedd a busnesau a chefnogaeth proffil uchel.

**Rydyn ni'n parchu. Rydwn ni'n credu.  
Rydyn ni'n ysbrydoli.**

## Gwobrau Chwaraeon Cymru

Dathlodd Gwobrau Chwaraeon Cymru 2018 oreuon y byd chwaraeon elitaidd ac ar lawr gwlad yng Nghymru, gyda seremoni fawreddog ac ysbrydoledig yn y Celtic Manor.

Yn y digwyddiad, a gynhaliwyd ar y cyd â BBC Cymru Wales, gwelwyd y beiciwr Geraint Thomas yn gorffen blwyddyn euraid yn cael ei goroni'n Bersonoliaeth Chwaraeon y Flwyddyn BBC Cymru Wales 2018.

Roedd yr enillwyr cymunedol yn cynrychioli cymysgedd amrywiol o wirfoddolwyr, clybiau a sefydliadau sy'n helpu chwaraeon a gweithgarwch corfforol i ffynnu ledled y wlad.

[www.walesportawards.co.uk](http://www.walesportawards.co.uk)



### Y Bartneriaeth Awyr Agored

Cyhoeddwyd enw'r Bartneriaeth Awyr Agored fel Sefydliad y Flwyddyn yng Ngwobrau Chwaraeon Cymru 2018. Mae'n helpu miloedd o bobl i ddefnyddio gweithgarwch awyr agored i wella eu bywydau. Cafodd y Bartneriaeth ei chydabod am ei gwaith yn sbarduno cynhwysiant yn y sector awyr agored, gan gynnwys gyda'i rhaglen Antur y Ferch Hon. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae'r tîm wedi ysbrydoli mwy nag 16,000 o bobl, drwy weithio'n agos gyda'r 45 o glybiau sy'n aelodau o'r Bartneriaeth, partneriaid a chyflogwyr lleol. Mae Gwobr Sefydliad y Flwyddyn yn helpu i gydnabod llwyddiant gydag annog pobl yng Nghymru i gymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol.

Cenedl egniol lle gall pawb  
fwynhau **chwaraeon**  
am oes



Sylw i  
Chwaraeon



## Chwaraeon ac Ymchwil

Mae Athrofa Gwyddoniaeth Perfformiad Cymru (WIPS) yn bartneriaeth sy'n gweithio i wella perfformiad mewn chwaraeon yng Nghymru ac sy'n cynyddu'r cysylltiadau rhwng chwaraeon, academia a busnes. Ymhlith y prosiectau sydd wedi'u cefnogi gan WIPS mae effaith fiogemegol fitamin D ar athletwyr elitaidd a sgiliau ymdopi â chystadlu biometrig ar gyfer hyfforddwyr. Defnyddiwyd prosiect ar 'ddefnyddio bath cynnes ar gyfer cynefino â gwres' gan y cerddwr rasys, Bethan Davies, a aeth ymlaen i ennill medal efydd yng Ngemau'r Gymanwlad.

# Perfformiad Chwaraeon

## Gemau Cymanwlad yr Arfordir Aur

Yn dilyn llwyddiant na welwyd ei debyg erioed dramor daeth Tîm Cymru yn 7fed yn y tabl medalau.

Roedd y casgliad o 36 o fedalau yn cyfateb i'r record o fedalau a enillwyd yn Glasgow yn 2014, gyda'r 10 o fedalau aur yn rhagori ar y pump yn Glasgow ac yr un faint â record Cymru yn Auckland yn 1990. Am drydedd gwaith yn olynol yng Ngemau'r Gymanwlad, rhagorodd merched Cymru ar y dynion o ran ennill medalau, gan gipio 54% o fedalau Cymru.

## Geraint Thomas

Beiciwr Tîm Sky Geraint oedd y trydydd Prydeiniwr yn unig i ennill y Tour de France, a'r Cymro cyntaf.

Enillodd ddau gymal o'r Tour, gan gynnwys cymal 12, oedd yn cynnwys dringfa enwog yr Alpe d'Huez, a gwisgodd y Siwmpwr Felen yn yr 11 cymal olaf. Cafodd groeso gwefreiddiol gartref i Gaerdydd a daeth 2018 i ben iddo drwy ennill Personoliaeth Chwaraeon y Flwyddyn Cymru a'r DU.

## Menna and Jen

Menna Fitzpatrick a'i thywysydd Jen Kehoe yw Paralympiaid y Gaeaf mwyaf llwyddiannus Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon ar ôl cystadlu yn eu Gemau cyntaf yn Pyeong Chang yn 2018.


Llwyddodd y ddwy i ddod dros y godwm a gafwyd yn y gystadleuaeth i lawr allt ar y diwrnod cyntaf i ennill dwy fedal arian a medal efydd, ac wedyn medal aur yn eu ras olaf yn y Gemau yn y slalom. Parhaodd eu llwyddiant yn 2019 ym Mhencampwriaethau Para Alpaidd y Byd lle cipiwyd y fedal efydd ganddynt yn y slalom mawr i gystadleuwyr â nam ar y golwg, arian yn y slalom ac aur yn y gystadleuaeth lawr allt i ferched â nam ar y golwg.




	2006	2008	2010	2012	2014	2016	2018
Gemau Cymanwlad	2 7 10		2 5 12		5 11 20		10 12 14
Gemau Olympaidd		2 0 0		3 3 1		4 6 0	
Gemau Paralympaidd		10 3 1		3 3 8		5 4 0	

# Ein Dyletswyddau

## Safonau Diogelu




## Safon Cydraddoldeb



Yr holl HIS wedi cyrraedd lefel safon cydraddoldeb. .

Mae ymgynghorwyr wedi darparu cefnogaeth cydraddoldeb barhaus i 25 o CRhC Cyllid Uwch. Mae 10 wedi dechrau ar y siwrnai Safon Cydraddoldeb Uwch, gyda 5 wedi'u targedu i gyflawni erbyn mis Mawrth 2020. Y rhain fydd y CRhC cyntaf yng Nghymru i ennill y Safon Uwch.

Yn ystod 2018/19, bu sawl digwyddiad hyfforddi i Swyddogion Arwain Cydraddoldeb



Cyflwyniad i Draws mewn Chwaraeon gyda **25 o unigolion** yn mynychu o **16 CRhC**



Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb gydag **20 o unigolion** yn mynychu o **13 CRhC**



Arweinyddiaeth Strategol a Chydraddoldeb gydag **20 o unigolion** yn mynychu o **12 CRhC**

\*Chwaraeon Buddsoddiad Uchel



## Sylw i Chwaraeon

## Diogelu


Fel rhan o'r pecyn cefnogi Safonau Diogelu, mae'r Uned Amddiffyn Plant mewn Chwaraeon wedi darparu cefnogaeth barhaus i 25 o Gyrff Rheoli Cyllid Uwch ac 17 o Gyrff Rheoli Cyllid Is yn ystod y flwyddyn, yn ogystal ag ymchwilio i anghenion eraill yn y sector, y tu hwnt i'r gyrff rheoli chwaraeon. Mae cynnydd sylweddol wedi bod gyda llawer mwy o Gyrff Rheoli Cyllid Is yn ymwneud â'r broses safonau ac yn mynychu digwyddiadau hyfforddi i swyddogion arweiniol, sy'n helpu i godi proffil yn y maes gwaith allweddol hwn.

# Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn darparu'r fframwaith ar gyfer deall effaith ehangach ein buddsoddiadau y tu hwnt i gynyddu cyfraddau gweithgarwch corfforol.

Amlinellodd y Weledigaeth ar gyfer Chwaraeon yng Nghymru sut gall gyfrannu at Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). Mwy o esiamplau yn:

[www.visionforsport.wales](http://www.visionforsport.wales)



## Cymru lewyrchus

e.e. Hybu Cymru i'r byd drwy berfformiad athletwyr elitaidd Cymru.

## Cymru gydnerth

e.e. Cyflogwyr cyfrifol yn gymdeithasol, yn foeseogol ac yn amgylcheddol yn y sector chwaraeon.

## Cymru iachach

e.e. Darparu cyfleoedd chwaraeon a hamdden i bob oedran, drwy gydol eu hoes.

## Cymru sy'n fwy cyfartal

Profiadau byw ac anghenion cyfredol yr holl ddinasyddion yn cael eu deall.

## Cymru o gymunedau cydlynus

e.e. Cyfranogiad a pherchnogaeth gymunedol ochr yn ochr ag anghenion lleol.

## Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu

e.e. Hybu dwyieithrwydd drwy chwaraeon.

## Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang

e.e. Cyfleusterau'n gynaliadwy ac yn gyfrifol.

Gan weithio gyda Swyddfa Archwilio Cymru a'r Comisiynwyr, rydym wedi addasu dulliau ar gyfer gwelliant parhaus. Fel sefydliad peilot, boom yn gweithio gyda Swyddfa Archwilio Cymru i lunio'r archwilio yn y dyfodol o ran Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae ein dull o weithio gyda chwaraeon cymunedol wedi cael ei adolygu er mwyn hybu datblygiad cynaliadwy yn well ac, mewn partneriaeth â Chyrff Cenedlaethol eraill, rydym wedi mynd ati i hunanadlewyrchu ar ein cynnydd. Cyflwynwyd hyfforddiant bwrdd mewn partneriaeth â chydweithwyr yn Swyddfa Cenedlaethau'r Dyfodol, a oedd yn sail i fframwaith craffu cenedlaethol.

## Cynnydd yn erbyn ein Nodau



### Nod 1: Pobl yng Nghymru'n byw bywydau egniol yn gorfforol ac felly iachach

Partneriaeth Strategol gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru (ICC) a Chyfoeth Naturiol Cymru (CNC). Mae Chwaraeon Cymru, ICC a CNC wedi dechrau datblygu rhaglen waith a fydd yn cyfrannu ar draws y nodau a rennir. Mae egwyddorion datblygu cynaliadwy'n cael eu gweithredu i ddylanwadu ar y gwaith.

### Nod 2:

### Plant a Phobl Ifanc â chymhelliant, sgiliau corfforol, gwybodaeth, dealltwriaeth a chyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol am oes

Mae Swim Safe yn dysgu sgiliau diogelwch dŵr hanfodol i blant 7 i 14 oed, drwy sesiwn hwyliog ond strwythuredig, a gyflwynir gan hyfforddwyr cymwys mewn dŵr agored. Cyflwynodd Plas Menai dri sesiwn Swim Safe yn ystod 2019, gyda mwy na 200 o blant yn cymryd rhan.



### Nod 3:

### Cymru'n cael ei chydabod yn rhyngwladol fel cenedl chwaraeon lwyddiannus.

Dysgu o bob cwr o'r byd i ddylanwadu ar fodel newydd ar gyfer Chwaraeon Cymunedol. Cymerodd Cynghorau Chwaraeon Gemau'r Gymanwlad ran mewn uwchgynhadledd nodedig yn ystod Gemau 2018. Mae Cyfarwyddwr Chwaraeon Cymunedol Chwaraeon Cymru wedi ymweld â Seland Newydd yn ddiweddar a theithiodd cydweithwyr yn Sport New Zealand i Gymru yn ystod 2018 i rannu'r hyn maent wedi'i ddysgu.

### Nod 4:

### Chwaraeon Cymru yn batrwm o sefydliad sy'n sbarduno diwylliant sy'n hybu llesiant, cydraddoldeb a chynaliadwyedd

Comisiynodd dwy Ganolfan Genedlaethol Chwaraeon Cymru Asesiad Hygyrchedd yn ystod 2018 i helpu i benderfynu ar flaenoriaethau ar gyfer cynllunio yn y dyfodol.





# Ein Canolfannau

## Cyfleusterau

Canolfan Genedlaethol Chwaraeon Cymru	Plas Menai
Wedi cwblhau rhaglen o adnewyddu'r llety oedd yn cynnwys gwella hygyrchedd i'r rhai ag anableddau.	Rhaglen gyfalaf i roi sylw i erydu ar waith dur y pwll nofio.

## Cymru Iachach

Canolfan Genedlaethol Chwaraeon Cymru	Plas Menai
Introduced healthier vending and removed high sugar drinks from the cafeteria	Wedi cyflwyno peiriannau gwerthu iach ar draws y ganolfan.


## Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang (Yr amgylchedd a chynaliadwyedd)

Canolfan Genedlaethol Chwaraeon Cymru	Plas Menai
Wedi cyflwyno peiriant dŵr am ddim yn y dderbynfa.	
Wedi cyflwyno cwpanau, cynwysyddion a chyllyll a ffyrcc tecawê y mae posib eu compostio yn y caffi.	Wedi cyflwyno cwpanau tecawê y mae posib eu compostio.
Wedi cael gwared ar becynnau sengl o'r caffi.	Wedi cael gwared ar becynnau sengl o'r caffi.
Wedi newid un car cronfa am gar hybrid. Mae gan bob car cronfa yn y Ganolfan Genedlaethol lai na 100g/km o lefelau allyriadau CO2.	


## Plas Menai

Yn 2018/19, cyflwynodd Plas Menai y canlynol:

**15,183**  
o ddyddiau myfyrwyr  
ar gyfer  
**6,729**  
o bobl o bob oedran  
roedd mwyafrif y rhain yn blant oedran ysgol.



**40%**  
o'r cyfranogwyr wedi dod drwy raglenni cymunedol.



**Mwy na 9 o bob 10 (93%)**  
o ddefnyddwyr Plas Menai wedi cael argraff positif o'r safle yn gyffredinol.

## Canolfan Genedlaethol Chwaraeon Cymru

**144**

o ddigwyddiadau wedi'u cynnal yn y Ganolfan, yn amrywio o Bencampwriaethau Ewropeaidd i Eisteddfodau Ysgol.

Cafodd y Cyrff Rheoli Cenedlaethol **26,539 o oriau o ddefnydd**, gan gynrychioli

**60%**

o ddefnydd cyffredinol.

Mae'r cydbwysedd yn cynnwys defnydd cymunedol.

Aelodaeth Debyd Uniongyrchol yn dod i gyfanswm o

**825, cynnydd o 4.6%**

ar y llynedd

Defnydd cyffredinol ar gyfer y flwyddyn

**242,985**

sportwales  
chwaraeoncymru

sportwales  
chwaraeoncymru



Plas Menai

## Gwerthoedd Chwaraeon Cymru



### Gwaith Tîm

Pwer cydweithio



### Cyflawni

Gwneud gwahaniaeth



### Uchelgais

Ceisio llwyddiant

### Sy'n golygu ein bod yn ymrwymo i'r canlynol:

Cael effaith bositif ar eraill, gan eu hannog a'u cefnogi yn ôl yr angen.

Canolbwyntio ar beth fydd yn gwneud y gwahaniaeth mwyaf – dim ots pa mor fawr neu fach

Gosod ein safonau'n uchel a herio'n adeiladol

Dathlu a chydabod ein llwyddiannau gyda'n gilydd

Ysgwyddo cyfrifoldeb am ein cyflawniad a'n datblygiad ein hunain

Chwilio am syniadau ac arbenigedd newydd o bob cwr o'r byd a bod yn agored iddynt

Parchu eraill ac ennill parch

Ymddiried ym mhrofiad eraill i gyflawni'r dasg a defnyddio eu sgiliau

Mwynhau ac ymfalchïo yn y gwaith rydym yn eu wneud

Buddsoddi amser mewn gwrando'n astud a dod i adnabod y person nid dim ond yr wyneb

Bod yn ddewr i wneud pethau'n wahanol

### A dyma'r Ymddygiad Arweinyddiaeth Gynhwysol sy'n sail i'n gwerthoedd ni:

**HUNANYMWYBYDDIAETH:** monitro ein hymatebion ein hunain i unigolion neu grwpiau ac edrych ar unrhyw anghysonderau (rhagfarn anymwybodol)

**CEISIO SAFBWyNTIAU AMRYWIOL:** ymwneud â rhwydweithiau amrywiol a mynd ati i edrych ar bersbectif unigolion

**TWF:** annog unigolion i wneud eu cyfraniad unigryw; hyfforddi a datblygu unigolion i wireddu eu llawn botensial

**EMPATHI:** gwrando'n astud ar eraill a cheisio bob amser deall ac ymateb i sut maent yn teimlo

**ADBORTH:** rhoi adborth positif er mwyn meithrin hyder; ac ymestyn yr adborth i oresgyn rhwystrau a chreu cadernid


**GWELEDIGAETH:** creu sefydliad amrywiol, ymroddgar a thalentog sy'n arwain yn arloesol ac yn creu cynaliadwyedd ar gyfer y dyfodol

**DERBYN:** derbyn pobl, heb ragfarn. Herio unrhyw iaith a thynnu coes amhriodol gan eraill. Bod yn ddidwyll


**ARWEINYDDIAETH GASGLIADOL:** ysgwyddo cyfrifoldeb llawn am sicrhau diwylliant cynhwysol a chefnogi a herio ein gilydd i gyflawni hyn

Er mwyn creu Diwylliant Cynhwysol lle mae bod yn unigolyn yn cyfrif.


## Bwrdd Chwaraeon Cymru



45% benywod  
a  
55% gwrywod



9% ag anabledd



18% o gefndiroedd DLIE

Cynrychiolir pob ystod oedran o'r 30au i'r 70au.

## Iechyd a Lles yn Chwaraeon Cymru

Yn ystod 2018/19, rydym wedi gweithio'n galed i greu sylfaen o ddiwylliant o les yn Chwaraeon Cymru – gan annog rheolwyr i greu trafodaeth agored a gonest gyda staff am les.

Byddwn yn parhau i ymgorffori'r ymrwymiad hwn drwy ein polisiau a'n harferion, ac yn sicrhau ein bod ni i gyd yn ysgwyddo cyfrifoldeb am les ein gilydd.

Yn ystod 2018/19, rydym wedi gwneud y canlynol:


- ➔ Sefydlu Grwp Llywio Iechyd a Lles newydd a gwell
- ➔ Ymrwymo i ymgyrch Amser i Newid Cymru i leihau'r stigma cysylltiedig ag iechyd meddwl
- ➔ Hyfforddi mwy na ¼ y sefydliad fel Swyddogion Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl
- ➔ Cefnogi'r 30 o gyflogeion a gofrestrodd ar gyfer Hanner Marathon Caerdydd 2018
- ➔ Cyflwyno Gwener Ffrwythau am Ddim yng Nghaffi Hwb (Canolfan Genedlaethol Chwaraeon Cymru)



## Datblygu'r sector

Manteisiodd 13 o gydweithwyr, yn cynrychioli 9 CRhC a Chwaraeon Cymru, ar y cyfle i wella eu sgiliau a'u gwybodaeth am lywodraethu drwy fynychu cymhwyster mewn Llywodraethu Corfforaethol y Sefydliad Siartredig ar gyfer Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifeg (CIPFA). Bydd y dysgu ar y cwrs hwn o help i ddatblygu sgiliau llywodraethu ar draws y sector a gwneud llywodraethu'n fwy effeithiol mewn sefydliadau.

## Pecyn Adnoddau Cydweithredu i Gyrff Rheoli



Datblygwyd y pecyn adnoddau cydweithredu hwn gan weithgor o gynrychiolwyr o **Golff Cymru, Triathlon Cymru, Undeb Rygbi Cymru a Chwaraeon Cymru**. Mae'r adnodd yn esbonio manteision cydweithredu ac yn cynnwys templedi, cynlluniau ac astudiaethau achos i helpu sefydliadau i ddatblygu partneriaethau cydweithredol.

## Llywodraethu ac Arweinyddiaeth

Cyflwynwyd y Fframwaith Llywodraethu ac Arweinyddiaeth yn 2015. I gyd-fynd â'r Weledigaeth ar gyfer Chwaraeon yng Nghymru a newidiadau i lywodraethu chwaraeon ers ei sefydlu, cynhaliwyd adolygiad yn ystod 2018/19. Roedd hon yn broses ymgynghorol gyda phartneriaid allweddol i sicrhau bod y Fframwaith yn parhau i fod 'gan y sector, ar gyfer y sector'.

## Arweinwyr

Mae Chwaraeon Cymru wedi comisiynu Grŵp First Ascent i gyflwyno dau grŵp o'r 'Rhaglen Arweinyddiaeth'. Dechreuodd un ym mis Hydref 2018. Ar ôl cais a diwrnod asesu yn ystod haf 2018, llwyddwyd i recriwtio cyfanswm o 15 o swyddogion o sefydliadau partner ar draws y sector chwaraeon yng Nghymru yn rhan o'r rhaglen.



# Addysg

**Cafodd cam cyntaf y Rhaglen Cyfathrebu Dysgu ac Arloesi adborth rhagorol gan y rhai a gymerodd ran.**

Ers mis Medi 2018, mae'r rhaglen wedi darparu amrywiaeth o gyfleoedd dysgu ar gyfer partneriaid Chwaraeon Cymru – gan gynnwys sesiynau ar gyfryngau cymdeithasol, ffrydio byw a gyrru traffig at wefan.

Mae gwaith ar droed nawr i edrych ar gam nesaf y Rhaglen, sut gellir ei hymestyn i fod yn hygyrch i bob partner a pha themâu eraill y gellir eu cynnwys, fel ymchwil a gwybodaeth.

**12** sesiwn **144** yn bresennol **25** o wahanol bartneriaid



## Sylw i Chwaraeon

## Amrywiaeth Bwrdd

Er bod y Fframwaith Llywodraethu ac Arweinyddiaeth wedi cael effaith gadarnhaol, mae anghydbwysedd rhwng y rhywiau o hyd ar Fyrddau chwaraeon yng Nghymru, sy'n 31% o fenywod a 69% o wrywod ar hyn o bryd. Fis Gorffennaf 2018, gweithredodd Bwrdd Chwaraeon Cymru sefyllfa polisi ar amrywiaeth bwrdd.

Mae gan Chwaraeon Cymru ymrwymiad i gydraddoldeb y rhywiau ac mae wedi cofrestru i addewid 50:50 erbyn 2020 Llywodraeth Cymru i fod â chynrychiolaeth gyfartal o ddynion a merched ar ei fwrdd.

## Chwaraeon Anabledd Cymru ac Addysg Hyfforddwy

31 o gyrsiau Hyfforddiant Cynnwys Anabledd ar gyfer hyfforddwy, gwirfoddolwyr a staff datblygu chwaraeon a hamdden

7 cwrs Active Kids for All Sainsbury's (ar gyfer gweithwyr addysg proffesiynol)

26 cwrs Hyfforddiant Cynnwys Anabledd mini (ar gyfer disgyblion ysgol blynyddoedd 4, 5 a 6 – cyfanswm o 1,579 o ddisgyblion wedi mynychu)

# 2018/19 mewn rhifau

**£1.62 miliwn**


o gyllid grantiau'r Gist Gymunedol  
wedi'i ddyfarnu i

**1330**  
o sefydliadau

i gymryd rhan mewn chwaraeon  
ar lawr gwlad

**55%**

o oedolion eisiau gwneud mwy o  
chwaraeon (Chwaraeon a Ffyrdd o  
Fyw Egniol, 2018)




**41**

o Ddyfarniadau Grantiau Datblygu,  
yn dod i gyfanswm o

**£400,527**

yn canolbwyntio ar Ddatblygu Clybiau



**48%**

o bobl ifanc yn cymryd rhan  
mewn chwaraeon

**3 gwaith neu fwy**  
**yr wythnos**

yn ychwanegol at wersi AG ar yr  
amserlen (Arolwg Chwaraeon Ysgol, 2018)

**15 o gampau**  
a  
**mwy na 70**

o arweinwyr perfformiad,  
hyfforddwyr a staff cefnogi wedi

cymryd rhan mewn  
gweithdai yn hybu

**iechyd**  
**meddwl**  
**positif**

sportwales  
chwaraeoncymru

**Gemau**  
**Cymanwlad**  
**2018**

**228**

o athletwyr wedi cynrychioli  
Tîm Cymru

**62 o athletwyr**  
(mewn cystadlaethau unigol) wedi gorffen  
**ymhlith yr 8 uchaf**

**19 o athletwyr**  
wedi sicrhau Gorau Personol



# Edrych Ymlaen

**Yn ystod Haf 2019 byddwn yn ehangu ac yn codi ymwybyddiaeth o Strategaeth Chwaraeon Cymru.**

Mae hyn yn cyd-fynd ag ehangu Partneriaeth Gydweithredol Chwaraeon Gogledd Cymru.

Bydd cydweithredu a rhoi pobl yn gyntaf yn allweddol wrth symud ymlaen.

Yn nes ymlaen eleni, bydd y Loteri Genedlaethol yn dathlu ei phen blwydd yn 25 oed a bydd Chwaraeon Cymru yn cymryd rhan yn y dathliad o effaith yr arian grant ar glybiau a sefydliadau cymunedol ledled y wlad.

Rydym yn edrych ymlaen at fwy o ddigwyddiadau ar raddfa fawr i ennyn balchder ac angerdd pobl Cymru, o Gwpan Rygbi'r Byd y dynion yn Japan i Gwpan Criced y Byd yng Nghymru a Lloegr a Chwpan y Byd y Digartref yng Nghaerdydd.

**Bydd 2019/20 yn flwyddyn o newid a thwf i chwaraeon yng Nghymru.**



# Dadansoddi Perfformiad

Mae Chwaraeon Cymru yn cynhyrchu Ystadegau Swyddogol ac, o'r herwydd, rydym yn cydymffurfio â'r Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau. Mae hyn yn rhoi sicrwydd i'r cyhoedd, y llywodraeth a sefydliadau eraill bod y data rydym yn eu cynhyrchu o werth, o ansawdd uchel a bod posib ymddiried ynddynt.

Eleni, ar y cyd â phartneriaid cenedlaethol, rydym wedi cyhoeddi Arolwg Cenedlaethol Cymru sy'n edrych ar gyfraddau cyfranogiad chwaraeon ymhlith oedolion. Hefyd rydym wedi cyhoeddi'r arolwg mwyaf erioed ar chwaraeon ysgol yng Nghymru gyda mwy na 120,000 o ddisgyblion yn cymryd rhan.

Yn ystod y cyfnod adrodd yn ôl hwn, rydym wedi cael adolygiadau annibynnol o'r Fenter Nofio Am Ddim, prosiectau Galw Am Weithredu Chwaraeon Cymru a'n Rhaglenni Chwaraeon i Bobl Ifanc. Mae canfyddiadau ac argymhellion yr adolygiadau hyn wedi bod yn rhan greiddiol o ddatblygu ein bwriad strategol sydd wrth galon strategaeth newydd Chwaraeon Cymru.

Hefyd, rydym wedi cyhoeddi'r adroddiad cyntaf erioed ar elw cymdeithasol ar fuddsoddiad, yn manylu ar effaith chwaraeon ar gymdeithas Cymru. Mae'r adolygiad a gynhaliwyd gan Brifysgol Sheffield Hallam yn edrych yn gyfannol ar werth chwaraeon yng Nghymru, gan gynnwys ei effaith ar gyfres o bortffolios, fel iechyd, addysg, troseddu a chyfraniad economaidd chwaraeon. Mae hyn wedi bod yn sail i'r ffocws ar yr angen am i Chwaraeon Cymru weithio ochr yn ochr â chyrff cenedlaethol eraill, fel Iechyd Cyhoeddus Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru. Mae'r gwaith hwn wedi cynnwys sefydlu'r Gronfa Iach ac Egnïol ar gyfer penderfyniad ynghylch fframwaith gwerthuso cyffredin ar gyfer asesu prosiectau.

Rydym wedi cynnal adolygiad o'r tirlun presennol o gaeau chwarae, manylu ar y ddeddfwriaeth sy'n llywio dull Chwaraeon Cymru o weithredu a mapio'r ddarpariaeth bresennol yng Nghymru. Bydd y gwaith hwn yn sylfaen wybodaeth ar gyfer ymyriadau cynllunio yn y dyfodol yn ystod y blynyddoedd sydd i ddod.

Yn olaf, drwy ddatblygu'r Weledigaeth ar gyfer Chwaraeon yng Nghymru a Strategaeth Chwaraeon Cymru, rydym wedi creu fframwaith canlyniadau ar gyfer y sector a'r sefydliad ei hun. Mae'r canlyniadau hyn yn canolbwyntio ar gyflawni yn erbyn y nodau llesiant ar gyfer Cymru a byddant yn caniatáu i gyhoeddiadau yn y dyfodol adrodd ar y cynnydd yn erbyn y mesurau hyn.

## Cyllid y Loteri ac Ychwanegolrwydd

### Mae'n ofynnol i holl ddsbarthwyr y Loteri adrodd ar eu polisïau a'u harferion.

Mae cyllid y Loteri'n wahanol i gyllid y Llywodraeth ac ni ddylai gymryd lle gwariant y Trysorlys. Os yw hynny'n briodol, gall ategu cyllid, rhaglenni a pholisïau'r Llywodraeth a chyllid, rhaglenni a pholisïau eraill.

Wrth i ni asesu ceisiadau am arian, rydym yn sicrhau bod ychwanegolrwydd yn cael ei ystyried. Rydym yn gweithio'n agos â sefydliadau blaengar er mwyn sicrhau bod ein rhaglenni cyllido'n ychwanegu gwerth at gyllid y Llywodraeth a chyllid arall, ond heb gymryd ei le.

### Adolygu Gweithgareddau Dosbarthu'r Loteri Genedlaethol

Yn ystod 2018/19 dosbarthodd Chwaraeon Cymru ddyfarniadau o dan nifer o raglenni grant a gyllid gan y Loteri.

### Grantiau Cyfalaf

Cynyddu nifer y rhai sy'n cymryd rhan a gwella perfformiadau mewn chwaraeon a hamdden gorfforol yw prif nod y gronfa yn ei gweithgareddau.

### Symudiadau ym Malans y Loteri hyd at 31 Mawrth 2019

Mae'r tabl canlynol yn dangos y symudiadau ar bob balans sy'n cael eu dal yng Nghronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol yn ystod y flwyddyn:

Balans ar 1 Ebrill 2018	Colled Heb ei Gwireddu	Incwm a Dderbyniwyd (Net)	Arian o Gronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol	Balans ar 31 Mawrth 2019
(£000)	(£000)	(£000)	(£000)	(£000)
15,541	-	14,474	(15,350)	14,665

Mae'r tabl yn dangos gostyngiad yn y balans sy'n cael ei ddal o £0.876 miliwn, o gymharu â gostyngiad o £2.542 miliwn yn ystod y flwyddyn ariannol flaenorol.

Cyflwynodd Chwaraeon Cymru ei gynlluniau ar gyfer dosbarthu arian y loteri i brosiectau cyfalaf fis Medi 1994. Defnyddir proses ymgeisio dau gam ar gyfer pob cais cyfalaf. Mae cam cyntaf y cais yn galluogi i'r ffocws gwreiddiol fod ar y manteision ychwanegol i chwaraeon ac ar yr amcanion, y nodau a'r rheolaeth arfaethedig sy'n berthnasol i'r prosiect. Mae'r ymgeiswyr yn ceisio cymeradwyaeth dros dro i'w cynllun cyn buddsoddi fel y bo angen er mwyn cyflwyno'r cais llawn, sef ail gam y broses.

Bodlonwyd cyfanswm o £3,655,000 (2017/18 £4,704,000) o gynigion grantiau cyfalaf yn ystod y flwyddyn. Bu gostyngiad o £1,049,000 yn y swm a ddarperir yn y cyfrifon ar gyfer cytundebau wedi'u llofnodi ynghylch grantiau cyfalaf yn 2018/19 (gostyngiad o £1,162,000 yn 2017/18).

### Grantiau Refeniw

Roedd cyfanswm y cynigion grantiau refeniw a fodlonwyd yn ystod y flwyddyn yn £10,488,000 (2017/18 £10,666,000). Gostyngodd y swm a ddarperir yn y cyfrifon ar gyfer cytundebau wedi'u llofnodi ynghylch grantiau refeniw £178,000 yn 2018/19 (gostyngiad o £121,000 yn 2017/18).

## Cynaliadwyedd Amgylcheddol

### Canlyniadau Ariannol

Cyflwynir canlyniadau Dosbarthu'r Loteri Chwaraeon Cymru yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr. Roedd cyfanswm y gwariant net cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn ariannol yn dod i £11,556,000 (cyfanswm gwariant cynhwysfawr o £1,896,000 yn 2017/18). Trosglwyddwyd y swm yma o'r cronfeydd cadw.

Mae datganiad y sefyllfa ariannol ar gyfer 2018/19 yn dangos ffigur o £418,000 (2017/18 £11,974,000) ar gyfer cyfanswm yr asedau net. Y rheswm dros y gostyngiad hwn yw'r estyniad ar gynigion grant 2018/19 i 2019/20 ac felly mae'r ymrwymadau grant wedi cael eu cydnabod yng nghyfrifon 2018/19.

Mae'r Cyfarwyddwyr yn parhau i fabwysiadu'r sail busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol sy'n cymryd y bydd Chwaraeon Cymru yn parhau i weithredu yn y dyfodol rhagweladwy.

### Cynaliadwyedd

Mae Chwaraeon Cymru yn mynd ati i sefydlu polisïau a mentrau sy'n ceisio lleihau effaith ei weithrediadau ar yr amgylchedd. Mae'r Strategaeth Amgylcheddol Gorfforaethol yn ei lle'n llawn ar ôl cael ei chymeradwyo'n flaenorol gan y Bwrdd. Lleihaodd Chwaraeon Cymru ei allyriadau CO2 20% o gymharu â 2017/18, sy'n llawer uwch na'n targed o 3% o ostyngiad blynyddol.

Drwy gydol 2018/19, mae Chwaraeon Cymru wedi parhau i annog y staff i ddefnyddio cynadleddau fideo, Skype a Sharepoint mewn ymdrech i geisio lleihau teithio. Mae hyn wedi arwain at ostyngiad sylweddol yn y gost, y milltiroedd a'r allyriadau CO2 cysylltiedig â theithio o gymharu â 2017/18.

Hefyd mae Chwaraeon Cymru'n dal i gynnig Cynllun Beicio i gyflogeion, i leihau'r defnydd o geir. Gall cyflogeion hawlio lwfans milltiroedd o 20c am bob siwrnai fusnes a wneir ar feic.

Mae Chwaraeon Cymru yn parhau â'i ymrwymiad i weithredu datrysiadau technolegol i helpu i leihau allyriadau a gwastraff os yw hynny'n bosib, fel sgriniau deuol i adolygu dogfennau yn hytrach na'u hargraffu, a thrwy hynny leihau costau papur ac argraffu. Anogir staff i weithio'n hyblyg os yw hynny'n bosib, ac mae hyn wedi arwain at staff yn gweithio o gartref yn fwy rheolaidd. Er nad yw hyn yn cael effaith ar y ffigurau milltiroedd a gofnodir isod (ni all staff hawlio costau milltiroedd am gymudo i'r gwaith), mae'n cyfrannu at lai o dagfeydd traffig ac allyriadau.

Ym mis Mawrth 2018/19, prynodd Chwaraeon Cymru gar cronfa hybrid, a fydd yn sicrhau gostyngiad pellach mewn allyriadau carbon yn y dyfodol.

Mae'r poptai nwy a osodwyd yn eu lle ym Mhlas Menai ar ddiwedd 2017/18 wedi arwain at ostyngiad sylweddol yn y defnydd o drydan, ac mae'r defnydd o nwy / olew nwy wedi lleihau ar draws y ddau safle hefyd.

Mae Cyfradd Weithredol Perfformiad Ynni Canolfan Genedlaethol Chwaraeon Cymru yn parhau ymhell o dan y radd nodweddiadol ar gyfer y math o adeilad ac mae'r ganolfan yn parhau i weithredu yn unol â chanllawiau Hierarchaeth Gwastraff ac mae'n gweithredu System Rheolaeth Amgylcheddol.

Bu cynnydd o 11.6% mewn gwastraff o gymharu â 2017/18. Y rheswm am hyn oedd oherwydd cynhyrchu llawer iawn o wastraff gwyrdd a deunyddiau i'w hailgylchu yn ystod y flwyddyn. Yn 2017/18, cafodd 44% o holl wastraff y ganolfan ei ailgylchu. Roedd hwn yn gynnydd sylweddol o gymharu â 2016/17 (38%).

# Adroddiad y Cyfarwyddwyr

## Y Bwrdd

Yn ystod 2018/19, roedd Chwaraeon Cymru yn cynnwys yr aelodau bwrdd canlynol:

<b>Mr Lawrence Conway*/**</b>	(Cadeirydd Penodwyd 01.09.2018)
<b>Ms Pippa Britton**</b>	(Is Gadeirydd Penodwyd 01.10.2017)
<b>Ms Julia Longville</b>	(Wedi Ymddeol 31.08.2018)
<b>Mr Peter King*</b>	(Wedi Ymddeol 31.08.2018)
<b>Ms Samar Small*</b>	(Wedi Ymddiswyddo 20.06.2018)
<b>Ms Johanna Sheppard*</b>	(Ailbenodwyd 01.09.2015)
<b>Mr Richard Parks</b>	(Ailbenodwyd 01.09.2017)
<b>Mr Ashok Ahir*</b>	(Penodwyd 01.10.2017)
<b>Mr Ian Bancroft</b>	(Penodwyd 01.10.2017)
<b>Mr Christian Malcolm</b>	(Wedi Ymddiswyddo 31.12.2018)
<b>Ms Alison Thorne*</b>	(Penodwyd 01.10.2017)
<b>Ms Judi Rhys*</b>	(Penodwyd 01.09.2018)
<b>Prof Leigh Robinson</b>	(Penodwyd 01.09.2018)
<b>Mr Martin Veale*</b>	(Penodwyd 01.09.2018)
<b>Mr Phil Tilley</b>	(Penodwyd 01.09.2018)

**Prif Weithredwr** Ms S Powell

\* Aelod o'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg

\*\* Aelod o'r Pwyllgor Tâl

Bu cynnydd yn y defnydd o ddŵr yn 2018/19, yn bennaf oherwydd yr haf poeth, oedd yn golygu bod y twll turio dŵr wedi sychu.

Mae Plas Menai wedi parhau i weithredu ei Bolisi Amgylcheddol ac mae'r adnewyddu parhaus ar yr adeilad wedi bod yn gyfle i ni uwchraddio i systemau mwy ynni effeithlon a adlewyrchir yn y gwelliannau a ddangosir yn y tablau. Ar ôl gwelliannau yn ystod y blynyddoedd blaenorol, mae'r adnewyddu yn 2018/19 wedi arwain at ostyngiad pellach yn y radd DEC, sydd bellach yn D.

Yn ystod y 12 mis nesaf byddwn yn parhau i chwilio am gyllid ar gyfer gosod paneli solar yn eu lle a hefyd yn parhau â'n rhaglen o adnewyddu ac uwchraddio i oleuadau a systemau gweithredu mwy ynni effeithlon.

## SWYDDOG CYFRIFO:

**S Powell**  
30ain Awst 2019

## Datgan Buddiannau

Mae holl Aelodau ac uwch staff Chwaraeon Cymru wedi llenwi ffurflen yn manylu ar unrhyw fuddiannau sydd ganddynt mewn Sefydliadau sy'n darparu, neu'n ceisio darparu, gwasanaethau masnachol i Chwaraeon Cymru ar gyfer 2018/19. Mae'r wybodaeth a ddarperir, sy'n galw am ddatgeliad yn unol â Safon Gyfrifo Ryngwladol 24, yn cael ei datgelu yn Nodyn 17 y cyfrifon hyn.

## Digwyddiadau Cysylltiedig â Data Personol

Mae gan Chwaraeon Cymru fesurau rheoli a pholisïau yn eu lle i sicrhau integriti'r data. Mae ei systemau Technoleg Gwybodaeth yn sicrhau mesurau llym o ran rheoli diogelwch ffisegol data. Cyn belled ag y gwyddom ni, ni chollwyd unrhyw ddata yn ystod y cyfnod sy'n cael ei adolygu.

## Canfod a Rheoli Risg

Ceir manylion am Reoli Risg yn adran Rheoli Risg y Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar dudalen 69

## Polisi talu cyflenwyr a'r perfformiad a gyflawnwyd

O dan Ddeddf Talu Dyledion Masnachol yn Hwyr (Llog) 1998 ac yn unol â'r Cod Ymarfer Talu Gwell (sydd ar gael yn [www.payontime.co.uk](http://www.payontime.co.uk)), mae'n ofynnol i Chwaraeon Cymru dalu anfonebau cyflenwyr nad oes anghydfod yn eu cylch o fewn 30 diwrnod i dderbyn y nwyddau neu'r gwasanaethau neu anfoneb ddilys, pa un bynnag yw'r hwyraf.

Nod Chwaraeon Cymru yw talu 100% o'i anfonebau, gan gynnwys yr anfonebau y mae anghydfod yn eu cylch, unwaith y mae'r anghydfod wedi cael ei setlo, yn unol â'r telerau hyn. Yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2019, talodd Chwaraeon Cymru 99% (2017/18 98%) o'i holl anfonebau gan gadw at delerau ei bolisi talu. Ni chodwyd unrhyw log yn ystod y flwyddyn o ganlyniad i daliadau hwyr.



## Offerynnau Ariannol

Ceir manylion yr offerynnau ariannol yn nodyn 1.10 a nodyn 16 y datganiadau ariannol.

## Tâl Archwilwyr

Yn ystod 2018/19, ni wnaed unrhyw waith heb fod yn waith archwilio gan ein harchwilydd allanol, y Goruchwilydd a'r Archwilydd Cyffredinol. Datgelir y ffi archwilio yn nodyn 8 yn y datganiadau ariannol.

# Datganiad o Gyfrifoldebau'r Cyngor a'r Prif Weithredwr

O dan Adran 35 (2) - (3) Deddf y Loteri Genedlaethol ac ati 1993, mae'n ofynnol i Gyngor Chwaraeon Cymru (Chwaraeon Cymru) baratoi datganiad o gyfrifon ar gyfer y cyfnod ariannol ar ffurf ac ar sail a benderfynir gan yr Ysgrifennydd Gwladol ar gyfer Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, gyda chaniatâd y Trysorlys. Paratoir y cyfrifon ar sail gronol ac mae'n rhaid iddynt gyflwyno darlun cywir a theg o weithgareddau Dosbarthu Loteri Chwaraeon Cymru ar ddiwedd y flwyddyn, ac o'i incwm a'i wariant a'r newidiadau mewn ecwiti a llif arian ar gyfer y flwyddyn ariannol.

Wrth baratoir cyfrifon, mae'n ofynnol i'r Swyddog Cyfrifo a'r Cyngor gydymffurfio â gofynion Llawlyfr Cofnodion Ariannol Trysorlys EM ac, yn arbennig, cyflawni'r canlynol:

- Cadw at y cyfarwyddyd cyfrifon a gyhoeddir gan yr Ysgrifennydd Gwladol ar gyfer Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, gan gynnwys y gofynion cyfrifo a datgelu perthnasol, a defnyddio polisiâu cyfrifo addas ar sail gyson;
- Gwneud penderfyniadau ac amcangyfrifon ar sail resymol;
- Datgan a gadwyd at safonau cyfrifo priodol, fel y nodir yn Llawlyfr Cofnodion Ariannol Trysorlys

## Datganiad ar Ddatgelu Gwybodaeth Archwilio Berthnasol

1. Cyn belled ag y gŵyr y Swyddog Cyfrifo, nid oes gwybodaeth archwilio berthnasol nad yw'r archwilwyr yn ymwybodol ohoni, ac
2. Mae'r Swyddog Cyfrifo wedi cymryd pob cam angenrheidiol er mwyn sicrhau ei bod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio ac er mwyn sefydlu bod yr archwilwyr yn ymwybodol o'r wybodaeth honno

EM, a datgelu ac egluro unrhyw wyro sylfaenol yn y datganiadau ariannol; a

- Paratoir datganiadau ariannol ar sail busnes gweithredol, oni bai ei bod yn amhriodol rhagdybio y bydd y gronfa'n parhau i weithredu.

Mae Prif Swyddog Cyfrifo Llywodraeth Cymru wedi dynodi'r Prif Weithredwr fel Swyddog Cyfrifo Chwaraeon Cymru. Mae ei chyfrifoldebau perthnasol fel Swyddog Cyfrifo ar gyfer gweithgareddau dosbarthu'r Loteri, gan gynnwys ei chyfrifoldeb am briodolrwydd a rheoleidd-dra'r cyllid cyhoeddus y mae'r Swyddog Cyfrifo yn atebol amdano, am gadw cofnodion priodol ac am ddiogelu asedau Chwaraeon Cymru, wedi'u datgan ym Memorandwm Swyddogion Cyfrifo Llywodraeth Cymru a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM.

Rwyf yn cadarnhau bod yr adroddiad a'r cyfrifon blynyddol yn eu cyfanrwydd yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy a'm bod yn ysgwyddo cyfrifoldeb personol am yr adroddiad a'r cyfrifon blynyddol a'r farn dros benderfynu eu bod yn deg, cytbwys a dealladwy.

## SWYDDOG CYFRIFO:

**S Powell**  
30ain Awst 2019

# Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2018/2019

## Cyflwyniad

Mae'r Datganiad Llywodraethu'n dwyn at ei gilydd i un lle bob datgeliad am faterion perthnasol i lywodraethu sefydliad, risg a rheolaeth. Fel Swyddog Cyfrifo, rwyf i'n bersonol gyfrifol am y Datganiad Llywodraethu sy'n amlinellu sut rwyf wedi defnyddio fy nghyfrifoldeb i reoli adnoddau Chwaraeon Cymru yn ystod y flwyddyn.

Fel Swyddog Cyfrifo, rwyf wedi adolygu Llywodraethu Corfforaethol mewn Llywodraeth Ganolog: Cod Ymarfer Da 2017 ac yn credu bod Chwaraeon Cymru wedi cydymffurfio'n llawn ag elfennau perthnasol y cod mewn perthynas â'i swyddogaethau Trysorlys a Loteri.

## Llywodraethu Corfforaethol

### Y Bwrdd

Llywodraethu Corfforaethol yw'r system ar gyfer cyfarwyddo a rheoli sefydliadau. Mae Bwrdd Chwaraeon Cymru'n gyfrifol am lywodraethu Chwaraeon Cymru ac Ymddiriedolaeth Cyngor Chwaraeon Cymru. Rôl y Bwrdd yw ei fodloni ei hun bod strwythur llywodraethu priodol yn ei le a chraffu ar berfformiad y pwyllgor gweithredol a gwaith y sefydliad yn cyflawni Gweledigaeth Chwaraeon Cymru.

Mae Bwrdd Chwaraeon Cymru'n cynnwys Cadeirydd, Is Gadeirydd a hyd at ddeuddeg aelod arall ac fe'u penodir i gyd gan Lywodraeth Cymru. Mae cyfansoddiad y Bwrdd yn cynnwys cynrychiolaeth o draws-doriad eang o wahanol broffesiynau ac aelodau sydd ag arbenigedd a phrofiad perthnasol i chwaraeon cymunedol ac elitaid.

Yn dilyn yr Adolygiad Sicrwydd a gynhaliwyd gan Lywodraeth Cymru yn ystod 2016/17, penodwyd Lawrence Conway fel Cadeirydd dros dro, am gyfnod o 12 mis i ddechrau, a chafodd y cyfnod hwnnw ei ymestyn i 18 mis wedyn tan Awst 2018. Cafodd y broses i benodi Cadeirydd parhaol o fis Medi 2018 ymlaen ei rhoi ar waith gan Lywodraeth Cymru ym mis Chwefror 2018.

Yn ystod y flwyddyn, penodwyd y Cadeirydd dros dro blaenorol, Lawrence Conway, fel Cadeirydd o 1af Medi 2018 ymlaen, ar ôl proses recriwtio a gynhaliwyd gan Lywodraeth Cymru.

Yn ystod y flwyddyn, penododd Llywodraeth Cymru bedwar aelod Bwrdd newydd, sef Judi Rhys, yr Athro Leigh Robinson, Phil Tilley a Martin Veale. Gadawodd pedwar o aelodau presennol y Bwrdd, sef Julia Longville (ei thymor wedi dod i ben), Peter King (ei dymor wedi dod i ben), Samar Small (ymddiswyddodd oherwydd newid yn ei amgylchiadau gwaith) a Christian Bale (ymddiswyddodd i dderbyn rôl newydd dramor). Diolchaf iddynt am eu gwasanaeth ymroddedig i Chwaraeon Cymru yn ystod eu tymhorau gwasanaethu a chroesawaf yr aelodau newydd yn gynnes.

Mae Chwaraeon Cymru wedi ymrwymo i gydraddoldeb ac amrywiaeth ei Fwrdd, sydd bellach yn cynnwys 45% o ferched, 18% DLLE ac mae 9% yn ystyried eu hunain fel unigolion ag anabled.

Gwelir y presenoldeb yng nghyfarfodydd y Bwrdd a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn y tabl isod

Aelod Bwrdd	Cyfarfod Bwrdd (Nifer y cyfarfodydd a fynychwyd allan o 5)	Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg (Nifer y cyfarfodydd a fynychwyd allan o 4)
Lawrence Conway <sup>1</sup> (Cadeirydd)	5 / 5	3 / 3
Pippa Britton (Is Gadeirydd)	5 / 5	Amherthnasol
Peter King <sup>2</sup>	2 / 2	1 / 1
Julia Longville <sup>2</sup>	1 / 2	Amherthnasol
Johanna Sheppard <sup>3</sup>	2 / 3	1 / 3
Richard Parks	2 / 5	Amherthnasol
Samar Small <sup>4</sup>	1 / 1	0 / 1
Ashok Ahir	3 / 5	2 / 4
Ian Bancroft	5 / 5	Amherthnasol
Christian Malcolm <sup>5</sup>	2 / 4	Amherthnasol
Alison Thorne	5 / 5	3 / 4
Judi Rhys <sup>6</sup>	3 / 3	1 / 1
Leigh Robinson <sup>6</sup>	3 / 3	Amherthnasol
Martin Veale <sup>6</sup>	3 / 3	3 / 3
Phil Tilley <sup>6</sup>	3 / 3	Amherthnasol
<b>(Aelodau Annibynnol – Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn unig)</b>		
Gareth Jones	Amherthnasol	3 / 4
Robert Williams	Amherthnasol	4 / 4
<b>Canran Gyffredinol y Gyfradd Bresenoldeb</b>	<b>83%</b>	<b>75%</b>

<sup>1</sup>Penodwyd 01.09.2018

<sup>2</sup>Ymddeolodd yr Aelod 31.08.2018

<sup>3</sup>Ar absenoldeb mamolaeth rhwng mis Ionawr a mis Awst 2018. Dychwelodd ar 01.09.2018

<sup>4</sup>Ymddiswyddodd 20.06.2018

<sup>5</sup>Ymddiswyddodd 31.12.2018

<sup>6</sup>Penodwyd 01.09.2018

Er mwyn cyflawni ei gyfrifoldebau a chael y sicrwydd sy'n ofynnol bod arferion llywodraethu da yn eu lle, mae dau bwyllgor parhaol arall wedi'u sefydlu; Y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a'r Pwyllgor Tâl.

### Polisi Chwythu'r Chwiban

Mae gan Chwaraeon Cymru Bolisi Chwythu'r Chwiban wedi'i sefydlu a'i gymeradwyo gan y Bwrdd. Mae'r manylion i'w gweld yn Llawlyfr y Staff. Yn ystod 2018/19, nid oedd Chwaraeon Cymru yn ymwybodol o unrhyw ddigwyddiadau a gofnodwyd. Rydym yn credu bod y polisi'n effeithiol ac mae gan y staff fynediad llawn iddo, os oes angen. Mae'r polisi'n cael ei adolygu'n achlysurol, gyda Llawlyfr y Staff.

### Y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg

Mae'r Bwrdd wedi sefydlu Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg i'w gefnogi gyda chyflawni ei gyfrifoldebau o ran risg, rheolaeth fewnol a llywodraethu, drwy gyfrwng y canlynol:

- Adolygu pa mor gynhwysfawr yw'r prosesau, y mesurau rheoli, yr archwiliadau a'r mesurau eraill cyfredol o ran diwallu anghenion sicrwydd y Bwrdd a'r Swyddog Cyfrifo;
- Adolygu dibynadwyedd ac integriti'r sicrwydd a ddarperir gan y weithrediaeth a'r archwilwyr mewnol ac allanol;
- Cyflwyno barn ar ba mor dda mae'r Cyngor a'r Swyddog Cyfrifo'n cael eu cefnogi wrth wneud penderfyniadau a chyflawni eu rhwymedigaethau atebolrwydd (yn enwedig o ran Cofnodion Ariannol);
- Mae'r risgiau y tynnir sylw atynt yn cael eu neilltuo i Gyfarwyddwyr Corfforaethol a manylir ar gamau gweithredu i liniaru ar y gofrestr risg.

Penododd y Bwrdd Martin Veale fel Cadeirydd newydd y Pwyllgor i gymryd lle Peter King. Rydym yn ddiolchgar i Peter am ei gyfraniad arwyddocaol at ddatblygiad y Pwyllgor yn ystod ei gyfnod fel Cadeirydd.

Ffarweliodd y Pwyllgor hefyd â Samar Small a dymuna'r Bwrdd fynegi ei werthfawrogiad am gyfraniadau Samar. Penodwyd Judi Rhys yn aelod o'r Pwyllgor.

Yn ystod 2018/19, parhaodd Chwaraeon Cymru i ddatblygu'r 'Fframwaith Sicrwydd' i ategu'r broses rheoli risg. Pwrpas y Fframwaith yw cofnodi lefel y sicrwydd, yn fewnol ac yn allanol, yn y prosesau busnes er mwyn darparu i'r Swyddog Cyfrifo a'r Bwrdd y sicrwydd gofynnol. Caiff hyn ei fonitro'n rheolaidd gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg

Mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn cynnwys hyd at bum aelod, gyda dau'n gallu bod yn annibynnol, ac mae angen o leiaf un aelod annibynnol. Cyfarfu'r pwyllgor bedair gwaith yn ystod y flwyddyn ac roedd cyfradd bresenoldeb gyffredinol yr aelodau'n 75%.

Yn ystod y flwyddyn, roedd meysydd ffocws y Pwyllgor yn cynnwys (ond nid oeddent yn gyfyngedig i) y canlynol

- gweithredu ac effeithiolrwydd y fframwaith rheoli a sicrwydd risg;
- adroddiadau archwilio mewnol yn rhoi sylw i feysydd busnes penodol ac adroddiad yr archwiliad mewnol blynyddol;
- yr Adroddiad a'r Cyfrifon Blynyddol a'u fformat;
- arsylwadau a wnaed gan archwiliad allanol, yn enwedig y llythyr rheoli blynyddol;
- cydymffurfiaeth â'r Ddogfen Fframwaith a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru, yn ogystal â chydymffurfiaeth â Datganiad y Loteri o Ofynion Ariannol;
- dogfen y Fframwaith Llywodraethu;
- cydymffurfiaeth reoleiddio;
- adolygu cyllid grant;
- adolygu systemau ariannol craidd;
- adolygu costau Aelodau'r Bwrdd;
- adolygu'r Gofrestr Rhoddion a Lletygarwch;
- cytuno ar gynllun archwilio mewnol y flwyddyn.

Derbyniodd y Bwrdd gofnodion y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg ym mhob cyfarfod ac mae'n cael cyngor y Cadeirydd Archwilio mewn perthynas ag unrhyw faterion arwyddocaol. Hefyd mae'r Cadeirydd Archwilio'n cyflwyno adroddiad blynyddol ffurfiol ar waith y pwyllgor i'r Bwrdd. Mae'r systemau TG yn sicrhau bod rheolau llym mewn grym parthed diogelwch ffisegol data. Yn 2018/19, nid oedd unrhyw faterion risg gwybodaeth nac unrhyw wendidau rheoli arwyddocaol i adrodd yn ôl yn eu cylch ac roedd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn fodlon bod lefel y risg yn dderbyniol ac yn cael ei rheoli mewn ffordd briodol.

## Y Pwyllgor Tâl

Mae'r Pwyllgor Tâl yn cyfarfod i adolygu ac argymhell ar gyfer cymeradwyaeth i Lywodraeth Cymru gyflog y Prif Weithredwr a'r dyfarniad tâl blynyddol ar gyfer y staff i gyd drwy gyfrwng proses cylch gwaith tâl Llywodraeth Cymru. Mae rhagor o fanylion ar gael yn yr Adroddiad Tâl a Staff ar dudalen 72.

## Yr Uwch Dîm Rheoli Gweithredol

Mae'r Weithrediaeth, o dan arweiniad y Prif Weithredwr, yn atebol i'r Bwrdd am ddatblygu a gweithredu strategaethau a pholisïau ac adrodd yn ôl arnynt.

Mae'r Weithrediaeth yn cyfarfod yn rheolaidd, bob pythefnos fel rheol, i drafod a chytuno ar faterion corfforaethol. Cynhelir cyfarfodydd misol ffurfiol sy'n dilyn agenda a chedwir cofnodion i sicrhau ein bod yn cofnodi penderfyniadau ar lefel gorfforaethol. Mae'r cynnydd yn erbyn y Cynllun Busnes yn cael ei gofnodi a'i fonitro'n chwarterol.

## Effeithiolrwydd y Bwrdd a'r Pwyllgor

Yn ystod y flwyddyn, gwelwyd datblygu llywodraethu da'n parhau. Penodwyd Arweinydd Llywodraethu Corfforaethol, Cynllunio a Sicrwydd i weithio'n agos gyda'r Bwrdd i wella'r trefniadau llywodraethu yn y sefydliad ymhellach. O dan gyfarwyddyd yr Is Gadeirydd, datblygwyd cynllun llywodraethu cadarn oedd yn cynnwys prosesau ffurfiol, er enghraifft, adolygiadau effeithiolrwydd llawn o'r Bwrdd bob dwy flynedd, gwerthusiadau blynyddol ar gyfer pob aelod o'r Bwrdd a hefyd datblygu cynllun gweithredu ar gyfer cadw at y Fframwaith Llywodraethu ac Arweinyddiaeth ar gyfer Cymru, sy'n cynnwys agweddau ymddygiad ar lywodraethu da. Cafodd disgrifiadau rôl y Bwrdd eu diweddarau hefyd i adlewyrchu ehangder llawn y rôl.

Ar ddiwedd pob cyfarfod Bwrdd, mae'r Aelodau'n adlewyrchu ar fusnes ac yn trafod ffyrdd i'r Bwrdd fod yn fwy effeithiol wrth gyflawni ei gyfrifoldebau. Mae'r Bwrdd wedi ymrwymo i gefnogi'r Tîm Gweithredol a phenderfynodd yn ystod y flwyddyn y byddai'n enwebu aelodau Bwrdd unigol i weithio'n agos ag aelodau'r Weithrediaeth ar bob prosiect mawr, er enghraifft, y Prosiect Chwaraeon a Gweithgarwch Cymunedol newydd.

Mae'r Bwrdd yn fodlon ag ansawdd a maint yr wybodaeth a dderbynnir er mwyn iddo allu gwneud penderfyniadau doeth.

# Rheoli Risg

## Pwrpas y system o reolaeth fewnol

Pwrpas y system o reolaeth fewnol yw rheoli a chyfyngu ar risg ond ni all fyth ei dileu. Felly, dim ond sicrwydd rhesymol, ac nid absoliwt, y mae'n gallu ei ddarparu. Seilir y system o reolaeth fewnol ar broses barhaus o ganfod a rhoi blaenoriaeth i'r risgiau o ran cyflawni polisïau, amcanion a nodau Chwaraeon Cymru, gwerthuso'r tebygolrwydd i'r risgiau hyn gael eu gwireddu, a'r effaith pe baent yn cael eu gwireddu, a'u rheoli'n effeithlon, yn effeithiol ac yn economaidd.

Mae'r system o reolaeth fewnol wedi bod yn ei lle yn Chwaraeon Cymru drwy gydol y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2019 a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r adroddiad a'r cyfrifon blynyddol, ac mae'n cyd-fynd â chanllawiau'r Trysorlys. Yn olaf, mae'r system o reolaeth fewnol yn darparu sicrwydd rhesymol bod Chwaraeon Cymru wedi cydymffurfio â chyfarwyddiadau ariannol y Loteri a bod prosesau digonol yn eu lle ar gyfer canfod gwrthdaro rhwng buddiannau a lleihau colledion o ran grantiau Loteri.

## Y gallu i ddelio â risg

Fel Swyddog Cyfrifo, rwyf yn bersonol gyfrifol am sicrhau bod gan Chwaraeon Cymru broses rheoli risg effeithiol yn ei lle. Goruchwylir y broses hon gan y Bwrdd, drwy gyfrwng y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg. Fel sefydliad, rydym yn monitro pob risg allweddol drwy ddefnydd priodol o'r Gofrestr Risg. Rydym wedi cofnodi Polisi a Strategaeth Rheoli Risg sy'n cynnwys diffiniadau perthnasol i reoli risg a hefyd mae'r polisi'n datgan sut dylid canfod, dadansoddi a rheoli risg.

Mae risgiau corfforaethol, a'r mesurau rheoli a weithredir i'w lliniaru, yn cael eu neilltuo i reolwr neu gyfarwyddwr corfforaethol priodol a'u rheoli ganddo, neu, mewn rhai achosion, gan y Swyddog Cyfrifo. Mae risgiau gweithredu yn gyfrifoldeb y penaethiaid adran perthnasol ac efallai y bydd y gwaith o reoli risg o ddydd i ddydd yn cael ei ddirprwyo i'r staff maent yn eu rheoli.

Canfyddir risgiau newydd gan swyddogion Chwaraeon Cymru, adran graffu'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg neu'r Bwrdd ei hun. Ar ôl canfod risg newydd, mae'n cael ei gosod ar y Gofrestr Risg briodol, ei hasesu, ei sgorio a'i neilltuo i sylw cyfarwyddwr corfforaethol a / neu reolwr.

## Y fframwaith risg a rheoli

Mae rheoli risg wedi'i ymgorffori yn strwythurau rheoli Chwaraeon Cymru. Mae mwyafrif y risgiau busnes, ariannol a chyflwyno gwasanaeth yn deillio o nodau trefniannol ac o broses cynllunio busnes Chwaraeon Cymru.

Mae'r Gofrestr Risg yn ateb electronig sydd ar gael i reolwyr perthnasol drwy gyfrwng porthol ar-lein. Mae trefniadau rheoli risg Chwaraeon Cymru yn cael eu harchwilio'n fewnol yn flynyddol a'u cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg. Mae'r Gofrestr Risg yn cofnodi risgiau corfforaethol sylweddol, gan gynnwys risgiau i wybodaeth, asesiad cyffredinol o effaith debygol a thebygolrwydd, mesurau rheoli a, lle bo angen, rhestr o fesurau gweithredu yn y dyfodol. Adolygir y Gofrestr Risg Gorfforaethol yn rheolaidd gan yr Uwch Reolwyr, y Grŵp Rheoli a Sicrwydd Risg a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg. Hefyd mae'r rheolwyr yn rhoi cyflwyniad yn eu tro i'r Grŵp Rheoli a Sicrwydd Risg ar eu meysydd risg penodol a sut maent yn rheoli neu'n lliniaru'r risgiau hynny. Mae'r Fframwaith Sicrwydd newydd yn cael ei adolygu mewn ffordd debyg gan y Grŵp Rheoli a Sicrwydd Risg.

## Monitro Grantiau

Mae mwyafrif cyllid Chwaraeon Cymru yn cael ei wario drwy ddyfarnu grantiau. Dyfernir grantiau ar sail meini prawf buddsoddi clir ar gyfer allbynnau a chanlyniadau chwaraeon allweddol. Mae Chwaraeon Cymru yn cymryd camau priodol i fonitro'r defnydd o ddyfarniadau o'r fath drwy ofyn am adroddiadau ffurfiol gan y rhai sy'n eu derbyn, yn ogystal â thrafod yn barhaus â phartneriaid allweddol er mwyn casglu gwybodaeth anffurfiol. Hefyd, ceir meini prawf cysoni penodol ac os yw'r gwariant yn amrywio o lefel y grant sydd wedi'i ddyfarnu, mae Chwaraeon Cymru yn ymarfer ei hawl i ofyn am symiau o'r fath yn eu hôl.

## Risgiau Allweddol

Mae risgiau i weithgareddau strategol a gweithredol allweddol yn cael eu datgan, eu gwerthuso a'u hystyried gan y Grŵp Cyfarwyddwyr, a gweithredir i'w lliniaru. Adolygir y risgiau a'r camau gweithredu i reoli risgiau yn rheolaidd. Dylanwedir ar y rhaglen archwilio fewnol gan y risgiau a gofnodir ar y Gofrestr Risg ac, os yw hynny'n briodol, mae'r archwilwyr yn cyflwyno argymhellion i roi sylw i unrhyw risg neu ganfod rhai newydd. Bydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn adolygu'r argymhellion hyn ac yn gweithredu fel sy'n briodol.

O edrych ymlaen, mae nifer o risgiau allweddol wedi cael eu datgan gan Chwaraeon Cymru ac maent wedi'u cynnwys ar y Gofrestr Risg Gofforaethol.

Yn dilyn y Sgwrs Genedlaethol a lansiad y Weledigaeth ar gyfer Chwaraeon yng Nghymru, ar ddechrau 2019/20 byddwn yn lansio strategaeth newydd Chwaraeon Cymru ac, er bod hwn yn gyfnod cyffrous, mae risgiau'n anochel gysylltiedig â strategaeth newydd. Mae rhaglen gynhwysfawr o ymgysylltu â'r staff a'r Bwrdd wedi cael ei chynnal drwy gydol y broses a bydd estyniadau ar gyllid partneriaid yn rhoi cyfle i'n partneriaid weithio gan gadw at ein strategaeth newydd.

Bydd y strategaeth newydd yn cynnwys ailgynllunio strwythur y sefydliad ac mae risg y gall hyn, ochr yn ochr ag effeithiau'r prosiect tâl a graddio parhaus, gael effaith niweidiol ar forâl staff, a allai arwain yn ei dro at darfu sylweddol ar weithrediadau. Mae'r risg yn cael ei lliniaru gan gynlluniau cysondeb busnes ac ymgysylltu a chyfathrebu parhaus â'r staff a chynrychiolwyr yr undebau llafur.

Er bod Chwaraeon Cymru yn ddiolchgar i Lywodraeth Cymru am hysbysu am gyllideb niwtral yn ariannol ar gyfer 2019/20, mae'r gost ariannol gynyddol o fodloni taliadau diffyg pensiwn yn parhau i greu'r bygythiad mwyaf i gyflawni amcanion Chwaraeon Cymru.

Mae'r risgiau allweddol eraill sydd wedi'u datgan ar y Gofrestr Risg gorfforaethol yn cynnwys methu cydymffurfio â'n gofynion deddfwriaethol a cholli gwybodaeth sensitif o bosib, neu gysylltiad â gwybodaeth o'r fath. Mae'r trefniadau llywodraethu

corfforaethol cadarnach a phenodi Swyddog Diogelu Data wedi cynorthwyo gyda lleihau'r risg hon.

Mae gan Chwaraeon Cymru agwedd gall a deallus at gymryd risg yn gyffredinol, er mwyn cyflawni ei flaenoriaethau. Y Bwrdd sy'n rheoli'r dyhead risg a chaiff ei adolygu'n flynyddol. Os oes risg sylweddol yn codi, bydd Chwaraeon Cymru yn gweithredu'n effeithiol i'w rheoli ac yn ei gostwng i lefel ddiogel. Mae'r Weithrediaeth a'r Bwrdd yn ymwybodol o'r angen am arloesi ymhellach ac yn gynt yn y dyfodol ac, i'r diben hwn, rydym yn edrych ar wahanol fecanweithiau a phartneriaid cyflawni. Bydd hyn yn creu risgiau newydd a gwahanol ac yn gallu cynyddu lefel y risg y mae Chwaraeon Cymru yn ei chymryd. Felly, efallai y bydd dyhead Risg Chwaraeon Cymru yn codi, ond dim ond oddi mewn i amgylchedd risg wedi'i reoli.

Mae'r Archwilwyr Mewnol, am y bedwaredd flwyddyn yn olynol, wedi rhoi "sicrwydd sylweddol" cyffredinol i Chwaraeon Cymru fel gradd ar gyfer y flwyddyn. Hefyd maent wedi rhoi'r categori gradd uchaf i drefniadau llywodraethu corfforaethol a rheoli risg Chwaraeon Cymru. Yn ystod y flwyddyn, roedd yr adroddiadau archwilio mewnol yn datgan cyfleoedd i wella'r systemau rheoli.

Mae'n galonogol nodi nad oedd unrhyw fater risg "uchel" yn codi o'r gwaith archwilio mewnol. Gwnaed cyfanswm o 10 o argymhellion a 5 pwynt gweithredu. O blith yr argymhellion, roedd 2 (20%) yn cael blaenoriaeth 'ganolig' ac 8 (80%) yn cael blaenoriaeth 'isel'. O ran gweithredu dilynol, roedd 9 allan o'r 14 argymhelliad blaenorol a wnaed wedi cael eu hailgodi gan yr archwilwyr adeg yr archwiliad, a dim ond 2 oedd yn weddill heb eu gweithredu ar ddiwedd y flwyddyn. Mae'r ddau argymhelliad sy'n weddill yn ymwneud â materion staffio a byddant yn cael eu hystyried fel rhan o ailgynllunio'r strwythur sefydliadol.

## Rheolaeth Fewnol

Fel Swyddog Cyfrifo, rwyf yn gyfrifol am gynnal system gadarn o reolaeth fewnol sy'n cefnogi cyflawni polisiau, amcanion a nodau Chwaraeon Cymru. Hefyd, mae gennyf gyfrifoldeb personol am ddiogelu elw'r Loteri Genedlaethol a ddosberthir i Chwaraeon Cymru ac asedau Chwaraeon Cymru, yn unol â'r cyfrifoldebau sydd wedi'u neilltuo i mi wrth Reoli Arian Cyhoeddus Cymru.

Rwyf yn gyfrifol am adolygu effeithiolrwydd y system o reolaeth fewnol. Goruchwylir hyn gan y Bwrdd, drwy gyfrwng y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg. Yn sail i'm hadolygiad o effeithiolrwydd y system o reolaeth fewnol mae gwaith yr archwilwyr mewnol ac allanol a'r cyflwyniadau staff i Grŵp Rheoli Risg Chwaraeon Cymru, sy'n gyfrifol am ddatblygu a chynnal y fframwaith rheoli mewnol. Rwyf yn bwriadu rhoi sylw i wendidau a sicrhau gwelliant parhaus y systemau sydd yn eu lle.

Darparwyd gwasanaeth archwilio mewnol Chwaraeon Cymru yn ystod 2018/19 gan Deloitte LLP, a weithredodd yn unol â'r safonau a ddiffinnir yn y Safonau Archwilio Mewnol ar gyfer y Sector Cyhoeddus. Cyflwynir adroddiadau rheolaidd fel rhan o archwiliadau mewnol, i ddarparu barn flynyddol annibynnol ar ddiagonolrwydd ac effeithiolrwydd systemau rheolaeth fewnol ac asesu risg Chwaraeon Cymru, ynghyd ag argymhellion ar gyfer gwella.

Bob blwyddyn, mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn llunio Adroddiad Blynyddol ar ei waith i Fwrdd Chwaraeon Cymru.

## Datblygiadau Parhaus

Er bod system gref o reolaeth fewnol yn ei lle, ceir bob amser feysydd sydd angen neu a fydd yn elwa o weithredu gwelliannau.

Mae Chwaraeon Cymru wedi parhau i adolygu'r system reoli sydd ar waith gyda Chyrff Rheoli Cenedlaethol yn gyffredinol ac, yn ystod 2018/19, mae camau ychwanegol wedi cael eu cymryd i gryfhau ymhellach y mesurau rheoli sydd yn eu lle, i reoli'r risg sy'n rhan gynhenid o fuddsoddi arian cyhoeddus mewn sefydliadau trydydd parti. Byddwn yn adolygu hyn yn

gyson yn ystod 2019/20 ac yn cyflwyno Fframwaith Sicrwydd Partneriaid newydd.

Mae Chwaraeon Cymru wedi ymrwymo i weithlu brwd. Mae cyrraedd safon aur yn y cynllun 'Buddsoddwyr mewn Pobl' yn dyst i hyn. Byddwn yn parhau i esblygu fel sefydliad ac yn sicrhau bod gennym weithlu addas i bwrpas wrth i ni wynebu heriau anochel y gwaith o weithredu mewn cyfnod o lai o adnoddau. Cynhaliodd ein Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg asesiad cynhwysfawr o'i effeithiolrwydd yn ystod 2018/19 gan ddefnyddio Rhestr Wirio ARAC SAC fel cymorth. Mae'r adolygiad hwn wedi arwain at rai datblygiadau pellach, gan gynnwys defnyddio matrices sgiliau ar gyfer aelodau, i ddatblygu cyfleoedd hyfforddi, a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg i gynnal gwerthusiadau perfformiad unigol yn rheolaidd gyda'r aelodau. Bydd rhywfaint o'r gwaith hwn yn parhau yn 2019/20.

Mae Chwaraeon Cymru wedi ymrwymo i ddatblygu model darparu newydd ar gyfer Chwaraeon Cymunedol ledled Cymru – y Rhaglen Chwaraeon a Gweithgarwch Cymunedol. Yng Ngogledd Cymru, mae partneriaeth gydweithredol sy'n cynnwys cynrychiolwyr o sefydliadau sy'n cynnwys Awdurdodau Lleol, Addysg Uwch, Tai, Byrddau Iechyd a Chwaraeon Anabledd Cymru yn datblygu ei chynllunau i greu Chwaraeon Gogledd Cymru, gyda chynllun prosiect yn ei le i gyflawni yn erbyn y gofynion allweddol, gan arwain at sefydlu endid rhanbarthol erbyn mis Rhagfyr 2019.

Mae cynlluniau yn eu lle hefyd i ehangu'r Rhaglen Chwaraeon a Gweithgarwch Cymunedol ledled Gweddill Cymru, gan ddechrau gyda sesiynau ymgysylltu â'r sector gyda phartneriaid allweddol a sefydliadau eraill wedi'u trefnu ar gyfer mis Mehefin 2019, gan arwain at lansio cam Mynegi Diddordeb yn yr Hydref.

## Swyddog Cyfrifo:

**S Powell**  
30ain Awst 2019

# Adroddiad Tâl a Staff

Mae gan Chwaraeon Cymru ystod helaeth o bolisiau sy'n adlewyrchu'r ddeddfwriaeth gyfredol ac mae'n anelu at sicrhau cynnal a chymell. Adolygir y polisiau hyn yn rheolaidd gan gynnwys y staff drwy gytundeb cydnabod gydag Undeb y Gwasanaethau Cyhoeddus a Masnachol (PCS). Mae'r holl bolisiau'n cael eu gwirio o ran cydraddoldeb cyn cael eu gweithredu. Mae Chwaraeon Cymru wedi ymrwymo i bolisi o gyfle cyfartal yn ei arferion cyflogaeth. Yn benodol, mae Chwaraeon Cymru yn ceisio sicrhau nad oes unrhyw ddarpar gyflogai neu gyflogai presennol yn cael ei drin yn llai ffafriol ar sail oedran, anabled, tarddiad ethnig neu genedlaethol, rhyw, statws priodasol neu fel rhiant, cenedligrwydd, cred wleidyddol, hil, crefydd neu gyfeiriadedd rhywiol. Hefyd rydym yn cadw at y 'Safon Cydraddoldeb ar gyfer Chwaraeon' a'r cynlluniau 'Positif am Anabled'.

Ar hyn o bryd mae Chwaraeon Cymru yn defnyddio'r un strwythur graddio â Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, nid yw'r strwythur hwn yn cydnabod yn addas bellach anghenion a nodweddion gwahanol swyddogaethau Chwaraeon Cymru. Hefyd, mae Chwaraeon Cymru yn gweithredu nifer o lwfansau i wneud iawn am broblemau gyda'n strwythur tâl, sydd wedi arwain at anghydraddoldeb ac annhegwch eang.

Yn ystod 2017/18, sefydlwyd grŵp Llywio Prosiect ffurfiol yn cynnwys cyflogaion o'r adrannau Adnoddau Dynol a Chyllid, a hefyd cynrychiolwyr o'r PCS, ar lefel leol a changen. Hefyd roedd cynrychiolydd o ACAS yn rhan o'r tîm ffurfiol i ddarparu cyngor a chyfarwyddwyd. Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol yw Cadeirydd y Grŵp.

## Data Absenoldeb Salwch

Mae data salwch cyflogaion y sefydliad cyfan ar gyfer 2018/19 (2017/2018) fel a ganlyn:

Cyfanswm y Dyddiau a Gollwyd	Cyfanswm y Cyflogaion (Cyfwerth ag Amser Llawn)	Cyfanswm y Dyddiau o Salwch a Gollwyd y Pen
868.30 (906.50)	154.52 (145.89)	5.62 (6.21)

Y gyfradd absenoldeb gyffredinol ar gyfer 2018/19 yw 2.61%. Mae hwn yn ostyngiad ar gyfradd 2017/18 o 2.81%, o'r ymharol â'r cyfraddau a gyhoeddwyd

Mae Chwaraeon Cymru yn gweithio drwy gydol y broses mewn cydweithrediad â'n Hundeb cydnabyddedig, Gwasanaethau Cyhoeddus ac Ariannol (PCS), i ddyfeisio strwythur graddio newydd, graddfeydd cyflog ac adolygiad lwfansau.

Oherwydd trafodaethau parhaus rhwng Chwaraeon Cymru a'r PCS, mae'r dyddiad gweithredu arfaethedig ar gyfer tâl a graddfa i roi sylw i'r materion hyn wedi cael ei ohirio yn awr i 2019/20. Yn unol â Dogfen Fframwaith Chwaraeon Cymru gyda Llywodraeth Cymru, bydd y strwythur newydd yn gofyn am gymeradwyaeth Weinidogol.

## Buddsoddi yn ein Pobl

Mae gan Chwaraeon Cymru statws "Buddsoddwyr mewn Pobl" ac mae ei bolisiau adnoddau dynol yn adlewyrchu arfer gorau fel rhan o'i ymrwymiadau fel sefydliad dysgu. Yn ystod 2015/16, enillodd Chwaraeon Cymru safon Aur "Buddsoddwyr mewn Pobl". Mae'r safon yn edrych ar arferion a chanlyniadau'r sefydliad o dan dri phennawd perfformiad: arwain, cefnogi a gwella. Mae'r tri maes yma'n edrych ar ddiwylliant, sgiliau arwain, ymgysylltu a datblygu staff, gyda'r cyfan yn cyfrannu at wneud Chwaraeon Cymru yn sefydliad perfformiad uchel. Roedd Chwaraeon Cymru i fod i gael ailasesiad ar 28ain Mai 2018 ond dyfarnwyd estyniad am flwyddyn tan fis Mai 2019, er mwyn adlewyrchu'r newidiadau presennol yn y sefydliad a datblygiad y strategaeth newydd. Fel rhan o'r asesiad, lanswyd arolwg staff Buddsoddwyr Mewn Pobl llawn ar 27ain Mawrth 2019. Bydd canlyniadau ac adborth yr arolwg hwn ar gael yn gynnar yn 2019/20.

gan yr ONS (Swyddfa Ystadegau Gwladol) ar gyfer y sector cyhoeddus, sef 2.6%.

O blith y 2.61%, cafodd 1.44% eu dosbarthu fel tymor hir ac 1.16% fel tymor byr. Fel rhan o ffocws parhaus ar reoli absenoldeb ac iechyd cyflogaion yn effeithiol, bydd polisi absenoldeb salwch Chwaraeon Cymru yn cael ei adolygu yn ystod 2019/20, gyda chefnogaeth gan yr Undeb Llafur cydnabyddedig (PCS).

Eleni mae'r cyflogaion wedi elwa o fentrau â'u sylw ar iechyd a lles y meddwl. Yn ystod 2018/19, cefnogodd Chwaraeon Cymru iechyd meddyliol a chorfforol ei gyflogaion drwy lofnodi Addewid Iechyd Meddwl Amser i Newid Cymru. Cymerodd Chwaraeon Cymru ran yn Her Gorfforaethol Hanner Marathon Caerdydd 2018 a daeth y tîm yn 8fed, safle parchus iawn allan o 39 o dimau corfforaethol. Hefyd, yn ystod 2018/19, ailsefydlwyd grŵp llesiant trawsadrannol i weithio i gefnogi strategaeth llesiant Chwaraeon Cymru.

## Cynllun Pensiwn

Mae Chwaraeon Cymru yn gweithredu dau gynllun pensiwn ar gyfer ei staff. Mae'r rhan fwyaf o'r staff yn aelodau o Gronfa Bensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg. Mae'r Gronfa'n gynllun pendant sy'n darparu buddiannau'n seiliedig ar Enillion Ailbriso Cyfartalog Gyrfaoel (CARE). Mae asedau'r Gronfa'n cael eu cadw ar wahân i rai Chwaraeon Cymru. Bydd unrhyw bensiwn a gronnwyd cyn mis Ebrill 2008 yn cael ei gyfrif ar gyfradd o 1/80fed gyda chyfandaliad o deirgwaith y pensiwn. Caiff pensiwn sydd wedi cronni o 1 Ebrill 2008 ymlaen ei gyfrif ar gyfradd o 1/60ain a cheir opsiwn i gymryd cyfandaliad ychwanegol yn gyfnewid am bensiwn. Mae pensiwn sydd wedi cronni ers 1 Ebrill 2014 yn cael ei gyfrif ar gyfradd o 1/49ain gydag opsiwn i gymryd cyfandaliad ychwanegol yn gyfnewid am bensiwn. Mae cyfraniadau'r cyflogaion rhwng 5.5% a 10.5% yn seiliedig ar raddfa cyflog neu rhwng 2.75% a 5.25% os bydd y cyflogaion dewis y cynllun pensiwn 50/50. Mae manylion pellach i'w gweld yn nodyn 1.5 a nodyn 18 y datganiadau ariannol. Hefyd mae Chwaraeon Cymru yn gweithredu cynllun pensiwn Cyfraniad Pendant gyda Scottish Widows, gyda Chwaraeon Cymru yn cyfrannu 6.5% a'r cyflogaion yn cyfrannu 1.5%.

## Polisi Tâl

Yn unol â Phennod 5 y Llawlyfr Cofnodion Ariannol, mae'n ofynnol i Chwaraeon Cymru ddatgelu'r canlynol mewn perthynas â thâl yn ystod y flwyddyn am Aelodau'r Cyngor a'r uwch staff sydd â chyfrifoldebau am redeg adrannau llunio polisiau. Mae canllawiau'r Trysorlys yn datgan ei bod yn ofynnol i'r datganiadau ariannol ddatgelu gwerth trosglwyddo cyfatebol i arian parod y pensiynau ar gyfer Aelodau ac uwch staff Chwaraeon Cymru.

Telir i'r Cadeirydd, yr Is Gadeirydd ac Aelodau Chwaraeon Cymru yn unol â pholisi "Tâl a chostau Cadeiryddion ac Aelodau Cyrff Rheoli a Noddir gan y Cynulliad a Chyrff y GIG" Llywodraeth Cymru.

Mae'r Pwyllgor Tâl, sy'n cynnwys Cadeirydd Chwaraeon Cymru, yr Is Gadeirydd a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg, a gefnogir gan gyflogai dirprwyedig Chwaraeon Cymru, yn cyfarfod i gytuno ar ddyfarniad tâl ar gyfer y staff i gyd, drwy gyfrwng proses cylch cyflog Llywodraeth Cymru. Cymeradwyir yr holl newidiadau i gyflog y Prif Weithredwr gan y Pwyllgor Tâl.

## Contractau Gwasanaeth

Cyflogir uwch staff Chwaraeon Cymru ar delerau ac amodau sy'n eithaf tebyg i delerau ac amodau Llywodraeth Cymru.

Penodir Aelodau Chwaraeon Cymru gan Weinidogion Cymru ar gontract tair blynedd ac efallai y byddant yn cael eu hailbenodi am gyfnod o dair blynedd arall. Mae gan y Cadeirydd hawl i gyfradd ddyddiol o £337 ac mae'n cael contract i weithio deuddydd yr wythnos. Telir cyfradd ddyddiol o £311 i'r Is Gadeirydd ac mae'n cael contract i weithio tridiau y mis.

## Cyfnod Rhybudd

Mae gan y Prif Weithredwr hawl i rybudd o bedwar mis gan Chwaraeon Cymru os terfynir y contract ac mae gan weddill yr uwch staff hawl i rybudd o dri mis o derfynu'r contract.

## Cyflog y Prif Swyddog Gweithredol

### Tâl

Mae "cyflog" yn cynnwys cyflog crynswth, lwfansau a bonws perfformiad, os yw hynny'n berthnasol. Yn ystod y flwyddyn, cafodd y Prif Weithredwr gyflog crynswth o £97,400 (2017/18 £96,000). Nid oes unrhyw aelod o staff yn gymwys am daliad bonws.

Mae cyfran o gostau cyflog yr Uwch Reolwyr yn cael ei neilltuo i'r loteri.

## Manteision mewn Nwyddau neu Gynnyrch

Nid oes unrhyw fanteision mewn nwyddau neu gynnyrch.

## Hawliadau Pensiwn a Chyflog

Mae'r adrannau canlynol yn cyflwyno manylion am gyflog a phensiwn uwch reolwyr Chwaraeon Cymru. Gwelir manylion am y dyddiadau dechrau/gadael yn y tabl Buddiannau Pensiwn ar dudalen 76. Mae'r wybodaeth hon wedi'i harchwilio.

## Nifer y Staff a Chostau Cysylltiedig (yn amodol ar archwiliad)

Mae'r ffigurau costau staff a ddangosir yn y Cyfrif Gwariant Net yn ddyraniad o'r costau a achoswyd gan Chwaraeon Cymru ac maent yn seiliedig ar y canlynol:

	Nifer y staff cyfwerth ag amser llawn cysylltiedig ar gyfartaledd		2018/2019 £'000	2017/2018 £'000
	2018/19	2017/18		
Costau cyflog crynswth				
Cadeirydd L Conway*	0.20	-	16	-
Prif Weithredwr S Powell	0.25	0.25	24	24
Staff Eraill	44.68	40.07	2,279	2,102
			<u>2,319</u>	<u>2,126</u>
Cyflogau a thâl			1,711	1,570
Costau Nawdd Cymdeithasol			171	158
Costau Pensiwn eraill			564	528
Addasiadau IAS19			(127)	(130)
			<u>2,319</u>	<u>2,126</u>

## Dadansoddir costau'r staff ymhellach, fel a ganlyn

	2018/2019 £'000	2017/2018 £'000
Gweinyddu	1,003	940
Cefnogaeth Gwyddoniaeth Chwaraeon i Athletwyr	1,316	1,186
	<u>2,319</u>	<u>2,126</u>

\* Mae nifer y staff a gyflogir ar gyfartaledd i gyd yn staff contract parhaol. Penodir y Cadeirydd i weithio deuddydd yr wythnos ac mae'n treulio 50 y cant o'r amser hwnnw ar weithgareddau'r loteri. Yn ystod 2017/18, dewisodd L Conway i beidio â chymryd cyflog tra oedd yn rôl y Cadeirydd. O 10fed Mai 2018 ymlaen, penderfynodd y Cadeirydd gymryd cyflog

## Tâl (yn amodol ar archwiliad)

Enw	Teitl	% a Neilltuwyd i'r Loteri	Cyflog £000	Budd Pensiwn i'r £1000 agosaf	Cyfanswm £000
		2018/19 (2017/18)	2018/19 (2017/18)	2018/19 (2017/18)	2018/19 (2017/18)
Mr Lawrence Conway <sup>1</sup>	Cadeirydd	50% -	30 - 35 -	- -	30 - 35 -
Ms Pippa Britton <sup>4</sup>	Is Gadeirydd	50% 50%	10 - 15 (5 - 10)	- -	10 - 15 (5 - 10)
Ms Sarah Powell	Prif Weithredwr	25% (25%)	95- 100 (95 - 100)	25,000 (26,000)	120 - 125 (120-125)
Mr Graham Williams	Cyfarwyddwr Corfforaethol	25% (25%)	55 - 60 (55 - 60)	22,000 (4,000)	80 - 85 (60 - 65)
Mr Brian Davies	Cyfarwyddwr Corfforaethol	80% (80%)	60 - 65 (55 - 60)	19,000 (21,000)	75 - 80 (80 - 85)
Mr Jonathan Davies <sup>2</sup>	Cyfarwyddwr Corfforaethol	- (50%)	(20 - 25)	- (6,000)	- (25 - 30)
Mr Peter Curran <sup>9</sup>	Cyfarwyddwr Corfforaethol	25% (25%)	50 - 55 (60 - 65)	16,000 (19,000)	65 - 70 (80 - 85)
Mr Paul Randle <sup>10</sup>	Cyfarwyddwr Corfforaethol	25% -	15 - 20 -	5,000 -	20 - 25 -
Mr Malcolm Zapple	Rheolwr Canolfan Genedlaethol Chwaraeon Cymru	0% (0%)	60 - 65 (60 - 65)	9,000 (7,000)	65 - 70 (65 - 75)
Mr Steven Morgan	Rheolwr Canolfan Chwaraeon Dŵr Plas Menai	0% (0%)	50 - 55 (50 - 55)	17,000 (16,000)*	65 - 70 (65 - 70)*
Prof. John Baylis <sup>3</sup>	Aelod o'r Cyngor	- (50%)	- (0 - 5)	- -	- (0 - 5)
Mr Simon Pirotte <sup>3</sup>	Aelod o'r Cyngor	- (50%)	- (0 - 5)	- -	- (0 - 5)
Ms Johanna Sheppard <sup>5</sup>	Aelod o'r Cyngor	50% (50%)	0 - 5 (5 - 10)	- -	0 - 5 (5 - 10)
Ms Julia Longville <sup>6</sup>	Aelod o'r Cyngor	50% (50%)	0 - 5 (5 - 10)	- -	0 - 5 (5 - 10)
Mr Peter King <sup>6</sup>	Aelod o'r Cyngor	50% (50%)	0 - 5 (5 - 10)	- -	0 - 5 (5 - 10)
Ms Amanda Bennett <sup>3</sup>	Aelod o'r Cyngor	- (50%)	- (0 - 5)	- -	- (0 - 5)
Ms Sama Small <sup>7</sup>	Aelod o'r Cyngor	50% (50%)	0 - 5 (5 - 10)	- -	0 - 5 (5 - 10)
Mr Andrew Lycett <sup>3</sup>	Aelod o'r Cyngor	- (50%)	- (0 - 5)	- -	- (0 - 5)
Mr Richard Parks	Aelod o'r Cyngor	50% (50%)	5 - 10 (5 - 10)	- -	5 - 10 (5 - 10)
Mr Ashok Ahir <sup>4</sup>	Aelod o'r Cyngor	50% (50%)	5 - 10 (0 - 5)	- -	5 - 10 (0 - 5)
Mr Ian Bancroft <sup>4</sup>	Aelod o'r Cyngor	50% (50%)	5 - 10 (0 - 5)	- -	5 - 10 (0 - 5)
Mr Christian Malcolm <sup>11</sup>	Aelod o'r Cyngor	50% (50%)	5 - 10 (0 - 5)	- -	5 - 10 (0 - 5)
Ms Alison Thorne <sup>4</sup>	Aelod o'r Cyngor	50% (50%)	5 - 10 (0 - 5)	- -	5 - 10 (0 - 5)
Ms Judi Rhys <sup>8</sup>	Aelod o'r Cyngor	50% -	0 - 5 -	- -	0 - 5 -
Prof Leigh Robinson <sup>8</sup>	Aelod o'r Cyngor	50% -	0 - 5 -	- -	0 - 5 -
Mr Martin Veale <sup>8</sup>	Aelod o'r Cyngor	50% -	0 - 5 -	- -	0 - 5 -
Mr Phil Tilley <sup>8</sup>	Aelod o'r Cyngor	50% -	0 - 5 -	- -	0 - 5 -

\*Ailddatganwyd i gael gwared ar y swm a trosglwyddwyd mewn pensiwn

- <sup>1</sup> Penodwyd 1af Medi 2018. Yn ystod 2017/18, dewisodd y Cadeirydd beidio â chymryd cyflog, ond dewisodd gymryd cyflog o 10fed Mai 2018 ymlaen
- <sup>2</sup> Gadawodd 4ydd Awst 2017
- <sup>3</sup> Ymddeolodd 31ain Awst 2017
- <sup>4</sup> Penodwyd 1af Hydref 2017
- <sup>5</sup> On Maternity leave from 1st January 2018, returned September 2018. Elected not to receive payment whilst on Maternity leave.

- <sup>6</sup> Ymddeolodd 31ain Awst 2018
- <sup>7</sup> Ymddiswyddodd 20fed Mehefin 2018
- <sup>8</sup> Penodwyd 1af Medi 2018
- <sup>9</sup> Ymddiswyddodd 16eg Rhagfyr 2018
- <sup>10</sup> Penodwyd 2il Ionawr 2019
- <sup>11</sup> Ymddiswyddodd 31ain Rhagfyr 2018

Mae'r Adroddiad Tâl yn datgan yn awr bod rhaid i Ffigur Cyfanswm Sengl ar gyfer Tâl gael ei ddangos. Mae'r tabl uchod yn debyg i'r un a ddefnyddid yn flaenorol ac mae'n dal i ddangos y cyflog a delir mewn bandiau. Caiff y ffigur budd pensiwn sy'n cyfrannu at y ffigur cyfanswm sengl ei gyfrif mewn ffordd newydd, fel a ganlyn:

(gwir gynnydd mewn pensiwn\* x 20) + (gwir gynnydd mewn cyfandaliad\*) – (cyfraniadau gan y cyflogai)

\*ac eithrio cynnydd oherwydd chwyddiant neu unrhyw gynnydd/gostyngiad oherwydd trosglwyddo hawliau pensiwn

Nid yw'r ffigur budd pensiwn yn swm sydd wedi cael ei dalu i'r cyflogai gan Chwaraeon Cymru yn ystod y flwyddyn. Mae'n fudd yn y dyfodol i'r cyflogai a dylanwedir arno gan sawl ffactor gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, newidiadau mewn cyflog ac unrhyw gyfraniadau ychwanegol a wneir gan y

### Buddiannau Pensiwn yr Uwch Reolwyr (yn amodol ar archwiliad)

Enw	Gwir gynnydd mewn Pensiwn (a chyfandaliad) yn 65 oed ar gyfer 2018/19	Cyfanswm y pensiwn wedi cronni yn 65 oed ar 31 Mawrth 2019	Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod ar 31 Mawrth 2019	Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod ar 31 Mawrth 2018	Gwir Gynnydd/ (Gostyngiad) Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod yn y Flwyddyn
	£000	£000	£000	£000	£000
Ms Sarah Powell Prif Weithredwr	0.0 – 2.5 (-0.0 – 2.5)	30 – 35 (35 – 40)	460	381	69
Mr Peter Curran* Cyfarwyddwr Corfforaethol	0.0 – 2.5 (0.0 – 2.5)	5 – 10 (0 – 5)	133	50	78
Mr Steven Morgan Rheolwr Canolfan Chwaraeon Dŵr Plas Menai	0.0 – 2.5 (0.0 – 2.5)	5 – 10 (0 – 5)	94	68	22
Mr Malcolm Zapple Rheolwr Canolfan Genedlaethol Chwaraeon Cymru	0.0 – 2.5 (-0.0 – 2.5)	25 – 30 (45 – 50)	574	497	71
Mr Brian Davies Cyfarwyddwr Corfforaethol	0.0 – 2.5 (0.0 – 2.5)	10 – 15 (0 – 5)	203	162	36
Mr Graham Williams Cyfarwyddwr Corfforaethol	0.0 – 2.5 (0.0 – 2.5)	20 – 25 (30 – 35)	389	320	64
Mr Paul Randle** Cyfarwyddwr Corfforaethol	0.0 – 2.5 (0.0 – 2.5)	0 – 5 (0 – 5)	5	0	3

\*Ymddiswyddodd Peter Curran ar 16eg Rhagfyr 2018

\*\*Penodwyd Paul Randle ar 2il Ionawr 2019

Y Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod yw gwerth cyfalaf buddiannau'r gronfa bensiwn a gronnwyd gan aelod ar adeg benodol ac a aseswyd yn actwaraidd. Y buddiannau a brisir yw'r buddiannau sydd wedi'u cronni gan yr aelodau ac unrhyw bensiwn wrth gefn i gymar sy'n daladwy o'r cynllun. Mae'r

Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod yn daliad a wneir gan gynllun neu drefniant pensiwn er mwyn sicrhau buddiannau pensiwn mewn cynllun neu drefniant pensiwn arall pan mae aelodau'n gadael cynllun ac yn dewis trosglwyddo'r buddiannau sydd wedi cronni yn eu cynllun blaenorol.

Mae'r ffigurau pensiwn a ddangosir yn berthnasol i'r buddiannau sydd wedi cronni gan yr unigolyn o ganlyniad i aelodaeth lawn o'r cynllun pensiwn, nid dim ond eu gwasanaeth mewn swydd uwch, y mae datgeliad yn berthnasol iddi.

Mae'r ffigurau'n cynnwys gwerth unrhyw fuddiannau pensiwn mewn cynllun neu drefniant arall y mae'r unigolyn wedi'i drosglwyddo i gynllun pensiwn Chwaraeon Cymru. Maent hefyd yn cynnwys unrhyw fuddiannau pensiwn ychwanegol sydd wedi cronni i'r aelod o ganlyniad i brynu buddiannau pensiwn ychwanegol ar ei gost ei hun. Cyfrifir Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod oddi mewn i'r canllawiau a'r fframwaith a ragnodir gan y Sefydliad a'r Fframwaith Actwariau ac nid ydynt yn ystyried

### Datgeliadau Cyflog Teg

Mae'n ofynnol i gyrff sy'n adrodd yn ôl ddatgelu'r berthynas rhwng tâl y cyfarwyddwr sy'n cael y tâl mwyaf yn eu sefydliad a thâl canolrifol gweithlu'r sefydliad.

	2018-19	2017-18
Band Cyfanswm Tâl y Cyfarwyddwr sy'n cael y Tâl Mwyaf (£'000)	95 - 100	95 - 100
Cyfanswm Tâl Canolrifol	30,180	28,496
Cymhareb	3.2	3.4

Cafodd y gymhareb ei chyfrif gan ddefnyddio'r rhagdybiaethau canlynol:

- Dim ond cyflogau'r staff a delir drwy'r gyflogres sydd wedi cael eu defnyddio (ac eithrio staff asiantaeth, gan nad ydynt yn sylfaenol),
- Nid yw'r ffigurau wedi cael eu haddasu i adlewyrchu unrhyw gyfran i gyfrifon y Loteri h.y. mae'r costau'n adlewyrchu'r holl staff a gyflogir gan Gyngor Chwaraeon Cymru ac a brosesir drwy'r gyflogres.

Mae cyfanswm y tâl yn cynnwys cyflog ond yn eithrio taliadau diswyddo. Nid yw'n cynnwys cyfraniadau pensiwn cyflogwyr a gwerth trosglwyddo cyfwerth ag arian parod y pensiynau.

Roedd gostyngiad yn y gymhareb ganolrifol o 0.1%. Y rheswm am hyn oedd dyfarniad tâl yn ystod 2017/18 a welodd gynnydd canran uwch ar gyfer staff ar gyflogau is.

Amrywiodd y tâl o £16,900 i £97,400 (amrywiodd tâl 2017/18 o £16,300 i £96,000).

unrhyw ostyngiad gwirioneddol na phosib mewn buddiannau o ganlyniad i Dreth Lwfans Oes Gyfan, a all fod yn ddyledus pan dynnir buddiannau pensiwn o'r cynllun.

### Gwir Gynnydd mewn Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod

Mae hwn yn adlewyrchu'r cynnydd yn y Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod a gyllidir gan y cyflogwr. Nid yw'n cynnwys y cynnydd yn y pensiwn sydd wedi cronni oherwydd chwyddiant na chyfraniadau a delir gan y cyflogai (gan gynnwys gwerth unrhyw fuddiannau a drosglwyddir o gynllun neu drefniant pensiwn arall) ac mae'n defnyddio ffactorau priso'r farchnad gyffredinol ar gyfer dechrau a diwedd y cyfnod.

### Polisi Treth ar gyfer y Rhai a Benodir Oddi ar y Gyflogres

Ar 31 Mawrth 2019, roedd 6 threfniant a oedd wedi bodoli (2017/18, 6 threfniant, ailddatganwyd) ac yn eu lle am 4 blynedd neu fwy. Mae pob trefniant wedi'i asesu fel trefniant heb ei ddal gan IR35. Mae Chwaraeon Cymru yn fodlon bod sicrwydd wedi'i geisio i gadarnhau bod unigolion wedi gwneud trefniadau priodol i dalu treth. Nid oes yr un unigolyn yn aelod o'r Bwrdd nac yn uwch swyddog gyda chyfrifoldeb ariannol sylweddol. Ni wnaed unrhyw wariant ar gostau ymgynghoriaeth.

### Cyfansoddiad y Staff

Mae cyfansoddiad staff y cyfarwyddwyr corfforaethol yn 75% gwryw a 25% benyw. O blith y cyflogaion parhaol sy'n weddill mae 46% yn wrywod a 54% yn fenywod.

### Swyddog Cyfrifo:


**S Powell**  
30ain Awst 2019

# Atebolrwydd Seneddol ac Adroddiad Archwilio


**Atebolrwydd Wrth Gefn (yn amodol ar archwiliad)** - Nid oes gan Chwaraeon Cymru unrhyw atebolrwydd wrth gefn.

**Tueddiadau gwariant tymor hir** - gwelir y tueddiadau gwariant tymor hir yn ystod y pum mlynedd diwethaf isod:

## Grantiau Cyfalaf - Talwyd




## Grantiau Refeniw - Talwyd



Am ragor o fanylion, edrychwch ar nodyn 2 ar dudalen 89.

## Costau Gweinyddu - Talwyd



### Colledion, taliadau arbennig ac incwm sylfaenol (yn amodol ar archwiliad)

Yn ystod 2018/19 ni wnaed unrhyw golledion, taliadau arbennig na rhoddion (dim yn 2018/18 hefyd). Hefyd ni fu unrhyw ffioedd sylfaenol nac incwm ffioedd.

### Swyddog Cyfrifo:

**S Powell**  
30ain Awst 2019

# Tystysgrif ac Adroddiad y Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol i'r Tai Seneddol ac i aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru

## Barn ar y datganiadau ariannol

Yr wyf yn tystio fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol Cyfrif Dosbarthu'r Loteri Cyngor Chwaraeon Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2019 o dan Ddeddf y Loteri Genedlaethol ac ati 1993. Mae'r datganiadau ariannol yn cynnwys: y Datganiadau o Wariant Net Cynhwysfawr, y Sefyllfa Ariannol, Llif Arian, y Newidiadau i Ecwiti Trethdalwyr; a'r nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys y polisiau cyfrifo arwyddocaol. Paratowyd y datganiadau ariannol hyn o dan y polisiau cyfrifo sydd wedi'u datgan ynddynt. Rwyf hefyd wedi archwilio'r wybodaeth yn yr Adroddiad Atebolrwydd a ddisgrifir yn yr adroddiad hwnnw fel gwybodaeth wedi'i harchwilio.

Yn fy marn i mae'r datganiadau ariannol:

- yn cyflwyno darlun cywir a theg o gyflwr materion Cyfrif Dosbarthu'r Loteri Cyngor Chwaraeon Cymru ar 31 Mawrth 2019 ac o'i wariant net ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; ac
- maent wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Deddf y Loteri Genedlaethol ac ati 1993 a chyfarwyddiadau'r Ysgrifennydd Gwladol a gyhoeddwyd o dan y ddeddf honno.

## Barn ar reoleidd-dra

Yn fy marn i, ym mhob cyswllt sylfaenol, mae'r gwariant a'r incwm a gofnodir yn y datganiadau ariannol wedi cael eu defnyddio at y pwrpas y'u bwriadwyd gan y Senedd ac mae'r trafodion ariannol sydd wedi'u cofnodi yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

## Sail y farn

Rwyf wedi cynnal fy archwiliad yn unol â Safonau Rhyngwladol ar gyfer Archwilio (ISAs) (y DU) a Nodyn Ymarfer 10 Archwilio Datganiadau Ariannol

Endidau'r Sector Cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig'. Disgrifir fy nghyfrifoldebau o dan y safonau hynny ymhellach yn yr adran cyfrifoldebau'r Archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol yn fy nhystysgrif. Mae'r safonau hynny'n datgan ei bod yn ofynnol i mi a fy staff gydymffurfio â Safon Foesegol Adolygedig 2016 y Cyngor Adroddiadau Ariannol. Rwyf yn annibynnol ar Gyfrif Dosbarthu'r Loteri Cyngor Chwaraeon Cymru yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i fy archwiliad ar y datganiadau ariannol yn y DU. Mae fy staff a minnau wedi cyflawni ein cyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Rwyf yn credu bod y dystiolaeth archwilio rwyf wedi'i sicrhau'n ddigonol ac yn briodol i ddarparu sail ar gyfer fy marn.

## Casgliadau perthnasol i fusnes gweithredol

Mae'n ofynnol i mi lunio casgliad ynghylch priodolrwydd defnydd y rheolwyr o'r sail busnes gweithredol ar gyfer cyfrifo ac, yn seiliedig ar y dystiolaeth a sicrheir yn yr archwiliad, a oes ansicrwydd sylfaenol yn bodoli mewn perthynas â digwyddiadau neu amodau a all greu amheuaeth sylwedol ynghylch gallu Cyfrif Dosbarthu'r Loteri Cyngor Chwaraeon Cymru i barhau fel busnes gweithredol am gyfnod o ddeuddeg mis o leiaf o ddyddiad cymeradwyo'r datganiadau ariannol. Os dof i'r casgliad bod ansicrwydd sylfaenol yn bodoli, mae'n ofynnol i mi dynnu sylw yn fy adroddiad fel archwilydd at y datgeliadau cysylltiedig yn y datganiadau ariannol neu, os yw datgeliadau o'r fath yn annigonol, addasu fy marn. Seilir fy nghasgliadau ar y dystiolaeth archwilio a sicrheir hyd at ddyddiad fy adroddiad fel archwilydd. Fodd bynnag, gall digwyddiadau neu amodau yn y dyfodol achosi i endid roi'r gorau i barhau fel busnes gweithredol. Nid oes gennyf unrhyw beth i adrodd arno mewn perthynas â'r materion hyn.



## Priod gyfrifoldebau'r Cyngor a'r Swyddog Cyfrifo am y datganiadau ariannol

Fel yr eglurwyd yn llawnach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau Cyngor a'r Prif Weithredwr, mae Cyngor Chwaraeon Cymru a'r Swyddog Cyfrifo'n gyfrifol am baratoïr datganiadau ariannol ac am fod yn fodlon eu bod yn cyflwyno darlun cywir a theg.

## Cyfrifoldebau'r Archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio, ardystio ac adrodd yn ôl ar y datganiadau ariannol yn unol â Deddf y Loteri Genedlaethol ac ati 1993.

Mae archwiliad yn cynnwys sicrhau tystiolaeth am y symiau a'r datgeliadau yn y datganiadau ariannol, sy'n ddigonol i roi sicrwydd rhesymol bod y datganiadau ariannol yn rhydd o unrhyw gamddatganiadau sylfaenol, boed yn cael eu hachosi gan dwyll neu gamgymeriad. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n warant y bydd archwiliad a gynhelir yn unol ag ISAs (y DU) bob amser yn canfod camddatganiad sylfaenol pan mae'n bodoli. Gall camddatganiadau godi o dwyll neu gamgymeriad a chânt eu hystyried yn sylfaenol os gellir disgwyl iddynt yn rhesymol, yn unigol neu gyda'i gilydd, ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Fel rhan o archwiliad yn unol ag ISAs (y DU), rwyf yn ymarfer barn broffesiynol ac yn cynnal amheuaeth broffesiynol drwy gydol yr archwiliad. Rwyf hefyd yn gwneud y canlynol:

- adnabod ac asesu risgiau camddatganiadau sylfaenol y datganiadau ariannol, boed oherwydd twyll neu gamgymeriad, cynllunio a gweithredu gweithdrefnau archwilio sy'n ymateb i'r risgiau hynny, a sicrhau tystiolaeth archwilio sy'n ddigonol ac yn briodol i ddarparu sail ar gyfer fy marn. Mae'r risg o beidio â chanfod camddatganiad sylfaenol o ganlyniad i dwyll yn uwch nag ar gyfer camddatganiad sylfaenol o ganlyniad i gamgymeriad, oherwydd gall twyll gynnwys cydgynllwynio, ffugio, hepgoriadau bwriadol, camgynrychiolaeth neu anwybyddu rheolaeth fewnol.

- icrhau dealltwriaeth o'r rheolaeth fewnol sy'n berthnasol i'r archwiliad er mwyn cynllunio gweithdrefnau sy'n briodol i'r amgylchiadau, ond nid at ddiben mynegi barn ar effeithiolrwydd rheolaeth fewnol Cyfrif Dosbarthu'r Loteri Cyngor Chwaraeon Cymru.
- gwerthuso priodolrwydd y polisiau cyfrifo a pha mor rhesymol yw'r amcangyfrifon cyfrifo a'r datgeliadau cysylltiedig a wneir gan y rheolwyr.
- gwerthuso cyflwyniad, strwythur a chynnwys cyffredinol y datganiadau ariannol, gan gynnwys y datgeliadau, a pha un ai yw'r datganiadau ariannol yn cynrychioli'r trafodion a'r digwyddiadau sylfaenol mewn ffordd sy'n sicrhau cyflwyniad teg.

Rwyf yn cyfathrebu â'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu ynghylch, ymhlith materion eraill, cwrmpas ac amseriad arfaethedig yr archwiliad ac unrhyw ganfyddiadau archwilio arwyddocaol, gan gynnwys unrhyw ddiffygion arwyddocaol mewn rheolaeth fewnol y dof ar eu traws yn ystod fy archwiliad.

Hefyd mae'n ofynnol i mi sicrhau digon o dystiolaeth i roi sicrwydd rhesymol bod yr incwm a'r gwariant sydd wedi'u cofnodi yn y datganiadau ariannol wedi cael eu defnyddio at y pwrpas y'u bwriadwyd gan y Senedd a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

## Gwybodaeth arall

Mae'r Cyngor a'r Swyddog Cyfrifo'n gyfrifol am yr wybodaeth arall. Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys yr wybodaeth yn yr Adroddiad Blynyddol, ar wahân i'r rhannau o'r Adroddiad Atebolrwydd a ddisgrifir yn yr adroddiad hwnnw fel wedi'u harchwilio, y datganiadau ariannol a fy adroddiad archwilio i ar y rheiny. Nid yw fy marn i ar y datganiadau ariannol yn cynnwys yr wybodaeth arall ac nid wyf yn mynegi unrhyw ffurf ar gasgliad sicrwydd mewn perthynas â hi. Mewn perthynas â fy archwiliad ar y datganiadau ariannol, fy nghyfrifoldeb i yw darllen yr wybodaeth arall a, thrwy wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn sylfaenol anghyson â'r datganiadau ariannol neu'r wybodaeth a gefais wrth gynnal yr archwiliad neu'n ymddangos wedi'i chamddatgan fel arall. Os dof i'r

casgliad, yn seiliedig ar y gwaith rwyf wedi'i wneud, bod unrhyw gamddatganiadau sylfaenol yn gysylltiedig â'r wybodaeth arall hon, mae'n ofynnol i mi roi gwybod am hynny. Nid oes gennyf unrhyw beth i adrodd yn ôl yn y cyswllt hwn.

## Barn ar faterion eraill

Yn fy marn i:

- mae'r rhannau o'r Adroddiad Atebolrwydd sydd i gael eu harchwilio wedi cael eu paratoïr briodol, yn unol â chyfarwyddiadau'r Ysgrifennydd Gwladol, a wnaed o dan Ddeddf y Loteri Genedlaethol ac ati 1993;
- yng ngoleuni'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth o Gyfrif Dosbarthu'r Loteri Cyngor Chwaraeon Cymru a'i amgylchedd a sicrhawyd fel rhan o'r archwiliad, nid wyf wedi nodi unrhyw gamddatganiadau sylfaenol yn yr Adroddiad Perfformiad na'r Adroddiad Atebolrwydd; ac
- mae'r wybodaeth sydd wedi'i rhoi yn yr Adroddiad Perfformiad a'r Adroddiad Atebolrwydd ar gyfer y flwyddyn ariannol y mae'r datganiadau ariannol wedi'u paratoïr ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol.

## Materion yr wyf yn adrodd arnynt drwy eithriad

Nid oes gennyf unrhyw beth i adrodd arno yng nghyswllt y materion canlynol, yr wyf yn adrodd arnynt i chi os yw'r canlynol, yn fy marn i, yn wir:

- nid oes cofnodion cyfrifo digonol wedi cael eu cadw ac nid oes ffurflenni digonol ar gyfer fy archwiliad wedi cael eu derbyn o ganghennau na fu fy staff yn ymweld â hwy; neu
- nid yw'r datganiadau ariannol a'r rhannau o'r Adroddiad Atebolrwydd sydd i gael eu harchwilio'n cyd-fynd â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifo; neu

- nid wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth a'r holl esboniadau y mae arnaf eu hangen ar gyfer fy archwiliad; neu
- id yw'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn adlewyrchu cydymffurfiaeth â chanllawiau Trysorlys EM.

## Adroddiad

Nid oes gennyf unrhyw sylwadau i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

**Gareth Davies**

**Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol**  
Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol  
157–197 Buckingham Palace Road  
Victoria  
Llundain  
SW1W 9SP

**Dyddiad**

### Cyngor Chwaraeon Cymru – Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr Cyfrif Dosbarthu'r Loteri ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2019

		2018/19	2017/18
	Nodyn	£'000	£'000
<b>Gwariant</b>			
Cynigion grant a wnaed yn ystod y flwyddyn	3	24,190	14,412
Llai ymrwymadau a ddaeth i ben neu a ddiddymwyd	3	(55)	(325)
Costau Staff	7	2,319	2,126
Dibrisiant	9	41	46
Costau gweithredu eraill	8	391	362
<b>Cyfanswm Gwariant</b>		<b>26,886</b>	<b>16,621</b>
<b>Incwm Crynswth</b>			
Elw o Gronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol	11	(14,463)	(14,752)
Enillion buddsoddi o Gronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol	11	(74)	(43)
Adfer grantiau	19	(538)	(86)
Incwm Arall	8	(193)	(203)
<b>Cyfanswm Incwm</b>		<b>(15,268)</b>	<b>(15,084)</b>
Gwariant Net o Weithgareddau		11,618	1,537
<b>Incwm/Gwariant Cynhwysfawr Arall</b>			
Cost cyllid pensiwn	18	82	74
Colled Actwaraidd ar Bensiwn	18	(139)	286
		(57)	360
Gwariant Net cyn llog a threthiant		11,561	1,897
Llog derbyniadwy		(6)	(1)
<b>Gwariant Net cyn trethiant</b>		<b>11,555</b>	<b>1,896</b>
Trethiant taladwy	6	1	-
<b>Gwariant Net ar ôl trethiant</b>		<b>11,556</b>	<b>1,896</b>
<b>Cyfanswm y Gwariant Cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2019</b>		<b>11,556</b>	<b>1,896</b>
Balans ar 1 Ebrill		(11,974)	(13,870)
Balans ar 31 Mawrth		(418)	(11,974)

Mae'r holl enillion a'r colledion cydnabyddedig wedi cael eu cyfrif ar sail y gost hanesyddol ac wedi'u hadlewyrchu yn y datganiad uchod. Mae'r holl weithgareddau'n parhau heb brynu na gwaredu eitemau.

Mae'r nodiadau ar dudalennau 86 i 101 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

### Cyngor Chwaraeon Cymru – Cyfrif Dosbarthu'r Loteri Datganiad o Sefyllfa Ariannol fel ar 31 Mawrth 2019

		Ar 31 Mawrth 2019	Ar 31 Mawrth 2018
	Nodyn	£'000	£'000
<b>Asedau Anghyfredol</b>			
Eiddo, peiriannau ac offer	9	163	194
<b>Asedau Cyfredol</b>			
Masnach derbyniadwy ac asedau cyfredol eraill	10	20	155
Buddsoddiadau - balans yng Nghronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol	11	14,665	15,541
Arian parod a chyfwerth ag arian parod	13	198	573
<b>Cyfanswm yr Asedau Cyfredol</b>		<b>14,883</b>	<b>16,269</b>
<b>Cyfanswm yr Asedau</b>		<b>15,046</b>	<b>16,463</b>
<b>Atebolrwydd Cyfredol</b>			
Croniadau grant	3	(10,554)	(580)
Atebolrwydd cyfredol arall	12	(1,061)	(729)
<b>Cyfanswm yr Atebolrwydd Cyfredol</b>		<b>(11,615)</b>	<b>(1,309)</b>
<b>Asedau Anghyfredol ac Asedau Cyfredol Net</b>		<b>3,431</b>	<b>15,154</b>
<b>Atebolrwydd Anghyfredol</b>			
Croniadau grant	3	(24)	(6)
Atebolrwydd Pensiwn	18	(2,989)	(3,174)
		(3,013)	(3,180)
<b>Asedau llai Atebolrwydd</b>		<b>418</b>	<b>11,974</b>
<b>Cronfeydd:</b>			
Cronfa Incwm a Gwariant		3,407	15,148
Cronfa Pensiwn	18	(2,989)	(3,174)
		418	11,974

Mae'r nodiadau ar dudalennau 86 i 101 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

Cymeradwywyd y datganiadau ariannol gan y Bwrdd a'u llofnodi ar ei ran gan;

#### Swyddog Cyfrifo:

**S Powell (Prif Weithredwr)**  
30ain Awst 2019

**Datganiad o Lif Arian Cyfrif Dosbarthu'r Loteri Cyngor Chwaraeon Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2019**

		2018/19	2017/18
	Nodyn	£'000	£'000
<b>Llif arian o weithgareddau gweithredu</b>			
Cyfanswm Cynhwysfawr (Gwariant)		(11,556)	(1,896)
Gostyngiad/(Cynnydd) mewn dyledwyr	10	111	(81)
Cynnydd/(Gostyngiad) mewn credydwyr	3,12	10,325	(1,367)
Gostyngiad yn y balans yng Nghronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol	11	876	2,542
Llog a dderbyniwyd		(6)	(1)
Dibrisiant offer a pheiriannau	9	41	46
Cost pensiwn	18	(185)	230
<b>(All-lif)/mewnlif arian net o weithgareddau gweithredu</b>		<b>(394)</b>	<b>(527)</b>
<b>Llif arian o weithgareddau buddsoddi</b>			
Llog a dderbyniwyd		6	1
<b>Llif arian o weithgareddau cyllido</b>			
Prynu eiddo, peiriannau ac offer	9	(10)	(30)
Ad-daliadau benthyciadau	10	24	33
<b>Trethiant</b>			
Treth gorfforaeth a dalwyd		(1)	-
<b>(All-lif)/mewnlif arian net ar gyfer y flwyddyn</b>	<b>13</b>	<b>(375)</b>	<b>(523)</b>
<b>Gostyngiad net mewn arian parod a chyferth ag arian parod yn ystod y cyfnod</b>			
Arian parod a chyferth ag arian parod ar ddechrau'r cyfnod		573	1,096
Arian parod a chyferth ag arian parod ar ddiwedd y cyfnod		198	573
		<b>(375)</b>	<b>(523)</b>

Mae'r nodiadau ar dudalennau 86 i 101 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

**Datganiad o Newidiadau i Ecwiti Trethdalwyr ar gyfer Cyfrif Dosbarthu'r Loteri Cyngor Chwaraeon Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2019**

	Balans yng Nghronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol	Balans yn CChC	Cronfa Pensiwn	Cyfanswm
	£'000	£'000	£'000	£'000
Balans ar 1 Ebrill 2017	18,083	(1,269)	(2,944)	13,870
<b>Newidiadau i Ecwiti Trethdalwyr 2017/18</b>				
Incwm o'r Loteri Genedlaethol	14,752	-	-	14,752
Tynnwyd i lawr yn ystod y flwyddyn gan Chwaraeon Cymru	(17,300)	17,300	-	-
Adenillion Buddsoddi	42	1	-	43
Incwm Gweithredu Arall	-	203	-	203
Adfer grantiau	-	86	-	86
Gwariant yn ystod y flwyddyn	(36)	(16,714)	-	(16,750)
Cost Pensiwn	-	-	(230)	(230)
<b>Balans ar 31 Mawrth 2018</b>	<b>15,541</b>	<b>(393)</b>	<b>(3,174)</b>	<b>11,974</b>
<b>Newidiadau i Ecwiti Trethdalwyr 2018/19</b>				
Incwm o'r Loteri Genedlaethol	14,463	-	-	14,463
Tynnwyd i lawr yn ystod y flwyddyn gan Chwaraeon Cymru	(15,350)	15,350	-	-
Adenillion Buddsoddi	74	6	-	80
Incwm Gweithredu Arall	-	193	-	193
Adfer grantiau	-	538	-	538
Gwariant yn ystod y flwyddyn	(63)	(26,952)	-	(27,015)
Cost Pensiwn	-	-	185	185
<b>Balans ar 31 Mawrth 2019</b>	<b>14,665</b>	<b>(11,258)</b>	<b>(2,989)</b>	<b>418</b>

Mae'r nodiadau ar dudalennau 86 i 101 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

## Cyngor Chwaraeon Cymru – Cyfrif Dosbarthu'r Loteri Nodiadau ar y Cyfrifon ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2019

### 1. Polisiâu Cyfrifo

#### 1.1 Sail y Cyfrifo

Mae'r cyfrifon wedi cael eu paratoi o dan y confensiwn cost hanesyddol, a addaswyd drwy brisio Eiddo, Peiriannau ac Offer drwy gyfeirio at gostau cyfredol, yn unol â'r cyfarwyddiadau gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, gyda chaniatâd y Trysorlys, yn unol ag Adran 35 o Ddeddf y Loteri Genedlaethol ac ati 1993 (fel y'i diwygiwyd). Gellir cael copi o'r cyfrifon ar gais drwy ysgrifennu at Gyngor Chwaraeon Cymru (Chwaraeon Cymru), Gerddi Sophia, Caerdydd, CF11 9SW. Heb gyfyngu ar yr wybodaeth a roddir, mae'r cyfrifon yn cael eu paratoi yn unol ag IFRS Llawlyfr Cofnodion Ariannol y Llywodraeth 2018/19 (FrEM seiliedig ar IFRS) a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM.

Mae cyfrifon ar wahân wedi cael eu paratoi ar gyfer gweithgareddau a gyllidir gan gymorth grant, yn unol â'r cyfarwyddiadau a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru. Nid yw'n ofynnol i'r cyfrif hwn gael ei gyfuno â chyfrifon Chwaraeon Cymru.

Mae'r cyfrifon wedi cael eu paratoi ar sail busnes gweithredol. Mae'n ofynnol i Chwaraeon Cymru roi cyfrif am ymrwymadau grant tymor hir sy'n dod yn ddyledus i'w talu yn y cyfnodau cyfrifo dilynol, a gyllidir gan elw'r loteri yn y dyfodol.

#### 1.2 Incwm o Gronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol

Cyllidir gweithgareddau dosbarthu swyddogaeth Loteri Chwaraeon Cymru gan elw a neilltuir gan y Loteri Genedlaethol. Cedwir yr elw hwn mewn cronfa a weinyddir gan yr Adran dros Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, ac mae ar gael i'w dynnu i lawr i gyfrif banc Loteri Chwaraeon Cymru pan fo angen. Cydnabyddir yr holl incwm yn unol ag IFRS 15.

Mae'r balans yng Nghronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol yn parhau o dan stiwardiaeth yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Er hynny, dangosir cyfran y balans o'r fath y gellir ei briodoli i Chwaraeon Cymru yn y cyfrifon yn unol â gwerth y farchnad ac, ar ddyddiad y Datganiad o Sefyllfa Ariannol, mae wedi cael ei ardystio gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon fel balans sydd ar gael ar gyfer ei ddosbarthu gan Chwaraeon Cymru yng nghyswllt ymrwymadau cyfredol ac yn y dyfodol.

Mae'r balans ar 31 Mawrth 2019 yng Nghronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol yn cytuno â'i gyfrifon wedi'u harchwilio (yn amodol ar dalgrynnu gwahaniaethau). Ni addaswyd balans agoriadol y gronfa yn dilyn archwiliad 2017/18 o gyfrifon Cronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol.

#### 1.3 Eiddo, Peiriannau ac Offer

Mae Chwaraeon Cymru yn cyfalafu unrhyw eiddo, peiriannau ac offer gwerth mwy na £500 a ddefnyddir ar gyfer gweinyddu swyddogaeth y Loteri yn unig a chynhwysir yr offer yn y datganiad o'r sefyllfa ariannol ar sail cost hanesyddol llai darpariaeth ar gyfer dibrisiant. Ym marn Chwaraeon Cymru, nid oes unrhyw wahaniaeth sylfaenol rhwng y gost hanesyddol a gwerth llyfr net cost gyfredol yr asedau hyn.

#### 1.4 Dibrisiant

Darperir dibrisiant ar sail llinell syth ar yr holl eiddo, peiriannau ac offer, gan ystyried amcangyfrif o'u hoes ddefnyddiol a'r gwerthoedd gweddillol a ragdybir. Mae oes yr ased at y pwrpas hwn fel a ganlyn ar gyfartaledd:

Offer - Cyfrifiaduron	3 years
Offer - Arall	3 - 10 years
Cerbydau	5 years

Polisi Chwaraeon Cymru yw dibrisio asedau o'r mis ar ôl eu prynu.

### 1.5 Costau Pensiwn

Mae Chwaraeon Cymru'n gweithredu dau gynllun pensiwn ar gyfer ei staff. Mae'r rhan fwyaf o'r staff yn aelodau o Gronfa Bensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg. Mae'r Gronfa'n gynllun pendant sy'n darparu buddiannau'n seiliedig ar Enillion Ailbriso Cyfartalog Gyrfaol. Mae asedau'r Gronfa'n cael eu cadw ar wahân i rai Chwaraeon Cymru. Cynllun pensiwn cyfraniad pendant gyda Scottish Widows yw'r llall. Dywed IAS 19 bod rhaid i ffigur sy'n cael ei gyfrif yn actwaraidd (cost gwasanaethu cyfredol a gorffennol) gael ei bennu i'r Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr er mwyn lledaenu cost pensiynau dros oes waith cyflogaion gyda Chwaraeon Cymru.

Neilltuir unrhyw asedau neu atebolrwydd pensiwn rhwng y Loteri a Chwaraeon Cymru yn seiliedig ar gyfradd hanesyddol y neilltuo ar gostau staff, gweler 1.6.1. Neilltuir taliadau diffyg y gronfa bensiwn ar sail yr un gyfran a'r dyraniad diffyg pensiwn i gyfrif y Loteri.

### 1.6 Dyrannu Costau

Cyfrifir dyraniadau costau'r staff a'r costau anuniongyrchol a drosglwyddir o Chwaraeon Cymru i gyfrif y Loteri ar y sail a ganlyn:

#### 1.6.1 Dyrannu Costau

Mae costau'r staff yn cael eu neilltuo i'r Loteri yn unol â'r amser maent yn ei dreulio'n cyflawni gweithgareddau'r Loteri. Os yw'r staff yn cael eu datgan fel staff sy'n cael eu cyflogi 100% at bwrpas y Loteri, mae eu costau'n cael eu neilltuo'n llawn. Os yw staff yn gweithio, neu'n darparu gwasanaeth i gynlluniau loteri a thrysorlys, mae eu costau'n cael eu neilltuo'n unol â'r amser a dreulir ar waith y Loteri

#### 1.6.2 Dyrannu Costau

Mae costau heb fod yn gostau staff yn cael eu neilltuo naill ai ar sail yr arwynebedd llawr a ddefnyddir gan staff y Loteri neu, os nad oes data arwynebedd llawr ar gael neu os nad yw'n cael ei ystyried yn briodol, dyrennir costau'n seiliedig ar gyfanswm amser staff y Loteri, a fynegir fel canran o gyfanswm amser y staff.

#### 1.6.3 Dyrannu Costau

Neilltuir tâl a chostau teithio Aelodau'r Cyngor ar sail 50/50.

### 1.7 Polisi ar gyfer Croniadau Grant

Mae dyfarniadau grant yn cael eu cyfrif fel gwariant yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr a nes eu bod yn cael eu talu, fel cronladau grant yn y Datganiad o Sefyllfa Ariannol os ydynt yn bodloni'r diffiniad o atebolrwydd, y manylir arno yn Nodyn 3.

Nid yw dyfarniadau grant y penderfynwyd yn eu cylch yn ffurfiol ac nad ydynt yn bodloni'r diffiniad o atebolrwydd yn cael eu cynnwys yn y gwariant ar y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr nac fel cronladau yn y Datganiad o Sefyllfa Ariannol. Er hynny, maent yn cael eu datgelu fel atebolrwydd grant wrth gefn yn y Nodiadau ar gyfer y Cyfrifon.

### 1.8 Incwm arall

Yn berthnasol i incwm a gynhyrchir gan UK Sport at ddefnydd asedau a chyfleusterau Chwaraeon Cymru.

### 1.9 Defnydd o Amcangyfrifon a Phenderfyniadau

Mae paratoi'r datganiadau ariannol yn golygu bod rhaid i Chwaraeon Cymru wneud amcangyfrifon a rhagdybiaethau sy'n effeithio ar y defnydd o bolisiau a'r symiau yr adroddir amdanynt. Adolygir amcangyfrifon a phenderfyniadau'n barhaus. Cydnabyddir y diwygiadau i'r amcangyfrifon cyfrifo yn ystod y cyfnod pryd diwygir yr amcangyfrif ac mewn unrhyw gyfnod a effeithir yn y dyfodol.

Ceir gwybodaeth am feysydd amcangyfrif a phenderfyniadau allweddol arwyddocaol wrth ddefnyddio polisiâu cyfrifo sy'n cael yr effaith fwyaf arwyddocaol ar y symiau a gydnabyddir yn y datganiadau ariannol yn y nodiadau canlynol:-

Nodyn 1.6.1 Mae costau staff yn cael eu neilltuo i'r Loteri yn unol â'r amser maent yn ei dreulio yn cyflawni gweithgareddau'r Loteri, gweler nodyn 1.6.1 am ragor o fanylion. Mae Nodyn 18 yn ymwneud â chostau pensiwn a neilltuir i'r Loteri ar sail dyraniad cyfartalog hanesyddol o gostau staff.

## 1.10 Offerynnau Ariannol

### 1.10.1 Asedau Ariannol

Nid yw masnach dderbyniadwy ac asedau cyfredol eraill yn dwyn unrhyw log ac maent yn cael eu datgan ar sail eu gwerth nominal, sy'n cael ei leihau yn unol â lwfansau priodol ar gyfer symiau anadferadwy amcangyfrifol. Mae arian parod a chyfwerth ag arian parod yn cynnwys arian mewn llaw, blaendal tymor byr a buddsoddiadau tymor byr eraill hynod hylifol y gellir eu trosglwyddo'n rhwydd i swm penodol o arian parod ac sy'n amodol ar risg anarwyddocaol o newidiadau mewn gwerth.

### 1.10.2 Atebolrwydd Ariannol

Nid yw Taliadau Masnach ac atebolrwydd cyfredol arall yn dwyn llog ac maent yn cael eu datgan yn unol â'u gwerth nominal.

## 1.11 Adroddiadau segmentu

Mae cofnodion rheoli Chwaraeon Cymru ar gyfer y Loteri'n darparu gwybodaeth berthnasol i ddosbarthu grantiau'r Loteri. Mae Chwaraeon Cymru o'r farn nad yw gofynion datgelu IFRS 8 Segmentau Gweithredu yn berthnasol i'r Cyfrifon Dosbarthu Loteri hyn. Ystyrir fod segment gweithredu unigol ar gyfer dosbarthu cyllid y loteri.

## 1.12 Safonau Cyfrifo Wedi'u Cyhoeddi o'r Newydd Nad Ydynt yn Weithredol Eto

Llywodraethir y defnydd o unrhyw safonau IFRS newydd neu ddiwygiedig gan eu mabwysiadu gan FReM. Mae Chwaraeon Cymru'n gweithredu newidiadau i safonau pan ddônt yn weithredol. Mae effeithiau posib yn sgil newidiadau IFRS sydd wedi'u cyhoeddi ac nad ydynt yn weithredol eto o ran y datganiadau ariannol yn ystod y cyfnod o ddefnydd cychwynnol, yn bennaf IFRS16 Safonau Cyfrifo Prydlesau sy'n dod i rym ar gyfer cyfnodau cyfrifo'n dechrau ar neu ar ôl 1af Ionawr 2019. Mae Chwaraeon Cymru eto i fesur effaith y newidiadau ar y datganiadau ariannol.

## 1.13 Gweithredu IFRS 9 Offerynnau Ariannol ac IFRS 15 Refeniw o Gontractau gyda Chwsmeriaid

Gweithredodd Chwaraeon Cymru IFRS 9 ac IFRS 15 yn 2018/19 am y tro cyntaf. Mae mabwysiadu IFRS 9 wedi arwain at ddosbarthu'r holl offerynnau ariannol fel rhai wedi'u mesur ar gost wedi'i hamorteiddio. Ni fu unrhyw effeithiau sylweddol eraill yn sgil IFRS 9 ar y cyfrifon hyn.

Nid yw cydnabod a mesur incwm y loteri wedi newid o ganlyniad i fabwysiadu IFRS 15.

## 2. Grantiau a Dalwyd yn ystod y Flwyddyn

Grantiau Refeniw	2018/19 £'000	2017/18 £'000
Elite Cymru	3,222	3,506
Coach Cymru	2,741	2,697
Perfformiad Cenedlaethol	983	1,063
Hyfforddiant Cenedlaethol	937	924
Chwaraeon Anabled	552	566
Y Gist Gymunedol	1,680	1,691
Twf y Loteri	292	165
Arweinyddiaeth	81	54
Nodyn 3	10,488	10,666

Rhoddir grantiau refeniw i gefnogi'r athletwyr a'r gwasanaethau cefnogi a ddarperir i bartneriaid. Am ddadansoddiad pellach, gweler nodyn 3.

Mae'r Gist Gymunedol yn cynnwys swm o £60,416 (2017/18 £62,464) a dalwyd yng nghyswllt costau gweinyddu'r awdurdodau lleol, sy'n gweinyddu'r cynllun grantiau ar lefel leol.

Grantiau Cyfalaf	2018/19 £'000	2017/18 £'000
Cyfalaf	264	-
Grantiau Datblygu	3,051	3,955
Galw Am Weithredu	340	749
Nodyn 3	3,655	4,704

Mae grantiau cyfalaf yn cyllido gweithgareddau i gynyddu cyfranogiad a gwella perfformiad mewn chwaraeon. Am ddadansoddiad pellach, gweler nodyn 3.

Mae'r ffigurau grant yn y nodiadau uchod yn cynnwys £463,472 o wariant uniongyrchol a wnaed ar ran y rhai a dderbyniodd grantiau (£595,968 yn 2017/18)

### 3. Croniadau Grant

	Cyfalaf £'000	Refeniw £'000	2018/2019 Cyfanswm £'000	2017/2018 Cyfanswm £'000
Balans ar 1 Ebrill	550	36	586	1,869
Cynigion grant a fodlonwyd yn ystod y flwyddyn	(3,655)	(10,488)	(14,143)	(15,370)
Cynigion grant heb eu derbyn	(55)	-	(55)	(325)
Cynigion grant a wnaed yn ystod y flwyddyn	5,300	18,890	24,190	14,412
Symudiad yn ystod y flwyddyn	1,590	8,402	9,992	(1,283)
<b>Balans cronladau ar 31 Mawrth</b>	<b>2,140</b>	<b>8,438</b>	<b>10,578</b>	<b>586</b>
Dadansoddiwyd fel:				
Symiau'n dod yn ddyledus o fewn blwyddyn	2,116	8,438	10,554	580
Symiau'n dod yn ddyledus ar ôl blwyddyn	24	-	24	6
<i>Dadansoddiad o amseriad disgwyliedig y llif arian</i>			<b>2018/2019 £'000</b>	<b>2017/2018 £'000</b>
Symiau'n ddyledus yn ystod Blwyddyn Ariannol 2018/19			-	580
Symiau'n ddyledus yn ystod Blwyddyn Ariannol 2019/20			10,554	6
Symiau'n ddyledus yn ystod Blwyddyn Ariannol 2020/21			24	-
Balans ar 31 Mawrth 2019			<b>10,578</b>	<b>586</b>
			<b>2018/2019 £'000</b>	<b>2017/2018 £'000</b>
<b>Balans rhyng-lywodraeth</b>				
Balans gyda chyrrff eraill y llywodraeth ganolog			78	45
Balans gydag awdurdodau lleol			1,080	74
			1,158	119
Balans gyda chyrrff allanol i'r llywodraeth			9,420	467
			<b>10,578</b>	<b>586</b>

Bydd Chwaraeon Cymru yn trin dyfarniadau Grant fel gwariant ac os nad ydynt wedi'u talu, fel cronlad, os oes rhwymedigaeth adeiladol i wneud taliad. Daw dyfarniadau grant sy'n rhydd o unrhyw amodau arbennig ar grant yn rhwymedigaeth adeiladol pan mae'r cynnig ffurfiol o grant wedi cael ei anfon at dderbynydd y grant.

Daw cynigion grant sydd ag amodau arbennig yn rhwymedigaeth adeiladol pan mae'r ymgeisydd wedi

cydymffurfio â'r amodau arbennig yn y contract. Ni fydd dyfarniadau y penderfynwyd yn eu cylch ond sydd ag amodau grant heb eu cyflawni'n arwain at rwymedigaeth adeiladol ac ni fydd yn arwain at groniad grant; yn hytrach, bydd dyfarniadau o'r fath yn cael eu datgelu drwy gyfrwng nodyn fel atebolrwydd grant wrth gefn. (gweler nodyn 4)

Bydd dyfarniadau grant yn cael eu trin fel cynnig ffurfiol ar ôl i'r derbynydd gael hysbysiad ysgrifenedig

ffurfiol ar ffurf "llythyr cynnig". Ni fydd cyfathrebu ar lafar neu'n anffurfiol gan staff, nad yw'n rhwymo Chwaraeon Cymru mewn unrhyw ffordd, yn cael ei drin fel cynnig ffurfiol o grant.

Ni fydd Chwaraeon Cymru yn trin unrhyw rai o'r amodau canlynol fel rhai o dan eu rheolaeth:

- Y gofyniad i sicrhau caniatâd cynllunio neu unrhyw gymeradwyaeth reoleiddio arall;
- Y gofyniad i sicrhau arian cyfatebol o ffynonellau eraill;
- Amod cyffredinol perthnasol i argaeledd arian y loteri.

Fel rhan o strategaeth newydd Chwaraeon Cymru, mae model buddsoddi newydd yn cael ei ddatblygu yn barod ar gyfer penderfyniadau cyllido o 2020/21 ymlaen. Felly, mae 2019/20 yn flwyddyn bontio ar gyfer penderfyniadau cyllido, felly mae Chwaraeon Cymru wedi dewis ymestyn cynigion cyllido 2018/19 am 12 mis, i roi amser i weithio gyda phartneriaid yn ystod y flwyddyn bontio. Seiliedig y cynnig o estyniad ar y grant ar symiau llythyrau cynnig 2018/19, gyda'r llythyrau cynnig adolygedig yn cael eu cyhoeddi yn ystod blwyddyn ariannol 2018/19. O ganlyniad, mae cynigion 2019/20 wedi'u cynnwys fel cynigion a wnaed fel rhan o gyfrifon 2018/19, ac o'r £24,190,000 o gynigion grant a wnaed yn ystod y flwyddyn, mae'r cynigion grant sy'n berthnasol i 2019/20 yn £1,490,000 ar gyfer grantiau cyfalaf ac £8,438,000 ar gyfer grantiau refeniw.

### 4. Atebolrwydd Grant Wrth Gefn

	2018/2019 £'000	2017/2018 £'000
Atebolrwydd Grant	1,365	820
	<b>1,365</b>	<b>820</b>

### 5. Ymrwymadau Cyfalaf

Ar 31 Mawrth 2019, nid oedd gan Gyfrif y Loteri unrhyw ymrwymadau cytundebol ar gyfer Cyfalaf ac Eiddo, Peiriannau ac Offer (2017/2018 Dim).

### 6. Trethiant Taladwy

	2018/2019 £'000	2017/2018 £'000
Treth daladwy ar log a dderbyniwyd ar gyfradd o 19% (2017/2018 - 19%)	1	-

## 7. Nifer y Staff a'r Costau Cysylltiedig

Mae ffigurau costau'r staff a ddangosir yn y Cyfrif Gwariant Net yn ddyraniad o'r costau a achoswyd gan Chwaraeon Cymru ac maent yn seiliedig ar y canlynol:

	Nifer y staff cyfwerth ag amser llawn cysylltiedig ar gyfartaledd		2018/2019	2017/2018
	2018/19	2017/18	£'000	£'000
Costau cyflog crynswth Cadeirydd L Conway*	0.20	-	16	-
Prif Weithredwr S Powell	0.25	0.25	24	24
Staff Eraill	44.68	40.07	2,279	2,102
			<u>2,319</u>	<u>2,126</u>
Cyflogau a thâl			1,711	1,570
Costau Nawdd Cymdeithasol			171	158
Costau Pensiwn eraill			564	528
Addasiadau IAS19			(127)	(130)
			<u>2,319</u>	<u>2,126</u>

Mae'r costau Pensiwn eraill sy'n gyfanswm o £564,000 yn cynnwys cyfraniad cyfandaliad o £219,360 tuag at yr atebolrwydd pensiwn net (2017/18 £212,880). Y gweddill yw cost pensiwn y cyflogwr a neilltuir i'r loteri'n seiliedig ar ddyrannu amser cyflogaion unigol i waith y loteri.

Mae IAS19 Buddiannau Cyflogaion yn datgan ei bod yn ofynnol i ffigur a gyfrifir yn actwaraidd (cost gwasanaeth cyfredol a gorffennol) gael ei nodi yn y Datganiad o Incwm Net Cynhwysfawr (SoCNE). Ar gyfer 2018/19, roedd cyfraniad gwirioneddol y cyflogwr yn (£461,000) (24% o £1,920,000). Roedd y gost gwasanaeth bresennol a gorffennol a ddyrannwyd gan y Loteri ar gyfer 2018/19 yn gyfanswm o £334,000 (24% o £1,390,000), sy'n gorfod cymryd lle'r costau pensiwn gwirioneddol ar gyfer y cyflogwr yn y SoCNE. Felly, yr effaith net

oedd (£127,000) i gostau staff ar ôl tynnu cyfraniad y cyflogwr. Gan fod cost y gwasanaeth ar hyn o bryd yn nodyn syniadol, mae hwn yn cael ei newid yn ôl yn y Datganiad o Newidiadau i Ecwiti Trethdalwyr fel mai dim ond cost cyfraniadau pensiwn y cyflogwr a dynnir o falans y Loteri. Mae rhagor o fanylion ar gael yn nodyn 18.

Mae costau diswyddo'r flwyddyn wedi cael eu talu'n llawn a'u hadlewyrchu yn y cyfrifon ar gyfer Cyngor Chwaraeon Cymru. Nid oes unrhyw gostau diswyddo wedi'u cynnwys yn y datganiadau ariannol hyn.

Ceir rhagor o wybodaeth am gostau staff yn yr adroddiad ar Dâl a Staff ar dudalen 72.

Dadansoddir costau'r staff ymhellach, fel a ganlyn:

	2018/2019	2017/2018
	£'000	£'000
Gweinyddu	1,003	940
Cefnogaeth Gwyddoniaeth Chwaraeon i Athletwyr	1,316	1,186
	<u>2,319</u>	<u>2,126</u>

\* Mae nifer y staff a gyflogir ar gyfartaledd i gyd yn staff contract parhaol. Penodir y Cadeirydd i weithio deuddydd yr wythnos ac mae'n treulio 50 y cant o'r amser hwnnw ar weithgareddau'r loteri. Yn ystod 2017/18, dewisodd L Conway i beidio â chymryd cyflog tra oedd yn rôl y Cadeirydd. O 10fed Mai 2018 ymlaen, penderfynodd y Cadeirydd gymryd cyflog.

## 8. Costau Gweithredu Eraill ac Incwm Arall

Costau	2018/2019	2017/2018
	£'000	£'000
Costau Uniongyrchol	161	105
Llety	63	67
Ymgynghoriaeth	2	-
Ffi Archwilio	21	19
Ailgodi tâl am Wasanaethau Chwaraeon Cymru	144	171
	<u>391</u>	<u>362</u>
Incwm	2018/2019	2017/2018
	£'000	£'000
Grant UK Sport	193	203
	<u>193</u>	<u>203</u>

## 9. Eiddo, Peiriannau ac Offer

	Offer	Cyfanswm
	£'000	£'000
Cost neu Brisiad ar 1 Ebrill 2018	470	470
Ychwanegiadau	10	10
Gwaredu	(1)	(1)
Ar 31 Mawrth 2019	<u>479</u>	<u>479</u>
Dibrisiant ar 1 Ebrill 2018	(276)	(276)
Ffi ar gyfer y Flwyddyn	(41)	(41)
Gwaredu	1	1
Ar 31 Mawrth 2019	<u>(316)</u>	<u>(316)</u>
<b>Gwerth Llyfr Net ar 31 Mawrth 2019</b>	<u>163</u>	<u>163</u>
Gwerth Llyfr Net ar 31 Mawrth 2018	<u>194</u>	<u>194</u>

## 9. Eiddo, Peiriannau ac Offer (parhad)

	Offer £'000	Cyfanswm £'000
Cost neu Brisiad ar 1 Ebrill 2017	448	448
Ychwanegiadau	30	30
Gwaredu	(8)	(8)
Ar 31 Mawrth 2018	470	470
Dibrisiant ar 1 Ebrill 2017	(238)	(238)
Ffi ar gyfer y flwyddyn	(46)	(46)
Gwaredu	8	8
Ar 31 Mawrth 2018	(276)	(276)
<b>Gwerth Llyfr Net ar 31 Mawrth 2018</b>	<b>194</b>	<b>194</b>
Gwerth Llyfr Net ar 31 Mawrth 2017	210	210

## 10. Masnach Derbyniadwy ac Asedau Cyfredol Eraill

	31 Mawrth 2019 £'000	31 Mawrth 2018 £'000
<b>Dyledus o fewn blwyddyn</b>		
Eitemau derbyniadwy eraill	20	142
<b>Dyledus o fewn mwy na blwyddyn</b>		
Eitemau derbyniadwy eraill a rhagdaliadau	-	13
	20	155

Yn gynwysedig yn yr eitemau derbyniadwy eraill mae £14,000 (2017/2018 £38,000) yng nghyswllt benthyciadau heb log a wnaed dros gyfnod o 10 mlynedd.

	31 Mawrth 2019 £'000	31 Mawrth 2018 £'000
<b>Balans rhyng-lywodraeth</b>		
Balans gyda chyrff eraill y llywodraeth ganolog	-	-
Balans gydag awdurdodau lleol	2	67
	2	67
Balans gyda chyrff allanol i'r llywodraeth	18	88
	20	155

## 11. Cronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol

	Balans yng Nghronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol £'000
Balans ar 1 Ebrill 2017	18,083
<b>Newidiadau i Ecwiti Trethdalwyr 2017/18</b>	
Incwm o'r Loteri Genedlaethol	14,752
Tynnwyd i lawr yn ystod y flwyddyn gan Chwaraeon Cymru	(17,300)
Adenillion Buddsoddi	42
Incwm Gweithredu Arall	-
Adfer grantiau	-
Gwariant yn ystod y flwyddyn	(36)
Cost Pensiwn	-
<b>Balans ar 31 Mawrth 2018</b>	<b>15,541</b>
<b>Newidiadau i Ecwiti Trethdalwyr 2018/19</b>	
Incwm o'r Loteri Genedlaethol	14,463
Tynnwyd i lawr yn ystod y flwyddyn gan Chwaraeon Cymru	(15,350)
Adenillion Buddsoddi	74
Incwm Gweithredu Arall	-
Adfer grantiau	-
Gwariant yn ystod y flwyddyn	(63)
Cost Pensiwn	-
<b>Balans ar 31 Mawrth 2019</b>	<b>14,665</b>

Mae'r balansau uchod yn cytuno â datganiad Cronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol a gyhoeddwyd gan yr Adran dros Ddigidol, Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon. .

## 12. Masnach Taladwy ac Atebolrwydd Cyfredol Arall

	31 Mawrth 2019 £'000	31 Mawrth 2018 £'000
Chwaraeon Cymru	1,040	710
Croniadau	21	19
	1,061	729
<b>Balans rhyng-lywodraeth</b>		
Balans gyda chyrff eraill y llywodraeth ganolog	1,040	710
Balans gydag awdurdodau lleol	-	-
	1,040	710
Balans gyda chyrff allanol i'r llywodraeth	21	19
	1,061	729



### 13. Dadansoddi Newidiadau Mewn Arian Parod a Chyferwerth ag Arian Parod

	2018/2019 £'000	2017/2018 £'000
Fel ar 1 Ebrill	573	1,096
Newid net mewn balansau arian parod a chyferwerth ag arian parod	(375)	(523)
Fel ar 31 Mawrth	198	573

Cedwir yr holl arian parod mewn cyfrifon banc masnachol.

### 14. Atebolrwydd Wrth Gefn

Yn ychwanegol at yr atebolrwydd grant wrth gefn, a ddatgelir yn Nodyn 4, nid oedd unrhyw atebolrwydd wrth gefn ar 31 Mawrth 2019 oedd angen ei ddatgelu.

Ar 31 Mawrth 2019, yn dilyn penderfyniad McCloud/Sargeant, mae Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol Chwaraeon Cymru yn ansicr o'r atebolrwydd ychwanegol posib i'r Cynllun Pensiwn.

### 15. Asedau Wrth Gefn

Mae gan Ddosbarthwyr y Loteri Genedlaethol hawl i dderbyn cyfran o'r derbyniadau o werthu tir ym Mharc Olympaidd y Frenhines Elizabeth i wneud iawn am eu cyfraniad o £675m ychwanegol at gyllido Gemau Olympaidd a Pharalympaidd Llundain 2012. Cyhoeddwyd hyn yn 2007. Mae'r trefniadau wedi'u datgan mewn cytundeb cyfreithiol rhwng yr Ysgrifennydd Gwladol ac Awdurdod Llundain Fwyaf dyddiedig 29ain Mawrth 2012, sy'n datgan dosbarthiad y cyllid rhwng y GLA a dosbarthwyr y loteri (drwy DCMS). Mae gwerthiant tir yn debygol o ddiwydd dros gyfnod hir o amser, gyda'r amcangyfrif rhwng 2018-19 a 2036-37. Mae DCMS yn amcangyfrif y daw'r taliadau cyntaf i Ddosbarthwyr y Loteri drwodd tua chanol y 2020au.

### 16 Offerynnau Ariannol

Mae Safon Cofnodion Ariannol Rhyngwladol 7 : Offerynnau Ariannol yn dweud ei bod yn ofynnol datgelu'r rôl y mae offerynnau ariannol wedi'i chwarae yn ystod y cyfnod o ran creu neu newid y risgiau y mae swyddogaeth Loteri Chwaraeon Cymru'n eu hwynebu wrth ymgymryd â'i rôl.

### Risgiau Hylifedd

Yn 2018/19, deilliodd £14,463,000 neu 94.7% o'r incwm o'r Loteri Genedlaethol (2017/18: £14,752,000 neu 97.8%). O'r incwm a oedd yn weddill, deilliodd £74,000 neu 0.5% o'r adenillion buddsoddi o'r balans yng Nghronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol, (2017/18 £43,000 neu 0.3%), a £731,000 neu 4.8% o incwm amrywiol (2017/18: £289,000 neu 1.9%). Nid yw Chwaraeon Cymru yn ystyried bod ei Gronfa Loteri yn wynebu unrhyw risg hylifedd sylweddol ac mae'n fodlon bod y balans yng Nghronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol a'r elw a ragwelir yn y dyfodol o'r Loteri yn ddigonol i fodloni ei ymrwymadau caled.

### Risg Cyfraddau Llog

Buddsoddir asedau ariannol y Loteri yng Nghronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol, sy'n buddsoddi mewn band cul o asedau risg isel, fel bondiau'r llywodraeth ac arian parod. Nid oes gan Chwaraeon Cymru unrhyw reolaeth dros fuddsoddi Cyllid yng Nghronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol. Cedwir y balansau arian parod a dynnir i lawr o'r Gronfa, i dalu'r ymrwymadau grant a'r costau gweithredu, mewn cyfrif banc cyfradd amrywiol mynediad ar unwaith. Rhoddodd y cyfrif hwn gyfradd llog o 0.50% ar gyfartaledd yn ystod y flwyddyn (2017/18 0.50%). Roedd balans yr arian parod ar ddiwedd y flwyddyn yn £198,000 (2017/18 £573,000). Nid yw Chwaraeon Cymru yn ystyried bod ei swyddogaeth Loteri yn wynebu risg sylweddol o ran cyfraddau llog. Wedi'i gynnwys gyda'r eitemau derbyniadwy (nodyn 10) mae £14,000 (2017/18 £38,000) sy'n ymwneud â benthyciad di-log. Pe bai llog wedi cael ei godi ar gyfradd y trysorlys o 3.5%, yna byddai ffi o £490 (2017/18 3.5% £1,330) wedi cael ei chodi fel llog yn y cyfrifon hyn.

### Risg Arian Tramor

Nid yw swyddogaeth Loteri Chwaraeon Cymru'n wynebu unrhyw risg o ran arian tramor.

### 17. Trafodion Parti Cysylltiedig

#### Cyrff Cyhoeddus

Cyllidir gweithrediadau Loteri Chwaraeon Cymru gan Gronfa'r Loteri Genedlaethol drwy gyfrwng yr Adran ar gyfer Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Mae'r Adran yn cael ei hystyried fel parti cysylltiedig.

#### Unigolion

Talodd y Loteri grantiau yn ystod y flwyddyn i nifer o sefydliadau y bu i'r aelodau a'r uwch staff ddatgan diddordeb ynddynt ac mae'r rhai sy'n cael eu hystyried yn sylfaenol i'w gweld isod. Rhaid i unrhyw ddatgan buddiannau ar gyfer eitemau a drafodir mewn cyfarfodydd gael eu datgan gan yr unigolyn, a fydd yn gadael y cyfarfod ar gyfer y rhan honno.

Panel Aelodau	Corff	Taliad Grant yn ystod y Flwyddyn £000	Natur y cyswllt	Ymrwymadau Grant Caled heb eu bodloni eto £000
<b>S Powell</b> Prif Weithredwr	Undeb Hoci Cymru	234	Aelod	234
<b>J Sheppard</b> Aelod o'r Cyngor	Pêl Rwyd Cymru	280	Mam – Cyflogai Cymdeithas Bêl Rwyd Cymru	275
<b>J Sheppard</b> Aelod o'r Cyngor	Badminton Cymru	149	Chwaer - Cadeirydd Badminton Cymru	149
<b>J Sheppard</b> Aelod o'r Cyngor	Undeb Rygbi Cymru	175	Tad - Swyddog Gemau gydag Undeb Rygbi Cymru	172
<b>J Sheppard</b> Aelod o'r Cyngor	Undeb Golff Cymru	245	Chwaer - Aelod o'r Bwrdd	245
<b>J Longville</b> Aelod o'r Cyngor	Pêl Rwyd Cymru	280	Cyn Gadeirydd y Dewiswyr a Hyfforddwr	275
<b>J Longville</b> Aelod o'r Cyngor	Athletau Cymru	755	Mab yn aelod	723
<b>R Parks</b> Aelod o'r Cyngor	Chwaraeon Eira Cymru	60	Llysgennad	48
<b>C Malcom</b> Aelod o'r Cyngor	Athletau Cymru	755	Aelod Bwrdd a Phrif Hyfforddwr	723
<b>G Williams</b> Cyfarwyddwr Corfforaethol	Pêl Rwyd Cymru	280	Plant yn Aelodau	275
<b>B Davies</b> Cyfarwyddwr Corfforaethol	Gymnasteg Cymru	700	Cymar yn Hyfforddwr	673
<b>S Small</b> Aelod o'r Cyngor	Cyngor Dinas Caerdydd	110	Teulu Agos - Cyn Hyfforddwr	-
<b>S Small</b> Aelod o'r Cyngor	Ymddiriedolaeth Cymdeithas Bêl Droed Cymru	376	Aelod	376
<b>I Bancroft</b> Aelod o'r Cyngor	Cyngor Sir y Fflint	18	Cyn Gyflogai	18
<b>I Bancroft</b> Aelod o'r Cyngor	Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam	11	Prif Weithredwr	10

Panel Aelodau	Corff	Taliad Grant yn ystod y Flwyddyn £000	Natur y cyswllt	Ymrwymiadau Grant Caled heb eu bodloni eto £000
<b>S Morgan</b> Rheolwr, Plas Menai	Yr Urdd	302	Merch yn aelod	-
<b>M Veale</b> Aelod o'r Cyngor	Cyngor Sir Benfro	115	Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio	41
<b>M Veale</b> Aelod o'r Cyngor	Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful I	66	Aelod o'r Pwyllgor Safonau	72
<b>P Britton</b> Aelod o'r Cyngor	Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan	45	Aelod Bwrdd Annibynnol	-
<b>P Britton</b> Aelod o'r Cyngor	Chwaraeon Anabledd Cymru	911	Cadeirydd (Ymdeolodd Awst 2017)	896
<b>P Britton</b> Aelod o'r Cyngor	Cymdeithas Gyfeiriannu Cymru	3	Brawd yn Aelod Pwyllgor	3

Tâl yr Uwch Reolwyr ac Aelodau'r Cyngor:

Ystyrir yr Uwch Reolwyr ac Aelodau'r Cyngor fel Cyfarwyddwyr a datgelir eu tâl yn yr Adroddiadau Tâl a Staff ar dudalennau 72 i 77.

### 18. Pensiynau

Mae'r datgeliadau pensiwn canlynol wedi cael eu paratoi yn unol ag IAS19 'Buddiannau cyflogeion'.

Mae'r data pensiwn yn y datgeliad hwn wedi cael eu darparu gan actwari annibynnol Chwaraeon Cymru, AON Hewitt. Mae'r prisiad IAS19 a ddarparwyd gan yr actwari ar gyfer Chwaraeon Cymru yn ei gyfarwydd; ni chafwyd prisiadau ar wahân ar gyfer datganiadau ariannol Cyfnerthedig Cyngor Chwaraeon Cymru a datganiadau ariannol y Loteri ac felly mae'r data isod yn cael eu datgelu fel data crynswth.

Mae diffyg y gronfa bensiwn a hefyd y cofnodion cysylltiedig sy'n effeithio ar y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr, y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol a'r Datganiad o Newidiadau i Ecwiti Trethdalwyr wedi cael eu dyrannu rhwng datganiadau ariannol Cyfnerthedig Cyngor Chwaraeon Cymru a datganiadau ariannol y Loteri ar gymhareb sy'n seiliedig ar ddyrannu hanesyddol ar gostau staff i gyfrif y Loteri yn unol â nodyn 1.5. Ar gyfer 2018/19, mae hwn yn 24% i Gyfrifon y Loteri a 76% i Gyfrifon Cyfnerthedig Cyngor Chwaraeon Cymru.

Mae Chwaraeon Cymru wedi gwneud cyfanswm o £1,920,000 o gyfraniad pensiwn yn 2018/19 (2017/18 £1,930,000). Fe'i dadansoddir fel a ganlyn:

- Cyfraniadau Pensiwn Cyflogwr o £1,006,000 sy'n cynrychioli 24.2% o gyflog pensiwnadwy (2017/18 £989,000 24.2%)
- Nid oedd unrhyw gyfraniadau uwch mewn perthynas â chost ymddeol yn gynnwys yn ystod 2018/19 (2017/18 £58,000)
- Cyfraniad Cyfandaliad o £914,000 (24% wedi'i dalu gan y Loteri), (2017/18 £887,000 gyda 24% wedi'i dalu gan y Loteri)

Cyfradd cyfraniadau pensiwn y cyflogwr o 2017/18 ymlaen fydd 24.2%. Pennwyd y ganran hon o ganlyniad i'r prisiad bob tair blynedd diwethaf o'r cynllun, a gynhaliwyd ar 31 Mawrth 2016. Mae Chwaraeon Cymru'n disgwyl cyfrannu £1,980,000 at y gronfa yn 2019/20, sy'n cynnwys cyfraniad tuag at ddiffyg pensiwn o £941,000. Yn ychwanegol, efallai y bydd angen cyfraniadau "straen ar gronfa" hefyd.

Y gost pensiwn lawn i Gyngor Chwaraeon Cymru yw £340,000 gyda £258,000 (2017/18 £236,000) wedi'i ddyrannu i'r cyfrifon cyfnerthedig a'r gweddill o £82,000 (2017/18 £74,000) wedi'i ddyrannu i'r Loteri.

Y gost actwaraidd lawn ar bensiwn i Gyngor Chwaraeon Cymru yw £580,000 gyda £441,000 (2017/18 colled o £904,000) wedi'i ddyrannu i'r cyfrifon cyfnerthedig a'r gweddill o £139,000 (2017/18 colled o £286,000) wedi'i ddyrannu i'r Loteri.

Yr atebolrwydd pensiwn llawn i Gyngor Chwaraeon Cymru yw £12,880,000, gyda £9,891,000 (2017/18 £10,746,000) wedi'i ddyrannu i'r cyfrifon cyfnerthedig a'r gweddill o £2,989,000 (2017/18 £3,174,000) wedi'i ddyrannu i'r Loteri. Mae atebolrwydd pensiwn y Loteri wedi'i addasu £102,000 i ganiatáu ar gyfer effaith net newidiadau hanesyddol wrth ddyrannu costau staff i gyfrif y Loteri gyda'r £102,000 o iawn wedi'i ddyrannu i'r atebolrwydd pensiwn yng nghyfrif cyfnerthedig Cyngor Chwaraeon Cymru.

### Prif Ragdybiaethau Ariannol

	31 Mawrth 2019	31 Mawrth 2018	31 Mawrth 2017
Cyfradd Gostyngiad	2.4	2.6	2.6
Chwyddiant – CPI	2.2	2.1	2.0
Cyfradd y cynnydd i bensiynau mewn taliadau	2.2	2.1	2.0
Cyfradd y cynnydd i bensiynau gohiriedig	2.2	2.1	2.0
Cyfradd y cynnydd cyffredinol mewn cyflogau	3.2	3.1	3.0
Rhagdybiaethau marwoldeb:			
Oes yn y dyfodol o 65 oed (yn 65 oed ar y dyddiad cyfrifo)			
- Dynion	22.4	23.1	23.0
- Merched	24.8	25.8	25.7
Oes yn y dyfodol o 65 oed (yn 45 oed ar y dyddiad cyfrifo)			
- Dynion	23	24.2	24.0
- Merched	25.9	27.2	27.1

Mae Chwaraeon Cymru'n defnyddio dull bloc adeiladu o weithio wrth benderfynu ar gyfradd yr adenillion ar asedau Cronfa. Astudir y marchnadoedd hanesyddol a chymerir yn ganiataol bod yr asedau mwyaf anwadal yn creu adenillion uwch, yn gyson â'r gyfradd elw ddisgwyliedig a dderbynnir yn eang ar gyfer cyfalaf

ar gyfer pob ag egwyddorion marchnad cyfalaf a dderbynnir yn gyffredinol. Mae'r gyfradd gyffredinol ddisgwyliedig o adenillion ar asedau'n deillio o gydgrynhoi'r gyfradd ddisgwyliedig o adenillion ar gyfer pob dosbarth o asedau dros ddyraniad gwirioneddol ar gyfer y Gronfa ar 31 Mawrth 2019.

### Dadansoddiad o symudiadau'r gwarged (diffyg) yn ystod y flwyddyn

	31 Mawrth 2019 £m	31 Mawrth 2018 £m
Gwerth teg asedau'r gronfa	47.09	42.87
Gwerth presennol yr atebolrwydd	(59.97)	(56.52)
(Diffyg) yn y cynllun ar ddiwedd y flwyddyn	(12.88)	(13.65)

### Dadansoddiad o'r swm a godwyd mewn perthynas â Chostau Gweithredu

	31 Mawrth 2019 £m	31 Mawrth 2018 £m
Cost gyfredol y gwasanaeth	1.39	1.33
Cost y gwasanaeth yn y gorffennol	0.00	0.06
Cost llog	0.34	0.31
Cydnabuwyd y treuliau	1.73	1.70

### Ailfesur symiau cydnabyddedig mewn Gwariant Cynhwysfawr Arall

	31 Mawrth 2019 £m	31 Mawrth 2018 £m
Adenillion ar asedau cynllun mwy na'r hyn a gydnabyddir yn y llog net	(1.88)	(0.17)
Colledion actwaraidd oherwydd y newid i ragdybiaethau ariannol	3.63	1.07
Colledion actwaraidd oherwydd y newid i ragdybiaethau demograffig	(2.42)	0.00
Colledion actwaraidd oherwydd profiad atebolrwydd	0.09	0.29
Cyfanswm y swm cydnabyddedig mewn Gwariant Cynhwysfawr Arall	(0.58)	1.19
Cyfanswm y swm cydnabyddedig	1.15	2.89

### Newidiadau i werth presennol y rhwymedigaeth buddiannau pendant yn ystod y cyfnod

	31 Mawrth 2019 £m	31 Mawrth 2018 £m
Rhwymedigaeth buddiannau pendant agoriadol	56.52	53.03
Cost gyfredol y gwasanaeth	1.39	1.33
Cost llog ar rwymedigaeth pensiwn pendant	1.46	1.37
Cyfraniadau gan gyfranogwyr	0.3	0.29
Colledion actwaraidd ar atebolrwydd - rhagdybiaethau ariannol	3.63	1.07
Colledion/(enillion)/actwaraidd ar atebolrwydd - rhagdybiaethau demograffig	(2.42)	0.00
Colledion actwaraidd ar atebolrwydd - profiad	0.09	0.29
Buddiannau net a dalwyd	(1.00)	(0.92)
Cost y gwasanaeth yn y gorffennol (gan gynnwys cwtogiad)	0.00	0.06
Rhwymedigaeth buddiannau pendant wrth gloi	59.97	56.52

### Newidiadau i werth teg yr asedau yn ystod y flwyddyn

	31 Mawrth 2019 £m	31 Mawrth 2018 £m
Gwerth teg agoriadol yr asedau	42.87	40.34
Incwm llog ar asedau	1.12	1.06
Ailfesur enillion ar asedau	1.88	0.17
Cyfraniadau gan y cyflogwr	1.92	1.93
Cyfraniadau gan y cyfranogwyr	0.3	0.29
Buddiannau net a dalwyd	(1.00)	(0.92)
Gwerth teg yr asedau wrth gloi	47.09	42.87

### Adenillion gwirioneddol ar asedau

	31 Mawrth 2019 £m	31 Mawrth 2018 £m
Adenillion disgwylidig ar asedau	1.12	1.06
Enillion/(colledion) actwaraidd ar asedau	1.88	0.17
Adenillion gwirioneddol ar asedau	3.00	1.23

### Hanes gwerthoedd yr asedau, gwerth presennol y rhwymedigaeth buddiannau pendant a diffyg

	31 Mawrth 2019 £m	31 Mawrth 2018 £m	31 Mawrth 2017 £m	31 Mawrth 2016 £m	31 Mawrth 2015 £m	31 Mawrth 2014 £m
Gwerth teg yr asedau	47.09	42.87	40.34	31.35	30.40	26.37
Gwerth presennol y rhwymedigaeth buddiannau pendant	(59.97)	(56.52)	(53.03)	(41.36)	(42.57)	(36.64)
(Diffyg)	(12.88)	(13.65)	(12.69)	(10.01)	(12.17)	(10.27)

### 19. Adfer grantiau

Yn ystod 2018/19, ymhellach i werthiant y tir ar safle Morfa yn Abertawe, derbyniodd Chwaraeon Cymru £526,000 i ryddhau'r ddau gyfrifoldeb. Mae'r balans sy'n weddill o £12,000 yn berthnasol i adfer grantiau ad hoc drwy gydol y flwyddyn.

### 20. Digwyddiadau ar ôl y Cyfnod Adrodd Yn Ôl

Awdurdodwyd y cyfrifon ar gyfer eu cyhoeddi gan y Swyddog Cyfrifo ar y dyddiad y cawsant eu hardystio gan y Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol.